# Asesiad Seilwaith Asesiad Seilwaith Gwyrdd Sir Benfro

Strategaethau Plannu Coed Trefol a Pheillwyr

## Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

**Adroddiad terfynol**

Paratowyd gan LUC

Mawrth 2023

| Fersiwn | Statws | Paratowyd | Gwiriwyd | Cymeradwywyd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Drafft | S Crewe | S Crewe | M Parkhill | 03.03.2023 |

**Land Use Consultants Limited**

Cofrestrwyd yn Lloegr. Rhif cofrestredig 2549296. Swyddfa Gofrestredig: 250 Waterloo Road, Llundain SE1 8RD. Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%

# Cynnwys

## Pennod 1 — 7
Strategaethau Plannu Coed Trefol

Cydrannau Strategaeth Plannu Coed Trefol Sir Benfro 8
Prif fuddion coed trefol 9

## Pennod 2 — 14
Egwyddorion Cyffredinol

Plannu ar gyfer y tymor hir 16
Sicrhau'r buddion amgylcheddol mwyaf posibl 18
Cynyddu amrywiaeth a gwytnwch 20
Y goeden gywir, y lle cywir 21
Creu lleoedd 'cyfeillgar i goed' 23
Gwella tirwedd a gwarchod golygfeydd 25

## Pennod 3 — 28
Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion ar gyfer 11 Anheddiad

Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion Abergwaun ac Wdig 29
Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Hwlffordd 34
Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Aberdaugleddau. 38
Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Arberth. 43
Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Trefdraeth. 46
Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion Neyland 49
Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion Penfro 53
Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion Doc Penfro 56
Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion Saundersfoot 62

**Cynnwys**

Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion Tyddewi 65
Parthau Plannu Coed ac Is- Egwyddorion Dinbych-y-pysgod 69

## Teipoleg Plannu Coed

Coed ar gyfer amgylcheddau palmantog a choridorau trafnidiaeth 74
Parcdir 77
Coetir a lleiniau cysgodi 80
Coed ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) 82
Coed ar gyfer lleoliadau arfordirol 83

## Pennod 4 85

## Cyflawni - Strategaethau Coed Trefol

Y broses plannu coed 85
Cydrannau allweddol ar gyfer sefydlu coed yn llwyddiannus 89
Dewis rhywogaethau 91
Yr amgylchedd gwreiddio 95

## Pennod 5 106

## Strategaethau Peillwyr

Pwysigrwydd peillwyr 106
Cyd-destun polisi 108
Bygythiadau allweddol 110
Peillwyr blaenllaw yn Sir Benfro 111
Cysylltu â mentrau ehangach 112
Pwrpas y strategaethau peillwyr 114
Strwythur y strategaethau peillwyr 114

## Pennod 6 116

## Egwyddorion Peillwyr Cyffredinol

**Pennod 7** **126**
Llwybrau Peillwyr ar gyfer 11 Anheddiad

Llwybr Peillwyr Abergwaun ac Wdig 126
Llwybr Peillwyr Hwlffordd 129
Llwybr Peillwyr Aberdaugleddau 131
Llwybr Peillwyr Arberth 133
Llwybr Peillwyr Trefdraeth 135
Llwybr Peillwyr Neyland 137
Llwybr Peillwyr Penfro 139
Llwybr Peillwyr Doc Penfro 141
Llwybr Peillwyr Saundersfoot 143
Llwybr Peillwyr Tyddewi 145
Llwybr Peillwyr Dinbych-y-pysgod 148

**Pennod 8** **155**
Cyflawni - Strategaethau Peillwyr

Ystyriaethau rheoli a chynnal a chadw 156

**Cyfeiriadau** **166**

## Tabl Ffigurau

Ffigur 1.1: Prif fuddion coed trefol 10
Ffigur 2.1: Egwyddorion Cyffredinol ar gyfer Plannu Coed Llwyddiannus 15
Ffigur 2.2: Egwyddor 1 - Plannu ar gyfer y tymor hir 17
Ffigur 2.3: Egwyddor 2 - Sicrhau'r buddion amgylcheddol mwyaf posibl 19
Ffigur 2.4: Egwyddor 3 - Cynyddu amrywiaeth a gwytnwch 21
Ffigur 2.5: Egwyddor 4 - Y goeden gywir, y lle cywir 23

**Cynnwys**


Ffigur 2.6: Egwyddor 5 - Creu lleoedd 'cyfeillgar i goed' 25
Ffigur 2.7: Egwyddor 6 - Gwella tirwedd a gwarchod golygfeydd 27
Ffigur 3.1: Parthau Plannu Coed Strategol Abergwaun ac Wdig 30
Ffigur 3.2: Parthau Plannu Coed Strategol Hwlffordd 35
Ffigur 3.3: Parthau Plannu Coed Strategol Aberdaugleddau 39
Ffigur 3.4: Parthau Plannu Coed Strategol Arberth 44
Ffigur 3.5: Parthau Plannu Coed Strategol Trefdraeth 46
Ffigur 3.6: Parthau Plannu Coed Strategol Neyland 50
Ffigur 3.7: Parthau Plannu Coed Strategol Penfro 54
Ffigur 3.8: Parthau Plannu Coed Strategol Doc Penfro 58
Ffigur 3.9: Parthau Plannu Coed Strategol Saundersfoot 63
Ffigur 3.10: Parthau Plannu Coed Strategol Tyddewi 66
Ffigur 3.11: Parthau Plannu Coed Strategol Dinbych-y-pysgod 70
Ffigur 4.1: Cynllun proses lefel uchel ar gyfer prosiectau plannu coed 88
Ffigur 4.2: Cydrannau allweddol ar gyfer sefydlu coed llwyddiannus 90
Ffigur 5.1: Buddion Peillwyr 107
Ffigur 5.2: Peillio 108
Ffigur 6.1: Cynefinoedd Llwyddiannus i Beillwyr 117
Ffigur 7.1: Llwybr Peillwyr Abergwaun ac Wdig 128
Ffigur 7.2: Llwybr Peillwyr Hwlffordd 130
Ffigur 7.3: Llwybr Peillwyr Aberdaugleddau 132
Ffigur 7.4: Llwybr Peillwyr Arberth 134
Ffigur 7.5: Llwybr Peillwyr Trefdraeth 136
Ffigur 7.6: Llwybr Peillwyr Neyland 138
Ffigur 7.7: Llwybr Peillwyr Penfro 140
Ffigur 7.8: Llwybr Peillwyr Doc Penfro 142
Ffigur 7.9: Llwybr Peillwyr Saundersfoot 144
Ffigur 7.10: Llwybr Peillwyr Tyddewi 147
Ffigur 7.11: Llwybr Peillwyr Dinbych-y-pysgod 149

# Pennod 1

## Strategaethau Plannu Coed Trefol

**1.1** Mae coed a choetiroedd yn elfen hanfodol o'n hamgylchedd trefol ac yn allweddol i dwf a datblygiad cynaliadwy. Mae gan 'goedwig drefol' iach sy'n cael ei rheoli'n dda y potensial i gyflawni amrywiaeth o swyddogaethau amgylcheddol a dwyn buddion niferus i bobl a byd natur.

**1.2** Mae strategaeth plannu coed trefol Sir Benfro yn hyrwyddo dull strategol o blannu a rheoli coed ar draws 11 anheddiad yn Sir Benfro. Bydd hyn yn sicrhau y bydd plannu ychwanegol yn dwyn y buddion mwyaf ac yn helpu i ddiogelu a gwella cymeriad unigryw aneddiadau'r sir i'r dyfodol.

**1.3** Er bod yna oblygiad adnoddau ynghlwm wrth gynyddu’r coed trefol ledled Sir Benfro, mae'r buddion y gellir eu sicrhau o'r buddsoddiad cadarnhaol hwn yn niferus ac amrywiol. Mae cynyddu 'gorchudd canopi' coed yn flaenoriaeth i lywodraethau Cymru a’r DU ac mae'n biler canolog yn yr ymdrechion i gyrraedd allyriadau sero-net. Cynyddu gorchudd coetir yw un o egwyddorion sylfaenol cynllun gweithredu Coetiroedd i Gymru 2022 Llywodraeth Cymru **[Gweler cyfeiriad** 1**]**:

**1.4** 'Gwneud y gorau o'r buddion cynaliadwy y gallai coedwigaeth, coetiroedd a choed eu darparu ar draws ardaloedd gwledig, amdrefol, a threfol i ddiwallu anghenion pobl a chymunedau lleol.' (Cynllun gweithredu Coetiroedd i Gymru, Cymru 2022).

**1.5** Mae lliniaru effeithiau hinsawdd sy'n newid ac addasu i’r effeithiau hyn yn themâu sy'n gysylltiedig â llawer o fuddion posibl coed.

# Cydrannau Strategaeth Plannu Coed Trefol Sir Benfro

**1.6** Mae strategaeth plannu coed trefol Sir Benfro yn hyrwyddo dull strategol o blannu a rheoli coed ar draws 11 anheddiad yn Sir Benfro.

**1.7** Datblygwyd strategaethau unigol i blannu coed trefol ar gyfer pob un o'r 11 anheddiad sy’n ymddangos yn y strategaeth.

## Egwyddorion Cyffredinol

**1.8** Yn sail i'r holl strategaethau anheddiad unigol mae cyfres o egwyddorion cyffredinol. Bydd yr egwyddorion cyffredinol yn llywio dyluniad a dull cyflawni pob prosiect plannu coed ar draws yr anheddiad.

## Is-egwyddorion a Pharthau Plannu Coed ar gyfer 11 Anheddiad

**1.9** Datblygwyd strategaeth ofodol ar gyfer plannu coed ym mhob anheddiad. Mae hyn yn cynnwys parthau plannu coed strategol sydd wedi'u sefydlu ar gyfer pob anheddiad. Mae gan bob parth plannu coed gyfres o is-egwyddorion cyfatebol, sy'n meithrin yr egwyddorion cyffredinol ymhellach ac yn ymhelaethu ar ble a sut y bydd angen i brosiectau plannu coed gael eu datblygu ym mhob parth.

**1.10** Datblygwyd cyfres o deipoleg plannu coed. Rhoir gwybod ble y gellir defnyddio'r deipoleg blannu a’r argymhellion rhywogaethau i ddatblygu cynlluniau prosiect yn rhan o'r parthau plannu coed ar gyfer pob anheddiad.

## Cyflawni

**1.11** Darperir fframwaith a chanllawiau pellach ar gyflawni hefyd. Mae hyn yn cynnwys:

- Y camau allweddol sydd eu hangen i ddatblygu prosiectau plannu coed;
- Trosolwg o safonau ar gyfer plannu a chynnal a chadw; ac
- Argymhellion rhywogaethau a fframwaith ar gyfer dewis rhywogaethau.


# Prif fuddion coed trefol

**1.12** Mae coed yn darparu ystod eang o fuddion amgylcheddol, cymdeithasol, iechyd a lles.

**1.13** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 1.1 isod, mae:

- Darparu cysgod naturiol ac oeri trefol.
- Gwella ansawdd aer a rheoleiddio sŵn.
- Lleihau risg llifogydd a gwella ansawdd dŵr.
- Gwerth esthetig ac atgyfnerthu ymdeimlad o le.
- Dal a storio carbon a lliniaru newid hinsawdd.
- Helpu i greu lleoedd cymdeithasol ac efallai cynyddu ymdeimlad o ddiogelwch.
- Lle i fioamrywiaeth a gwell gwytnwch.
- Buddion economaidd a gwell profiad i ymwelwyr.

### Ffigur 1.1: Prif fuddion coed trefol




# Mae coed yn gwella ein hamgylchedd

**1.14** Mae coed yn darparu cysgod naturiol ac aer oer iach.

- Mae coed yn darparu lloches ac yn lleihau cyflymder y gwynt. Dangoswyd bod coed yn cael effaith oeri a'u bod yn cwtogi hyd at 12 gradd ar dymheredd yr arwyneb yn rhai o ddinasoedd Ewrop mewn rhai rhanbarthau. Ar y llaw arall, mae mannau gwyrdd heb goed yn cael effaith ddibwys ar dymheredd yr arwyneb. **[Gweler cyfeiriad** 2**]** Canfuwyd bod

coed yn lleihau risg morbidrwydd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwres ac yn gwella cysur thermol mewn mannau awyr agored **[Gweler cyfeiriad** 3**]**.

**1.15** Mae coed yn rhyddhau'r ocsigen a anadlwn ac yn amsugno carbon deuocsid.

- Gall coeden aeddfed storio 22 cilogram o garbon bob blwyddyn. Bydd coeden gyffredin yn cymryd tua thunnell o CO2 yn ystod ei hoes. **[Gweler cyfeiriad** 4**]**

**1.16** Mae coed yn darparu lloches a bwyd i fywyd gwyllt.

- Gall lleiniau cysgodi, rhodfeydd a strydoedd coediog ddarparu coridorau bywyd gwyllt llinol pwysig a ddaw'n rhan o'r lleoliad trefol. Gall coed ddarparu amrywiaeth o gynefinoedd o safleoedd nythu i fwyd fel neithdar, hadau ac aeron. Gall un dderwen aeddfed gynnal dros 280 o wahanol rywogaethau o infertebratau.

**1.17** Mae coed yn lleddfu effeithiau llifogydd ac yn lleihau llygredd dŵr storm.

- Os dewisir eu safle a'u rhywogaeth yn briodol, gall coed leihau dŵr ffo daear a rhyng-gipio llygredd. Gall hyn, yn ei dro, leihau difrifoldeb llifogydd a helpu i ddiogelu ansawdd dŵr afonol a morol a bywyd dyfrol. Amcangyfrifwyd y gall cynnydd o 5% mewn gorchudd canopi coed gwtogi 2% ar ddŵr ffo **[Gweler y cyfeirnod** 5**]**. Dangoswyd bod coed llydanddail yn rhyng-gipio tua 38% o wlybaniaeth gros, gan arafu llif y dŵr yn ystod digwyddiadau glaw. **[Gweler cyfeiriad** 6**]**

**1.18** Mae coed yn gwella cymeriad y dirwedd ac yn gallu meddalu'r amgylchedd adeiledig.

- Mae'r holl fathau o blannu, gan gynnwys coed stryd, coed parcdir, gwrychoedd, perllannau cymunedol neu goetir, i gyd yn gallu atgyfnerthu ymdeimlad o le a darparu gwerth esthetig os cânt eu plannu yn y mannau cywir.

# Mae coed yn dwyn buddion cymdeithasol, iechyd a lles

**1.19** Mae coed yn rhyng-gipio gronynnau ac yn gwella ansawdd aer.

- Gall coed helpu i ryng-gipio a thynnu nifer o lygryddion o'r atmosffer - gan gynnwys nitrogen ocsid, oson a gronynnau. Gall lefelau gronynnau fod hyd at 60% yn llai ar strydoedd coediog nag ar y rheini sydd heb goed.

**1.20** Cysylltwyd presenoldeb coed mewn ardaloedd trefol â lefelau troseddu is.

- Mae rhai astudiaethau wedi dangos bod gan ardaloedd sydd â choed canopi uchel gyfraddau troseddu is o'u cymharu ag ardaloedd â llystyfiant is fel glaswellt wedi'i dorri **[Gweler cyfeiriad** 7**]**. Mae mannau cyhoeddus sydd â choed hefyd yn tueddu i gael eu defnyddio mwy, a bydd llif o bobl yn cynyddu gwyliadwriaeth anffurfiol ac ymdeimlad o ddiogelwch.
- Gallai presenoldeb coed leihau lefelau troseddu gymaint â 7%. Canfu un astudiaeth, a gynhaliwyd yn UDA, fod blociau fflatiau yng nghanol coed aeddfed wedi bod yn destun 52% yn llai o droseddau a adroddwyd na'r rhai heb wyrddni **[Gweler cyfeiriad** 8**]**. Canfu adolygiad o lenyddiaeth gan Wolf et al. **[Gweler cyfeiriad** 9**]** fod coed yn gallu lleihau amledd gwahanol fathau o droseddau, er y gallai fod ffactorau yn dylanwadu fel maint coed, eu lleoliad a statws iechyd cyffredinol coed mewn ardal.

**1.21** Mae coed yn helpu i greu mannau cymdeithasol a meithrin cynhwysiant cymdeithasol.

- Dangosodd un astudiaeth berthynas gadarnhaol rhwng gorchudd canopi coed uwch a mwy o 'gyfalaf cymdeithasol', cysylltiad a chymdeithas wedi'u hunan-grybwyll ymysg unigolion. **[Gweler cyfeiriad** 10**]**

**1.22** Mae coed yn helpu i leihau llygredd sŵn.

- Dangoswyd y gall llain gysgodi 30 metr o goed leihau lefelau sŵn ryw bump i ddeg desibel. **[Gweler cyfeiriad** 11**]**

**1.23** Gall coed ddwyn buddion economaidd.

- Canfuwyd bod pobl sy'n ymweld ag ardaloedd busnes ar y cyfan yn barod i dalu mwy am nwyddau a gwasanaethau mewn ardaloedd wedi'u tirlunio o'u cymharu ag ardaloedd heb eu tirlunio. Gall ansawdd y tirlunio ar lwybrau dynesu at ardaloedd busnes ddylanwadu'n gadarnhaol ar ganfyddiadau ymwelwyr. **[Gweler cyfeiriad** 12**]** **[Gweler cyfeiriad** 13**]**

# Pennod 2

## Egwyddorion Cyffredinol

**2.1** Mae'r adran ganlynol yn nodi ystod o egwyddorion cyffredinol a fydd yn hysbysu'r holl blannu coed o fewn yr 11 anheddiad. Cefnogir yr egwyddorion cyffredinol gan gyfres o is-egwyddorion sy'n berthnasol i bob anheddiad a pharthau plannu coed strategol. Datblygwyd y rhain i sicrhau bod pob gwaith plannu coed trefol yn y dyfodol yn helpu i wireddu'r weledigaeth a'r amcanion ar gyfer Seilwaith Gwyrdd (SG) yn Sir Benfro.

**2.2** Hysbyswyd y rhain gan yr adolygiad sylfaenol ar gyfer yr astudiaeth (gan gynnwys pwysau a sbardunau ar gyfer pob anheddiad), ymweliadau safle ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Datblygwyd egwyddorion plannu coed trefol hefyd i sicrhau y cydredir â'r canllawiau presennol, gan gynnwys y canllawiau Coed a Choetir (canllawiau cynllunio atodol i gynllun datblygu lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – cymeradwywyd drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus) **[Gweler cyfeiriad** 14**]**. Mae'r ddogfen hon i fod i gael ei mabwysiadu'n ffurfiol gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) (yn dilyn adroddiad o ymgynghoriadau) yn 2023.


**2.3** Mae'r egwyddorion cyffredinol yn cydnabod y gall coed gynnig buddion lluosog i bobl, bioamrywiaeth a'r amgylchedd ehangach. Mae coed sy'n gallu cyrraedd aeddfedrwydd llawn, a choed sydd â chanopïau mawr, yn rhoi mwy o fuddion. Er mwyn sicrhau coed iach ac aeddfed, rhaid i goed trefol newydd sy'n cael eu plannu:

- Gael eu dewis, eu plannu a'u cynnal yn dda.
- Cael digon o le gwreiddio gyda phridd ffrwythlon, heb ei gywasgu; a
- Chael y lle i gyrraedd aeddfedrwydd llawn, heb ofynion tocio gormodol.

**2.4** Mae'r egwyddorion cyffredinol hefyd yn cydnabod y gallai coed fod ag anfanteision o bosibl, y gellir eu hosgoi drwy gynllunio a dewis coed yn dda.

**2.5** Nodir yr egwyddorion cyffredinol o dan nifer o benawdau. Rhennir y rhain rhwng y rheini sy’n ymwneud yn bennaf â chyfnod dylunio prosiect, a'r rhai sy'n ymwneud yn bennaf â chyfnod cyflawni'r prosiect.

## Ffigur 2.1: Egwyddorion Cyffredinol ar gyfer Plannu Coed Llwyddiannus



# Plannu ar gyfer y tymor hir

## Dylunio

1a. Dylai prosiectau plannu coed sicrhau coed aeddfed, hirhoedlog. Bydd cyfleoedd i blannu coed canopi mawr yn cael eu blaenoriaethu.

1b. Dylai dulliau plannu a dylunio pwll coeden gael eu llywio gan safonau a chanllawiau cydnabyddedig y diwydiant.

1c. Dylid ceisio'r amgylchedd gwreiddio mwyaf posibl mewn tirwedd galed er mwyn i goed gyrraedd eu haeddfedrwydd llawn.

## Cyflawni


1d. Dylid cytuno ar drefniadau ar gyfer cynnal a chadw parhaus a'u cadarnhau cyn plannu.

1e. Dylai coed wedi cwympo gael eu disodli ar gymhareb 1:1 o leiaf. Dylid ystyried achosion colli coed, h.y. clefyd, addasrwydd rhywogaethau, lleoliad, wrth gynllunio plannu coed newydd. Yn ddelfrydol, dylid plannu coed newydd mor agos at y coed neu goeden wreiddiol â phosibl, gyda'r nod o adfer neu gynyddu gorchudd canopi ym mhob anheddiad a bro. Yn ddelfrydol, dylai coed unigol neu grwpiau o goed sy'n cael eu plannu yn lle coed sydd wedi'u tynnu neu golli fod yn goed Tal neu Dal Trwm, oni ystyrir ei bod yn fwy priodol plannu ardaloedd mwy o goetir yn lle coed a gollwyd, a sefydlir orau efallai â stoc o goed llai (h.y. coed chwip).

**2.6** Mae Ffigur 2.2 isod yn amlygu’r pwyntiau canlynol ar gyfer yr egwyddor hon:

- Ni ddylai coed ymyrryd â symudiad traffig, cerddwyr, a beicwyr.
- Dylid ceisio'r amgylchedd gwreiddio mwyaf posibl mewn tirweddau caled er mwyn i goed gyrraedd eu haeddfedrwydd llawn.
- Dylai’r dewis o rywogaeth gael ei hysbysu gan y maint, taldra a siâp corun a ddymunir i’r lle a nodwyd ar gyfer y goeden. Bydd hyn yn sicrhau hirhoedledd y sbesimen ac yn lleihau risg gwrthdaro â phriffyrdd, cyfleustodau ac adeiladau.
- Dylai dulliau plannu a dylunio pwll coeden gael eu llywio gan safonau a chanllawiau cydnabyddedig y diwydiant ar gyfer amgylcheddau tirwedd feddal a chaled.
- Dylai plannu coed hwyluso coed hirhoedlog, aeddfed. Dylid blaenoriaethu cyfleoedd i blannu canopïau mawr.
- Bydd dewis sbesimenau corun mawr yn rhoi cysgod ychwanegol yn ystod misoedd yr haf o fewn ardaloedd cyhoeddus.

## Ffigur 2.2: Egwyddor 1 - Plannu ar gyfer y tymor hir



# Sicrhau'r buddion amgylcheddol mwyaf posibl

## Dylunio

2a. Integreiddio draeniad trefol cynaliadwy (SDC) gyda phlannu coed trefol lle bo modd.

2b. Dylai dewis rhywogaeth gael ei lywio gan argaeledd dŵr tebygol (h.y. goddef sychder neu lifogydd cyfnodol).

2c. Integreiddio rhywogaethau sy'n dda am ryng-gipio llygredd a gronynnau.

2d. Blaenoriaethu rhywogaethau sy'n darparu bwyd a lloches i fywyd gwyllt.

2e. Gosod coed i ddarparu cysgod lle bo angen heb rwystro golau i drigolion.


## Cyflawni

2f. Cynnwys ymarferwyr arbenigol (fel peirianwyr llifogydd / draeniad) a chydweithio i gyflawni cynlluniau effeithiol.

**2.7** Mae Ffigur 2.3 isod yn amlygu’r pwyntiau canlynol ar gyfer yr egwyddor hon:

- Coed wedi'u hymgorffori mewn systemau draenio cynaliadwy (SDC).
- Dewis rhywogaeth i'w lywio gan argaeledd dŵr tebygol, er enghraifft goddef sychder neu lifogydd cyfnodol.
- Lle ar gael i'r rhywogaeth sy'n cael ei phlannu dyfu a datblygu'n llawn.
- Integreiddio rhywogaethau sy'n dda am ryng-gipio llygredd a gronynnau o'r aer.
- Cyfeirio dŵr wyneb tuag at blannu coed a systemau draenio cynaliadwy.
- Defnyddio rhywogaethau sy'n dda am dynnu llygredd o ddŵr ffo wyneb.
- Defnyddio coed o fewn mannau agored i gyfrannu tuag at storio dŵr llifogydd.
- Blaenoriaethu rhywogaethau sy'n darparu bwyd a lloches i fywyd gwyllt.

## Ffigur 2.3: Egwyddor 2 - Sicrhau'r buddion amgylcheddol mwyaf posibl



# Cynyddu amrywiaeth a gwytnwch

## Dylunio

3a. Cynyddu amrywiaeth rhywogaethau coed ar draws pob anheddiad i ddatblygu gwytnwch i blâu, afiechyd a newid hinsawdd.

3b. Bydd rhywogaethau coed yn cael eu llywio gan ddealltwriaeth o'r stoc goed bresennol.

3c. Ni ddylid plannu coed ar gynefinoedd presennol o werth uchel, fel glaswelltiroedd blodau gwyllt lled-naturiol neu rostir lle byddai plannu yn niweidiol i ansawdd cynefin.

## Cyflawni

3d. Dylai plannu coed newydd a rheoli coed ddilyn mesurau bioddiogelwch cadarn.


3e. Cyrchu’r stoc blannu yn lleol ac yng Nghymru.

3f. Lle bo angen, ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch safleoedd dynodedig neu gynefinoedd gwerth uchel sy'n bodoli eisoes wrth gynllunio prosiectau plannu coed.

**2.8** Mae Ffigur 2.4 isod yn amlygu’r pwyntiau canlynol ar gyfer yr egwyddor hon:

- Cyrchu’r stoc blannu yn lleol ac yng Nghymru.
- Rhywogaethau coed i'w llywio gan ddealltwriaeth o'r stoc goed bresennol, gan gynnwys rhywogaethau o fewn mannau preifat a chyhoeddus.
- Defnyddio detholiad amrywiol o rywogaethau i gynyddu gwytnwch i blâu, afiechyd a newid hinsawdd.
- Ni ddylid plannu coed ar gynefinoedd presennol o werth uchel, fel glaswelltiroedd blodau gwyllt lled-naturiol neu rostir.

**Ffigur 2.4: Egwyddor 3 - Cynyddu amrywiaeth a gwytnwch**




# Y goeden gywir, y lle cywir

## Dylunio

4a. Dylai dealltwriaeth o gyfyngiadau safle, amodau lleol a chymeriad tirwedd hysbysu’r broses o blannu coed newydd.

4b. Dylai dewis rhywogaethau anelu at gyfyngu ar yr angen am ofynion cynnal a chadw ychwanegol diangen neu ofynion tocio gormodol.

4c. Dylid nodi coed sydd â chanopïau cul (neu bigfain) ar safleoedd lle byddai canopïau sy'n lledu'n eang yn cyflwyno problem cynnal a chadw.

4d. Dylid ystyried problemau niwsans posibl o goed, gan gynnwys priodweddau alergenig, gollwng ffrwythau a'r gawod fêl.

4e. Dylid dewis safleoedd plannu a rhywogaethau coed i leihau risg difrod i seilwaith ac eiddo.


## Cyflawni

4f. Ymgynghori'n gynnar â'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n cael eu deall a bod digon o gyfle i randdeiliaid gyfrannu.

**2.9** Mae Ffigur 2.5 isod yn amlygu'r pwyntiau canlynol ar gyfer yr egwyddor hon:

- Lleiniau clustogi rhwng ardaloedd preswyl a ffynonellau llygredd.
- Coed addurnol yn nodi pyrth i ardaloedd adeiledig.
- Perllannau cymunedol yn hawdd i breswylwyr gael atynt.
- Coetir presennol wedi'i glustogi a'i ehangu ag amrywiaeth ehangach o rywogaethau.
- Canopïau pigfain wedi'u defnyddio ar hyd ffyrdd.
- Cymeriad tirwedd wedi'i wella a golygfeydd o nodweddion sy'n tynnu sylw wedi'u sgrinio.

**Ffigur 2.5: Egwyddor 4 - Y goeden gywir, y lle cywir**




# Creu lleoedd 'cyfeillgar i goed'

## Dylunio

5a. Sicrhau bod cynllun a dyluniad datblygiadau a seilwaith newydd yn gallu darparu ar gyfer tyfiant coed canopi aeddfed, mawr.

5b. Sicrhau nad yw plannu coed newydd yn amharu ar seilwaith. Sicrhau bod cyfleustodau newydd yn sicrhau'r lle mwyaf posibl i goed dyfu.

## Cyflawni

5c. Sicrhau bod plannu coed newydd yn cael ei ystyried yn rhan o bob prosiect tir y cyhoedd, seilwaith a datblygu.


5d. Sicrhau bod coed yn cael eu hystyried o ddechrau'r holl brosiectau dylunio a datblygu.

5e. Cysylltu â thimau mannau gwyrdd, adrannau cynllunio a phriffyrdd i hyrwyddo plannu coed.

**2.10** Mae Ffigur 2.6 isod yn amlygu'r pwyntiau canlynol ar gyfer yr egwyddor hon:

- Gwelededd wedi'i gynnal ar gyfer diogelwch lle bo angen.
- Mae plannu newydd yn ystyried celfi stryd presennol, er enghraifft colofnau goleuo a phwyntiau gwefru cerbydau trydan.
- Nid yw plannu newydd yn ymyrryd â chyfleustodau ac mae'n sicrhau'r lle mwyaf posibl i goed dyfu.
- Cysylltu â thimau priffyrdd, cynllunio a mannau gwyrdd i hyrwyddo plannu coed.
- Lle ar gael i'r rhywogaeth sy'n cael ei phlannu dyfu a datblygu'n llawn.
- Sicrhau bod plannu coed newydd yn cael ei ystyried ar ddechrau prosiectau tir y cyhoedd, seilwaith a datblygu.
- Dewis coed cul, colofnaidd lle mae prinder lle.
- Defnyddio plannu coed i reoli a meddalu lleoedd parcio ar y stryd gan gadw'r droedffordd yn glir hefyd a lleihau ymyrraeth ag adeiladau cyfagos. Bydd hyn yn caniatáu i goed gyrraedd eu llawn botensial.

### Ffigur 2.6: Egwyddor 5 - Creu lleoedd 'cyfeillgar i goed'




# Gwella tirwedd a gwarchod golygfeydd

## Dylunio

6a. Sicrhau bod plannu coed yn pwysleisio nodweddion treftadaeth neu gymeriad treflun, ac nad yw'n tynnu oddi wrthynt, nac yn effeithio'n negyddol arnynt. Bydd angen rhoi digon o ystyriaeth i Adeiladau a nodweddion Rhestredig, Henebion Cofrestredig, archaeoleg, a nodweddion Rhestredig Lleol.

6b. Defnyddir coed i fframio golygfeydd a fistâu.

6c. Cynnal golygfeydd allweddol a werthfawrogir gan y gymuned neu a warchodir gan bolisi.

6d. Sicrhau bod plannu coed mewn aneddiadau sydd o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCAP) a gerllaw yn cael ei lywio gan Ganllawiau Coed a Choetir PCAP. Mae'r canllawiau hyn yn nodi cyfleoedd ac ystyriaethau ar gyfer lleoli coed a choetiroedd newydd, wedi'u llywio gan sensitifrwydd gwahanol fathau o dirwedd o fewn PCAP.  Mae hyn o bwysigrwydd arbennig i unrhyw goetiroedd neu leiniau cysgodi y gellir eu hystyried o fewn ardaloedd amdrefol neu wledig gerllaw'r aneddiadau dan ystyriaeth yn yr astudiaeth hon. Mae’r aneddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth hon sydd o fewn ffin PCAP yn cynnwys:

- Trefdraeth
- Tyddewi
- Saundersfoot
- Dinbych-y-pysgod

# Cyflawni


6e. Sicrhau bod gwelededd priodol yn cael ei gynnal ar hyd ffyrdd a throedffyrdd er mwyn diogelwch i'r dyfodol.

6f. Dylid cynllunio'r holl gynigion plannu a gwaith rheoli coed presennol sydd o fewn Ardaloedd Cadwraeth a gerllaw mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol a'r Swyddog Tirwedd yng Nghyngor Sir Penfro (CSP).  Ymgynghorir yn gynnar â Cadw, Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed (DAT), tirfeddianwyr a deiliaid tir er mwyn deall ystyriaethau amgylchedd hanesyddol allweddol safleoedd unigol.

**2.11** Mae Ffigur 2.7 isod yn amlygu’r pwyntiau canlynol ar gyfer yr egwyddor hon:

- Sicrhau bod gwelededd priodol yn cael ei gynnal ar hyd ffyrdd a throedffyrdd.
- Cynnal golygfeydd a safbwyntiau gwerthfawr allweddol i'r arfordir.
- Defnyddio coed i fframio golygfeydd a fistâu.
- Mae plannu coed yn pwysleisio nodweddion treftadaeth ac nid yw’n tynnu oddi wrthynt.
- Coed wedi’u plannu mewn grwpiau neu gyda digon o le rhyngddynt, i gynnal safbwyntiau mewn lleoliadau allweddol.

## Ffigur 2.7: Egwyddor 6 - Gwella tirwedd a gwarchod golygfeydd




**2.11** Mae Parthau Plannu Coed ac Is-Egwyddorion ar gyfer 11 Anheddiad yn adeiladu ar yr Egwyddorion Cyffredinol uchod ac yn rhoi manylion ychwanegol am gynllunio a darparu plannu coed newydd. Nodir Is-egwyddorion ar y dudalen Strategaeth Plannu Coed Trefol ar gyfer pob anheddiad.

# Pennod 3

## Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion ar gyfer 11 Anheddiad

**3.1** Sefydlwyd Parthau Plannu Coed Strategol ar gyfer pob anheddiad a gellir eu cyrchu trwy'r dolenni isod. Mae gan bob Parth Plannu Coed Strategol gyfres o Is-egwyddorion cyfatebol, sy'n meithrin yr Egwyddorion Cyffredinol ymhellach ac yn rhoi manylion ychwanegol i hysbysu prosiectau plannu coed yn y dyfodol.

**3.2** Datblygwyd teipoleg plannu coed hefyd, gan amlinellu argymhellion rhywogaethau a chanllawiau plannu coed ar gyfer amodau amgylcheddol penodol.


- Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Abergwaun ac Wdig.
- Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Hwlffordd.
- Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Aberdaugleddau.
- Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Arberth.
- Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Trefdraeth.
- Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Neyland.
- Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Penfro.
- Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Doc Penfro.
- Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Saundersfoot.
- Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Tyddewi.
- Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Dinbych-y-pysgod.

# Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion Abergwaun ac Wdig

**3.3** Dangosir Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion ar gyfer Abergwaun ac Wdig ar y map ac isod. Maent yn cynnwys:

- Creiddiau hanesyddol Abergwaun ac Wdig
    - Plannu coed er mwyn meddalu cymeriad trefol presennol patrwm cul y strydoedd o fewn y ddwy dref, gan fanteisio ar eu safle arfordirol.
- Pen Cw a Ffordd y Cei
    - Cyflwyno rhywogaethau plannu coed sy'n ategu graddiant serth y tir sy'n edrych dros Harbwr Abergwaun, gan gadw golygfeydd arfordirol uwch yn lleol.
- Bae Abergwaun a glan y môr
    - Cyflwyno rhywogaethau coed sy'n addas ar gyfer amgylcheddau glan y dŵr er mwyn sicrhau athreiddedd gweledol a chadw golygfeydd agored ar draws Harbwr Abergwaun.
- Cwr Maesgwyn
    - Cyflwyno rhywogaethau plannu coed sy'n ategu'r lleoliad gwledig ar gyrion Abergwaun.
- A487 diwydiannol a masnachol
    - Meddalu'r cyd-destun diwydiannol a masnachol ar dir sy'n ffinio â'r A487.
- Ardaloedd preswyl Abergwaun ac Wdig
    - Gwella lleoliad ardaloedd preswyl wrth ategu topograffi lleol ac amgylcheddau arfordirol. Hybu derbyn cynigion plannu coed gyda'r gymuned leol i gynyddu tebygolrwydd sefydlu hirdymor

## Ffigur 3.1: Parthau Plannu Coed Strategol Abergwaun ac Wdig




# Parthau ac Is-egwyddorion

**3.4** Mae'r tir sy'n cael ei gwmpasu o fewn Ardal Gadwraeth (AG) Abergwaun, AG Wdig ac AG Cwm Abergwaun yn cynnwys y mannau rhwng adeiladau a choed presennol yn y dynodiad. Dylid cynllunio'r holl gynigion plannu a gwaith rheoli coed presennol o fewn a gerllaw Ardaloedd Cadwraeth mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol a'r Swyddog Tirwedd yn CSP.

## Creiddiau hanesyddol Abergwaun ac Wdig

- Adolygu arferion rheoli tirwedd er mwyn sicrhau cadw golygfeydd panoramig ar lan yr harbwr mewn lleoliadau allweddol ar hyd y Slâd a Phenslâd yn Abergwaun. Dylid hefyd adfer golygfeydd pellter hirach tuag

at y morlin ehangach, bryniau Dinas a Threfdraeth i'r Gogledd mewn lleoliadau strategol ar hyd y droedffordd.

- Hyrwyddo integreiddio plannu coed, yn enwedig mewn lleoliadau lle nad oes llawer o bresenoldeb coed i hyrwyddo cyfraniad cadarnhaol at gymeriad treflun. Er nad yw coed yn nodwedd ddiffiniol ar yr ardaloedd trefol hanesyddol a chanol y dref (fel Stryd Fawr / Stryd y Gorllewin Abergwaun), dylid ceisio cyfleoedd i feddalu'r amgylchedd adeiledig. Dylai plannu coed bwysleisio safle asedau treftadaeth a'r patrwm stryd nodedig yn Ardaloedd Cadwraeth Abergwaun ac Wdig ac nid tynnu oddi wrthynt. Dylai cynigion plannu coed ystyried cyfeiriadaeth y nodweddion adeiledig presennol. Mae hyn yn cynnwys ymateb i batrwm y strydlun o ran baeau a 'nodau' sy'n ymrannu'r ffasâd.
- Oherwydd natur arbennig y topograffi yn Abergwaun, dylid integreiddio cynigion plannu coed mewn modd sensitif ar hyd y Stryd Fawr a Stryd Kensington er mwyn cadw'r golygfeydd pellter hir. Yn yr un modd, mae lleoliad Wdig ar lechwedd yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad a lleoliad y dref a dylid gwarchod golygfeydd pellter hir. Yn gyffredinol, bydd plannu coed ar hyd strydoedd cul yn amhriodol. Y lleoedd gorau i osod coed fydd mynedfeydd allweddol, cyrion a chyffyrdd lletach cyfagos sy'n arwain at ffiniau'r Ardal Gadwraeth, gan ddefnyddio coed sydd â ffurf gul i gynnal llinellau gweld lle bo angen.
- Dylid defnyddio plannu coed i ychwanegu diddordeb ac amrywiaeth at fan gwyrdd achlysurol unrhyw ardal o fewn ardaloedd adeiledig (megis wrth system un ffordd Abergwaun). Dylid blaenoriaethu plannu nifer o goed parcdir mawr ychwanegol o fewn Parc Lota fel cyfle allweddol, gan amrywio'r ystod o rywogaethau.

## Bae Abergwaun a glan y môr

- Plannu coed i fframio llwybrau yn ôl ac ymlaen o Abergwaun ac Wdig, yn y Parrog.
- Dylai plannu newydd gynnwys adnewyddu ardaloedd plannu addurnol presennol a grwpiau o goed presennol, gan gynnwys coed addurnol i ddarparu diddordeb esthetig ac amrywio'r ystod o rywogaethau.

- Sicrhau bod coed yn cael eu dewis a'u rheoli i gynnal golygfeydd i'r bae ac er mwyn diogelwch, gan godi canopïau lle bo hynny'n briodol.
- Defnyddio coed i nodi llwybrau a mynedfeydd tuag at gyfleusterau allweddol a mannau eistedd, fel yr ardal chwarae, yr acwariwm a'r maes parcio.
- Sicrhau bod rhywogaethau coed yn cael eu dewis yn briodol i wrthsefyll y lleoliad agored.
- Lle bo'n bosib, gosod coed i sgrinio golygfeydd o isadeiledd ac adeiladau diwydiannol sy'n gysylltiedig â'r porthladd fferi.

## Cwr Maesgwyn

- Plannu coed i nodi'r fynedfa i Abergwaun o'r gogledd, gan ddefnyddio lleiniau ymylon ffyrdd agored ar gyfer plannu coed â dwysedd isel ar hyd ymylon tir amaethyddol cyfagos.
- Plannu coed i feddalu'r rhyngwyneb rhwng ardaloedd gwledig cyfagos a'r cyrion trefol, gan chwilio am gyfleoedd i gynnwys tirfeddianwyr lleol.
- Cysylltu a chlustogi lleiniau cysgodi presennol a darnau bach o goetir drwy lenwi bylchau a thewychu ffiniau caeau presennol; creu coridorau rhwng y goedwig drefol a'r dirwedd ehangach.

## Ardaloedd preswyl Abergwaun ac Wdig

- Plannu coed i wella lleoliad strydoedd preswyl ac ategu golygfeydd mewn ardaloedd uwch. Dylid rhoi digon o ystyriaeth i ddewis rhywogaethau, maint canopi yn y pen draw a gofynion cynnal a chadw i hyrwyddo sefydliad hirdymor a lleihau ymyrraeth ag adeiladau a gwasanaethau (e.e. leiniau telegraff / colofnau goleuo).
- Osgoi cynigion sy'n gwrthdaro â phwyntiau mynediad i gerbydau preifat ar strydoedd preswyl.

- Rhoi blaenoriaeth i blannu coed mewn ardaloedd lle mae'r cyfyngiadau lleiaf ar y safle, fel ardaloedd mwy o laswelltir mwynder a lleiniau ymyl ffordd (e.e. o gwmpas Stop and Call).
- Plannu coed i glustogi a sgrinio coridorau llwybr prysur gerllaw ardaloedd preswyl (e.e. yr A487), gan ddefnyddio lleiniau ymyl ffordd ar gyfer rhodfeydd coed neu grwpiau bach o goed lle bo hynny'n briodol. Lle bo'n bosibl, ymgorffori coed mewn Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy neu bantiau i leihau dŵr ffo wyneb o’r ffyrdd.
- Dylai cynigion plannu coed osgoi rhwystro priffyrdd, llwybrau troed neu hawliau tramwy cyhoeddus o fewn y cyd-destun preswyl.
- Hybu perchenogaeth gymunedol ar gynigion plannu coed i gynyddu tebygolrwydd sefydlu hirdymor.

## Pen Cw a Ffordd y Cei

- Dylai’r coed a blannir mewn ardaloedd preswyl uwch, bryniog fod yn rhai dwysedd isel, gan ganolbwyntio ar leoli coed unigol neu grwpiau bach yn briodol i ategu’r topograffi lleol. Dylid cynnal golygfeydd allweddol tuag at y cei, yr harbwr ac asedau treftadaeth leol.
- Plannu coed i wella'r cyrion trefol a helpu i leihau effaith weledol datblygiad adeiledig. Creu cysylltiadau a chlustogi ardaloedd cynefin cyfagos a choetiroedd amdrefol, gan gynnwys tirfeddianwyr amgylchynol lle bo hynny'n bosibl.

## A487 diwydiannol a masnachol

- Plannu coed mewn modd sy’n sgrinio a meddalu ardaloedd diwydiannol a masnachol.
- Blaenoriaethu plannu mewn ardaloedd lle ceir y lleiaf o gyfyngiadau ac mewn lleoliadau 'cam cyflym ymlaen', gan gynnwys ffiniau mannau agored cyfagos (e.e. Parc Phoenix, Ffordd y Wern).


- Ymgorffori plannu coed ym Maes Parcio Phoenix Road, gan ddefnyddio ymylon perimedr a gwyrddu’r ehangder o dirwedd galed. Dylid osgoi coed sy’n dwyn ffrwythau mewn ardaloedd lle gallai hyn achosi niwsans.

## Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Hwlffordd

**3.5** Dangosir Parthau Plannu Coed ac Is-Egwyddorion ar gyfer Hwlffordd ar y map ac isod. Maent yn cynnwys:

- Hwlffordd ac ardal breswyl Pont Fadlen
    - Gwella safle ardaloedd preswyl a hyrwyddo derbyn cynigion plannu coed gyda'r gymuned leol i gynyddu tebygolrwydd sefydlu hirdymor.
- Coridor yr A40
    - Meddalu coridorau llwybrau amlwg i wella'r ddynesfa at Hwlffordd.
- Cwr gwledig Hwlffordd
    - Cyflwyno rhywogaethau plannu coed sy'n ategu'r lleoliadau gwledig ar gyrion y dref.
- Y Craidd Hanesyddol a Choridor Cleddau Wen
    - Plannu coed i feddalu'r craidd hanesyddol cryno, a cheisio hyrwyddo Cleddau Wen fel un o asedau gorau'r dref. Dylai cynigion osgoi unrhyw effeithiau negyddol ar safle asedau o bwysigrwydd hanesyddol.

## Ffigur 3.2: Parthau Plannu Coed Strategol Hwlffordd




# Parthau ac Is-egwyddorion

**3.6** Mae’r tir sy'n cael ei gwmpasu o fewn Ardal Gadwraeth Hwlffordd yn cynnwys y mannau rhwng adeiladau a'r coed presennol yn y dynodiad. Dylid felly cysylltu â CSP cyn dechrau gwaith ar goed presennol sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed (GCC) neu'r rhai sydd o fewn ffin Ardal Gadwraeth Hwlffordd.

## Hwlffordd ac ardal breswyl Pont Fadlen

- Plannu coed er mwyn gwella safle ardaloedd preswyl, gan greu strydoedd coediog lle bo modd. Dylid rhoi digon o ystyriaeth i ddewis rhywogaethau, maint terfynol canopi a gofynion cynnal a chadw i hyrwyddo sefydliad

hirdymor a lleihau ymyrraeth ag adeiladau a gwasanaethau (e.e. leiniau telegraff / colofnau goleuo).

- Blaenoriaethu plannu coed mewn ardaloedd sydd â'r cyfyngiadau lleiaf ar y safle, megis ardaloedd mwy o laswelltir mwynder a lleiniau ymyl ffordd, gan gynnwys ardaloedd heb fawr o werth hamdden oherwydd llethr / maint bach ac ati.
- Osgoi cynigion sy'n gwrthdaro â phwyntiau mynediad i gerbydau preifat ar strydoedd preswyl.
- Dylai cynigion plannu coed osgoi rhwystro priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn y cyd-destun preswyl.
- Ymgorffori plannu coed ar draws safleoedd tai cymdeithasol, gan integreiddio coed parcdir a digon o le rhyngddynt os oes modd. Sicrhau bod llinellau gweld yn cael eu cynnal er diogelwch. Osgoi creu ardaloedd o blannu trwchus a allai annog ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan flaenoriaethu coed canopi uchel a digon o le rhyngddynt, neu rywogaethau pigfain cul. Ymgynghori â thrigolion cyfagos, a'u cynnwys, drwy gydol y broses i gynyddu tebygolrwydd llwyddiant yn y tymor hir. Sicrhau digon o le rhwng coed a blannir ac anheddau preswyl er mwyn cynnal golygfeydd a mynediad at olau.
- Gwella gorchudd canopi coed o fewn parciau a mannau agored fel blaenoriaeth a chyfle allweddol i ymgorffori coed mwy o faint yn y cyd-destun trefol.

## Coridor yr A40

- Plannu coed i glustogi a sgrinio coridorau llwybr prysur, diwydiant ac adeiladau masnachol,  gan ddefnyddio lleiniau ymyl ffordd ar gyfer rhodfeydd coed neu grwpiau bach o goed lle bo hynny'n briodol. Lle bo'n bosibl, ymgorffori coed mewn Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy neu bantiau i leihau dŵr ffo wyneb o'r ffyrdd a helpu i wella ansawdd y cyrsiau dŵr cyfagos.

- Plannu coed i nodi mannau mynediad allweddol i Hwlffordd. Blaenoriaethu defnyddio rhywogaethau sydd ag ansawdd esthetig megis blodau'r gwanwyn wrth ardaloedd porth allweddol.
- Sicrhau bod ailblannu coed presennol (e.e. ar gylchfannau) yn ofyniad parhaus, i gynnal neu gynyddu gorchudd canopi.
- Rheoli a gwarchod coetir presennol cyfagos yn gadarnhaol (e.e. Coetir Scotchwell) fel ased allweddol; darparu buddion amgylcheddol lluosog a sgrinio gweledol o'r ffordd.

## Cwr gwledig Hwlffordd

- Gwella'r rhyngwyneb rhwng cyrion yr ardal drefol a'r ardal wledig o'i chwmpas. Cryfhau ac adfer ffiniau caeau drwy blannu ychwanegol ac ymgorffori coed tal.
- Creu cysylltiadau ychwanegol rhwng yr ardal drefol ac ardaloedd darniog bach o goetir o'i hamgylch.

## Y Craidd Hanesyddol a Choridor Cleddau Wen

- Sicrhau bod cynigion plannu coed yn gwella safle’r craidd trefol cryno ac yn atgyfnerthu'r patrwm strydoedd unigryw o fewn Ardal Gadwraeth Hwlffordd. Dylai cynigion osgoi effeithiau niweidiol ar asedau treftadaeth. Dylid paratoi pob cynnig plannu ar y cyd â'r Swyddog Cadwraeth Adeiladu Hanesyddol a’r Swyddog Tirwedd yn CSP.
- Plannu coed i fframio golygfeydd a chysylltu lleoliad trefol Ardal Gadwraeth Hwlffordd â'r dirwedd wledig o'i hamgylch.
- Dylid ceisio cyfleoedd i integreiddio plannu coed er mwyn cyfrannu’n gadarnhaol at gymeriad a golwg y treflun. Mae cyfleoedd penodol yn cynnwys plannu coed mewn nodau allweddol yn rhwydwaith y strydoedd ac mewn mannau cyhoeddus.
- Adolygu ac ad-drefnu'r ddarpariaeth barcio yng nghanol y dref (e.e. Dew Street) i ymgorffori coed o fewn yr amgylchedd trefol dwys, lle mae'r

cyfle'n codi. Gellid ail-ffurfweddu darnau bach o leoedd parcio ar y stryd i ddarparu mwy o led ac amgylchedd gwreiddio ar gyfer tyfiant coed stryd addas.


- Marcio mannau mynediad i ardal y craidd hanesyddol drwy blannu coed a pharhau i gynyddu gorchudd coed, gan gynnwys SDC wedi'u dylunio, ar hyd yr afon (e.e., Canolfan Siopa Glan-yr-afon gerllaw).

## Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Aberdaugleddau.

**3.7** Dangosir Parthau Plannu Coed ac Is-Egwyddorion ar gyfer Aberdaugleddau ar y map ac isod. Maent yn cynnwys:

- Hubberston a Hakin
  - Gwella safle ardaloedd preswyl a hyrwyddo derbyn cynigion plannu coed gyda'r gymuned leol i gynyddu tebygolrwydd sefydlu hirdymor.
- Y Marina a Mackerel Quay
  - Cyflwyno rhywogaethau coed sy'n addas ar gyfer amgylcheddau glan dŵr er mwyn sicrhau athreiddedd gweledol a chadw golygfeydd agored ar draws Aberdaugleddau.
- Ystâd ddiwydiannol Thornton
  - Meddalu’r cyd-destun diwydiannol a masnachol ar dir yn ystâd ddiwydiannol Thornton.
- Patrwm grid Canol y Dref a’r craidd trefol dwys
  - Plannu coed i wella'r patrwm grid a gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad canol y dref.
- The Rath a Castle Pill
  - Cyflwyno rhywogaethau plannu coed sy'n ategu lleoliad Castle Pill a chadw golygfeydd uwch yn lleol ar draws Aberdaugleddau.

**Ffigur 3.3: Parthau Plannu Coed Strategol Aberdaugleddau**




# Parthau ac Is-egwyddorion

**3.8** Mae'r tir sy'n cael ei gwmpasu o fewn Ardal Gadwraeth Aberdaugleddau yn cynnwys y mannau rhwng adeiladau a choed presennol yn y dynodiad. Felly, dylid cysylltu â CSP cyn cychwyn gwaith ar goed presennol sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed (GCC) neu'r rhai sydd o fewn ffin Ardal Gadwraeth Aberdaugleddau.

## Hubberston a Hakin

- Blaenoriaethu plannu coed mewn ardaloedd sydd â'r cyfyngiadau lleiaf ar y safle, megis ardaloedd mwy o laswelltir mwynder a lleiniau ymyl ffordd, gan gynnwys ardaloedd heb fawr o werth hamdden oherwydd llethr / maint bach ac ati.

- Plannu mewnlenwad ar strydoedd gyda choed presennol a lle mae bylchau, i gryfhau'r coridorau coed presennol, sy'n fach ac yn dameidiog.
- Ymgorffori plannu coed ar draws ystadau tai, gan integreiddio coed parcdir a digon o le rhyngddynt os oes modd. Sicrhau bod llinellau gweld yn cael eu cynnal er diogelwch. Osgoi creu ardaloedd o blannu trwchus a allai annog ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan flaenoriaethu coed canopi uchel a digon o le rhyngddynt, neu rywogaethau pigfain cul. Ymgynghori â thrigolion cyfagos, a'u cynnwys, drwy gydol y broses i gynyddu tebygolrwydd llwyddiant yn y tymor hir. Sicrhau digon o le rhwng coed a blannir ac anheddau preswyl er mwyn cynnal golygfeydd a mynediad at olau.
- Osgoi cynigion sy'n gwrthdaro â phwyntiau mynediad i gerbydau preifat ar strydoedd preswyl.
- Dylai cynigion plannu coed osgoi rhwystro priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn y cyd-destun preswyl.
- Gwella gorchudd canopi coed o fewn parciau a mannau agored. Blaenoriaethu plannu coed canopi mawr lle mae digon o le.

## Ystâd ddiwydiannol Thornton

- Plannu coed mewn modd sy'n sgrinio a meddalu ardaloedd diwydiannol a masnachol.
- Sicrhau bod cynigion plannu coed yn ategu graddfa'r ffurf adeiledig bresennol. Lle mae digon o le, ceir potensial i gynnwys coed mawr o fewn y lleoliad diwydiannol a masnachol.

## Y Marina a Mackerel Quay

- Integreiddio plannu coed ychwanegol yn y Marina a'r Cei gyda rhywogaethau addas i greu ardaloedd â chysgod, tra hefyd yn cynnal athreiddedd gweledol a golygfeydd allan i'r môr. Ystyried ymgorffori coed ychwanegol wrth adnewyddu ardaloedd a blannwyd eisoes.

- Sicrhau bod gwaith rheoli tirwedd a phlannu coed yn y dyfodol yn cynnal golygfeydd i'r arfordir o ardaloedd uwch (e.e. safbwyntiau allweddol o Hamilton Terrace).
- Defnyddio coed i farcio a diffinio gwahanol barthau sy'n arwain at y Marina a'r Cei, e.e. o fynedfeydd i'r glannau o lwybrau beicio, Cei Nelson ac yn arwain i lawr o Victoria Road.
- Ystyried integreiddio coed i ymrannu ardal y maes parcio eang, gan sicrhau nad yw'r lleoliad yn ymyrryd â'r defnyddiau presennol. Integreiddio coed mewn clystyrau bach i greu microhinsawdd i wella amodau tyfu, a chaniatáu ymgorffori pyllau tyfu / lle gwreiddio a rennir.
- Plannu coed mewn tirwedd galed i wella lleoliad cyfleusterau a bwytai lleol, a sgrinio nodweddion sy'n tynnu sylw fel y maes parcio ar Gei Nelson.

## Patrwm grid Canol y Dref a'r craidd trefol dwys

- Estyn a chysylltu plannu coed stryd presennol mewn canolfannau allweddol (h.y. Charles Street) i greu llwybrau gwyrdd a gwella'r strydlun. Sicrhau bod y coed a blannir yn ategu patrwm grid nodedig yr ardal drefol ac nad ydynt yn tynnu oddi wrtho. Ymgorffori coed gerllaw cyffyrdd lletach ac i nodi mynedfeydd i'r prif ardaloedd siopa, gan ddefnyddio coed sydd â ffurf gul lle bo angen er mwyn cynnal llinellau gweld.
- Plannu coed er mwyn meddalu rhannau mwy o dirwedd galed fel ardaloedd parcio ceir (e.e. Robert Street). A nodweddion eraill sy'n tynnu sylw'n weledol.
- Ad-drefnu lleoedd parcio ar y stryd lle mae cyfle'n codi i ddarparu lle ychwanegol ar gyfer pyllau coed a lled ar gyfer tyfiant coed.

## The Rath a Castle Pill

- Ymgorffori'n sensitif blannu coed dwysedd isel ychwanegol neu grwpiau bach o goed ar laswelltir yn The Rath. Sicrhau bod coed yn cael eu plannu

mewn mannau sy’n cynnal athreiddedd gweledol i'r arfordir o ardaloedd preswyl, mannau eistedd a safbwyntiau eraill.

- Dylid lleoli coed yn is i lawr ar ardaloedd llethrog, gan ystyried eu taldra a’u ffurf yn y pen draw. Dylid rhoi sylw penodol i ddewis rhywogaethau a all wrthsefyll yr amlygiad, gan sylwi ar rywogaethau sy'n tyfu gerllaw.
- Clustogi ac ehangu coetir presennol yn Castle Pill / Deadman's Lake a chwilio am gyfleoedd i wella triniaethau ymyl coetir ar dir amaethyddol cyfagos.

## Coridor yr A4076 a’r Cwr Preswyl

- Plannu coed er mwyn clustogi a sgrinio coridorau llwybr prysur, gan ddefnyddio lleiniau ymyl ffordd ar gyfer rhodfeydd coed neu grwpiau bach o goed lle bo hynny'n briodol.
- Defnyddio rhywogaethau coed addurnol i nodi pyrth a mynedfeydd allweddol tuag at Aberdaugleddau.
- Cryfhau cysylltiadau ag ardaloedd mwy o goetir gerllaw Deadman’s Lake, gan ymgorffori plannu ychwanegol mewn man gwyrdd mwynder cyfagos (e.e. Steynton Road / Mount Pleasant Way)
- Plannu coed er mwyn gwella safle ardaloedd preswyl, gan greu strydoedd coediog lle bo modd. Dylid rhoi digon o ystyriaeth i ddewis rhywogaethau, maint terfynol canopi a gofynion cynnal a chadw i hyrwyddo sefydliad hirdymor a lleihau ymyrraeth ag adeiladau a gwasanaethau (e.e. leiniau telegraff / colofnau goleuo).
- Blaenoriaethu plannu coed mewn ardaloedd sydd â'r cyfyngiadau lleiaf ar y safle, megis ardaloedd mwy o laswelltir mwynder a lleiniau ymyl ffordd, gan gynnwys ardaloedd heb fawr o werth hamdden oherwydd llethr / maint bach ac ati.
- Osgoi cynigion sy'n gwrthdaro â phwyntiau mynediad i gerbydau preifat ar strydoedd preswyl.
- Dylai cynigion plannu coed osgoi rhwystro priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn y cyd-destun preswyl.


- Gwella cymeriad mannau agored lleol a chyfleusterau chwaraeon gyda choed ffiniol, gan ymgorffori coed parcdir canopi mwy o faint lle mae digon o le. Sicrhau bod llinellau gweld yn cael eu cynnal i ddarparu ymdeimlad o ddiogelwch.

## Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Arberth.

**3.9** Dangosir Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion ar gyfer Arberth ar y map ac isod. Maent yn cynnwys:

- Canol Tref Arberth
  - Plannu coed er mwyn meddalu'r strydlun presennol yng nghanol y dref a fframio fistâu’r treflun.
- Cwr Preswyl Arberth
  - Gwella safle ardaloedd preswyl a hyrwyddo derbyn cynigion plannu coed gyda'r gymuned leol i gynyddu tebygolrwydd sefydlu hirdymor.

## Ffigur 3.4: Parthau Plannu Coed Strategol Arberth




# Parthau ac Is-egwyddorion

**3.10** Mae'r tir sydd wedi ei gwmpasu o fewn Ardal Gadwraeth Arberth yn cynnwys y mannau rhwng adeiladau a choed presennol yn y dynodiad. Felly, dylid cysylltu â CSP cyn dechrau gwaith ar goed presennol sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed (GCC) neu'r rhai sydd o fewn ffin Ardal Gadwraeth Arberth.

## Canol Tref Arberth

- Sicrhau bod y coed a blannir yn ategu cymeriad unigryw'r treflun ac nad ydynt yn tynnu oddi wrtho.
- Cyfyngir yn fawr ar gyfleoedd plannu coed o fewn ardaloedd cyhoeddus yng nghanol y dref. Y lleoedd gorau i osod coed fydd mynedfeydd

allweddol, cyrion a chyffyrdd lletach, gan ddefnyddio coed sydd â ffurf gul i gynnal llinellau gweld lle bo angen.

- Lle mae digon o le, dylid defnyddio rhywogaethau o goed addurnol i ddiffinio pyrth a mynedfeydd allweddol tuag at ganol tref Arberth (megis Cyffordd yr A478 / B4314).
- Plannu coed i feddalu ardaloedd tirwedd galed a chreu ymdeimlad o gyrraedd hybiau ymwelwyr allweddol (fel Maes Parcio Townsmoor a’r llwybr tuag at ganol y dref).
- Lle mae coed yn cael eu tynnu neu golli, dylai ailosod coed wedi'u lleoli'n briodol fod yn flaenoriaeth o fewn canol y dref.

## Cwr Preswyl Arberth

- Ceisio cyfleoedd i blannu coed gerllaw cyrsiau dŵr a ffosydd ar gyrion yr ardal drefol. Efallai mai’r ffordd orau o wneud hyn fydd fel lleiniau cysgodi eang a choridorau coetir sy'n cryfhau patrymau caeau presennol.
- Gwella cymeriad mannau agored lleol a chyfleusterau chwaraeon gyda choed ffiniol, gan chwilio am gyfleoedd i blannu coed parcdir canopi mwy o faint fel blaenoriaeth (megis ym Mharc Townsmoor). Sicrhau bod llinellau gweld yn cael eu cynnal i ddarparu ymdeimlad o ddiogelwch.
- Plannu coed er mwyn gwella safle ardaloedd preswyl, gan greu strydoedd coediog lle bo modd. Dylid rhoi digon o ystyriaeth i ddewis rhywogaethau, maint terfynol canopi a gofynion cynnal a chadw i hyrwyddo sefydliad hirdymor a lleihau ymyrraeth ag adeiladau a gwasanaethau (e.e. leiniau telegraff / colofnau goleuo).
- Blaenoriaethu plannu coed mewn ardaloedd lle mae'r cyfyngiadau lleiaf ar y safle, megis ardaloedd mwy o laswelltir mwynder a lleiniau ymyl ffordd. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd heb fawr iawn o werth hamdden oherwydd maint bach (megis rhai o'r ardaloedd ymyl ffordd ehangach ar hyd Cox Hill).
- Osgoi cynigion sy'n gwrthdaro â phwyntiau mynediad i gerbydau preifat ar strydoedd preswyl.


- Dylai cynigion plannu coed osgoi rhwystro priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn y cyd-destun preswyl.

# Parthau plannu coed ac is-egwyddorion Trefdraeth.

**3.11** Dangosir Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion ar gyfer Trefdraeth ar y map ac isod. Maent yn cynnwys:

- Coridor yr A487 a Chanol y Dref
  - Plannu coed i feddalu strydlun presennol canol y dref a fframio fistâu treflun ar hyd yr A487.
- Cwr Preswyl Trefdraeth a Choridor Ffordd Parrog
  - Gwella safle ardaloedd preswyl a hyrwyddo derbyn cynigion plannu coed gyda'r gymuned leol i gynyddu tebygolrwydd sefydlu hirdymor.

**Ffigur 3.5: Parthau Plannu Coed Strategol Trefdraeth**




# Parthau ac Is-egwyddorion

**3.12** Mae'r tir sy'n cael ei gwmpasu yn ardal gadwraeth Trefdraeth yn cynnwys y mannau rhwng adeiladau a'r coed presennol yn y dynodiad. Felly, dylid cysylltu â Chyngor Sir Penfro (CSP) cyn dechrau gwaith ar goed presennol sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed (GCC) neu'r rhai sydd o fewn ffin ardal gadwraeth Trefdraeth.

**3.13** Mae Trefdraeth o fewn ffin Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCAP). Wrth ddatblygu cynlluniau manwl ar gyfer plannu coed a choetir yn y dyfodol, dylid ystyried Canllawiau Coed a Choetir PCAP. Nid yw asesiad manwl o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd 'trefol' (megis Trefdraeth) wedi'i gynnwys yng nghanllawiau PCAP, oherwydd y prinder cyfleoedd i blannu coetir newydd yn yr ardaloedd hyn. Fodd bynnag, byddai'r canllawiau generig o fewn y ddogfen hon yn berthnasol o hyd.

## Coridor yr A487 a Canol y Dref

- Defnyddio rhywogaethau coed addurnol i ddiffinio pyrth a mynedfeydd allweddol tuag at Drefdraeth.
- Cryfhau'r cysylltiadau â choetir presennol ar hyd ymyl yr anheddiad, megis ardaloedd o goetir gerllaw Castell Trefdraeth, Gall hyn gynnwys cryfhau ffiniau caeau presennol drwy ddatblygu lleiniau cysgodi a choridorau coetir.
- Cyfyngir yn fawr ar gyfleoedd plannu coed o fewn ardaloedd cyhoeddus yng nghanol y dref. Y lleoedd gorau i osod coed fydd mynedfeydd allweddol, cyrion a chyffyrdd lletach, gan ddefnyddio coed sydd â ffurf gul i gynnal llinellau gweld lle bo angen.
- Lle mae coed yn cael eu tynnu neu golli, dylai ailosod coed wedi'u lleoli'n briodol fod yn flaenoriaeth. Lle mae digon o le, dylid ceisio cyfleoedd i ymgorffori coed ychwanegol mewn hybiau gweithgaredd allweddol (e.e. ger Maes Parcio Stryd Hir).
- Hyrwyddo plannu coed bychain o fewn gerddi preswyl, gan ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae'r cyfle lleiaf i blannu ar dir y cyhoedd.

## Cyrion Preswyl Trefdraeth a Choridor Ffordd y Parrog

- Plannu coed er mwyn gwella safle ardaloedd preswyl, gan greu strydoedd coediog lle bo modd. Dylid rhoi digon o ystyriaeth i ddewis rhywogaethau, maint terfynol canopi a gofynion cynnal a chadw i hyrwyddo sefydliad hirdymor a lleihau ymyrraeth ag adeiladau a gwasanaethau (e.e. leiniau telegraff / colofnau goleuo).
- Blaenoriaethu plannu coed mewn ardaloedd lle mae'r cyfyngiadau lleiaf ar y safle, megis ardaloedd mwy o laswelltir mwynder a lleiniau ymyl ffordd. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd sydd heb fawr iawn o werth hamdden oherwydd eu maint bach (megis rhai o'r ardaloedd ymyl ffordd lletach ar hyd y Parrog).

- Osgoi cynigion sy'n gwrthdaro â phwyntiau mynediad i gerbydau preifat ar strydoedd preswyl.
- Dylai cynigion plannu coed osgoi rhwystro priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn y cyd-destun preswyl.
- Gwella cymeriad mannau agored lleol a chyfleusterau chwaraeon gyda choed ffiniol, gan ymgorffori coed parcdir canopi mwy o faint lle mae digon o le (megis y man agored gerllaw Parc Sglefrio Trefdraeth). Sicrhau bod llinellau gweld yn cael eu cynnal i ddarparu ymdeimlad o ddiogelwch.
- Plannu coed i feddalu ardaloedd tirwedd galed a nodweddion a allai amharu ar fwynhad o'r dirwedd ehangach. Fel ardaloedd parcio ceir (e.e. Maes Parcio Ffordd y Parrog). Wrth blannu coed newydd dylid sicrhau bod golygfeydd allweddol i'r afon a'r arfordir yn cael eu cynnal.


## Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion Neyland

**3.14** Dangosir Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion ar gyfer Neyland ar y map ac isod. Maent yn cynnwys:

- Y Promenâd, Cei Brunel a'r Marina
  - Cyflwyno rhywogaethau coed sy'n addas ar gyfer amgylcheddau arfordirol er mwyn sicrhau athreiddedd gweledol a chadw golygfeydd agored ar draws Aberdaugleddau.
- Cwr Preswyl Neyland
  - Gwella safle ardaloedd preswyl a hyrwyddo derbyn cynigion plannu coed gyda'r gymuned leol i gynyddu tebygolrwydd sefydlu hirdymor.
- Great Honeyborough
  - Gwella lleoliad Honeyborough Green a'r cyd-destun cyfagos. Sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddewis rhywogaethau, gan gynnwys maint y canopi terfynol.

- Parc Busnes Honeyborough
  - Meddalu'r cyd-destun diwydiannol a masnachol ar dir ym mharc busnes Honeyborough

### Ffigur 3.6: Parthau Plannu Coed Strategol Neyland




## Parthau ac Is-egwyddorion

**3.15** Mae'r tir sy'n cael ei gwmpasu o fewn Ardal Gadwraeth Neyland ac Ardal Gadwraeth Honeyborough yn cynnwys y mannau rhwng adeiladau a choed presennol yn yr ardaloedd dynodedig. Felly, dylid cysylltu â Chyngor Sir Penfro (CSP) cyn cychwyn gwaith ar goed presennol sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed (GCC) neu’r rhai sydd o fewn ffin y naill ardal gadwraeth neu’r llall.

## Y Promenâd, Cei Brunel a'r Marina

- Ystyried integreiddio coed i feddalu'r ardaloedd parcio eang a gwella safle pwyntiau cyrraedd allweddol, wrth sicrhau nad yw lleoliad coed newydd yn ymyrryd â'r defnyddiau presennol. Integreiddio coed mewn clystyrau bychain i greu microhinsawdd i wella amodau tyfu a chaniatáu ymgorffori pyllau tyfu / lle gwreiddio a rennir mewn tirwedd galed.
- Sicrhau bod gwaith rheoli tirwedd a phlannu coed yn y dyfodol yn cynnal golygfeydd allweddol, megis o'r promenâd a'r mannau eistedd ar hyd Station Road. Dylid cyflawni hyn drwy ddefnyddio coed a digon o fwlch rhyngddynt gyda boncyffion clir / canopïau uchel. Gall grwpiau bach o goed a digon o le rhyngddynt hefyd fod yn briodol ar ymylon ardaloedd bychain o fannau gwyrdd wedi'u gosod yn ôl o lan y môr.
- Plannu coed i feddalu a sgrinio ardaloedd diwydiannol a llwybrau gwyrdd ar hyd Station Road a Gaddam Reach.

## Great Honeyborough

- Plannu mewnlenwad a phlannu coed blodeuol newydd ar hyd Honeyborough Road, gan wella llwybr allweddol tuag at ganol Neyland.
- Cynnal neu gynyddu gorchudd canopi coed yn Honeyborough Green. Sicrhau bod dwysedd plannu a ffurf / maint coed yn cynnal cymeriad gwyrdd y pentref.
- Diogelu a gwella lleiniau i goed weithredu fel clustog a sgrin ar gyfer yr A477 a’r ardal ddiwydiannol gyfagos.

## Y Stryd Fawr a Chanol y Dref

- Sicrhau bod y coed a blannir yn ategu cymeriad unigryw’r treflun ac nad ydynt yn tynnu oddi wrtho.
- Sicrhau nad yw golygfeydd o lwybrau allweddol (fel y Stryd Fawr) yn cael eu cuddio drwy blannu coed amhriodol. Y lleoedd gorau i osod coed fydd mynedfeydd allweddol, cyrion a chyffyrdd lletach, gan ddefnyddio coed

sydd â ffurf gul i gynnal llinellau gweld lle bo angen. Cynnal golygfeydd hir o gyrion yr ardal o safbwyntiau uwch (megis yn Cambrian Road).

- Defnyddio coed sbesimen bach i feddalu ardaloedd o dirwedd galed a chreu ymdeimlad o gyrraedd wrth hybiau ymwelwyr Atkey (fel Maes Parcio’r Stryd Fawr).
- Diogelu, a chynyddu os oes modd, y gorchudd canopi mewn ardaloedd achlysurol o fannau gwyrdd sy'n arwain oddi ar y Stryd Fawr i gynnal a gwella cymeriad treflun (e.e. yn Windsor Gardens, Lawrenny Street, Railway Terrace).

## Cwr Preswyl Neyland

- Plannu coed er mwyn gwella safle ardaloedd preswyl, gan greu strydoedd coediog lle bo modd. Dylid rhoi digon o ystyriaeth i ddewis rhywogaethau, maint terfynol canopi a gofynion cynnal a chadw i hyrwyddo sefydliad hirdymor a lleihau ymyrraeth ag adeiladau a gwasanaethau (e.e. leiniau telegraff / colofnau goleuo).
- Osgoi cynigion sy'n gwrthdaro â phwyntiau mynediad i gerbydau preifat ar strydoedd preswyl.
- Dylai cynigion plannu coed osgoi rhwystro priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn y cyd-destun preswyl.
- Blaenoriaethu plannu coed mewn ardaloedd lle mae'r cyfyngiadau lleiaf ar y safle, megis ardaloedd mwy o laswelltir mwynder a lleiniau ymyl ffordd llydan. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd heb fawr o werth hamdden oherwydd maint bach.
- Lle bo'n bosibl, cysylltu ac estyn rhesi tameidiog presennol o goed stryd o fewn lleiniau glaswellt ymyl ffordd (e.e. ar hyd Riverside Avenue).
- Gwella cymeriad mannau agored lleol, cyfleusterau chwaraeon a chymunedol gyda choed ffiniol, gan chwilio am gyfleoedd i blannu coed parcdir canopi mwy fel blaenoriaeth (megis Hyb Cymunedol Askeland). Sicrhau bod llinellau gweld yn cael eu cynnal i ddarparu ymdeimlad o ddiogelwch.

## Parc Busnes Honeyborough


- Cynyddu gorchudd coed i feddalu'r golygfeydd tuag at ddatblygiad diwydiannol. Gallai hyn gynnwys lleiniau ymyl ffordd ehangach wrth fynedfeydd allweddol (fel cylchfan yr A477).
- Sicrhau gwyrddu strydoedd drwy blannu coed, yn enwedig lle cynhelir unrhyw waith uwchraddio ffyrdd mynediad neu feysydd parcio. Plannu coed i sgrinio adeiladau i ardaloedd preswyl cyfagos a'r dirwedd ehangach. Sicrhau bod plannu coed newydd yn ofynnol yn rhan o ddatblygiad diwydiannol yn y dyfodol.

# Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion Penfro

**3.16** Dangosir Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion ar gyfer Penfro ar y map ac isod. Maent yn cynnwys:

- Pwll Melin Penfro
  - Gwella lleoliad y Pwll Melin a phrofiad y cyhoedd ohono drwy gadw a phwysleisio plannu coed i'r ymyl ogleddol. Sicrhau nad yw cynigion yn arwain at effeithiau niweidiol ar furiau terfyn y tir bwrdais i'r de.
- Cwr Preswyl Penfro
  - Gwella safle ardaloedd preswyl a hyrwyddo derbyn cynigion plannu coed gyda'r gymuned leol i gynyddu tebygolrwydd sefydlu hirdymor.
- Dynesfa Canol y Dref a’r Castell
  - Gwella coridorau llwybr amlwg ar ddynesfa ac allanfa Penfro a fframio fistâu treflun.
- Y Tir Comin
  - Plannu coed i wella lleoliad y treflun hanesyddol, gan gadw cymeriad agored y Tir Comin. Dylai cynigion hefyd ystyried rôl y safle mewn lliniaru llifogydd a chyfleoedd i gael mwy o fioamrywiaeth.

## Ffigur 3.7: Parthau Plannu Coed Strategol Penfro




# Parthau ac Is-egwyddorion

**3.17** Mae'r tir sydd wedi'i gwmpasu o fewn Ardal Gadwraeth Penfro yn cynnwys y mannau rhwng adeiladau a'r coed presennol yn y dynodiad. Felly, dylid cysylltu â Chyngor Sir Penfro (CSP) cyn dechrau gwaith ar goed presennol sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed (GCC) neu'r rhai sydd o fewn ffin Ardal Gadwraeth Penfro.

## Pwll Melin Penfro

- Cynnal a gwella gorchudd coed ar hyd ymyl ogleddol y Pwll Melin fel ased amgylcheddol, cynefin a mwynder gweledol allweddol.

- Yn gyffredinol, bydd plannu coed yn agos at wal y tir bwrdais yn amhriodol. Ni ddylai plannu coed ychwanegol effeithio'n negyddol ar olygfeydd a chyfanrwydd strwythurol y nodwedd dreftadaeth hon. Bydd angen datblygu unrhyw gynigion plannu coed mewn ymgynghoriad â'r ymgyngoreion statudol perthnasol.

## Cwr Preswyl Penfro

- Plannu coed er mwyn fframio golygfeydd a fistâu ar draws toeau amrywiol canol tref Penfro. Dylid ystyried maint canopi terfynol coed wrth nodi rhywogaethau.
- Dylid rhoi digon o ystyriaeth i ddewis rhywogaethau a gofynion cynnal a chadw i hyrwyddo sefydlu hirdymor a lleihau ymyrraeth ag adeiladau a gwasanaethau (e.e. leiniau telegraff / colofnau goleuo).
- Blaenoriaethu plannu coed mewn ardaloedd sydd â'r cyfyngiadau lleiaf ar y safle, megis ardaloedd mwy o leiniau ymyl ffordd a glaswelltir mwynder, gan gynnwys ardaloedd heb fawr o werth hamdden oherwydd llethr / maint bach ac ati. (e.e. Long Mains a Bush Hill).
- Osgoi cynigion sy'n gwrthdaro â phwyntiau mynediad i gerbydau preifat ar strydoedd preswyl. Dylai cynigion plannu coed osgoi rhwystro priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn y cyd-destun preswyl.

## Dynesfa Canol y Dref a'r Castell

- Dylai cynigion plannu coed ystyried llinellau adeiladau presennol a chyfeiriadedd datblygiad presennol ar hyd Main Street. Mae hyn yn cynnwys ymateb i batrwm y strydlun o ran baeau, 'nodau' a gerddi clos sy'n ymrannu'r ffasâd.
- Plannu coed er mwyn lleihau effaith weledol ceir sydd wedi'u parcio ar y strydlun yn ogystal â lleoliad tirwedd strydoedd ac adeiladau hanesyddol.
- Plannu coed i farcio llwybrau a mynedfeydd i Main Street. Sicrhau nad yw plannu newydd yn rhwystro amrywiaeth defnyddiau'r ardal, gan gynnwys digwyddiadau.

- Plannu coed er mwyn meddalu rhannau mwy o dirwedd galed fel ardaloedd parcio ceir (e.e. ger West Street / Common Road). Ymgorffori Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) wedi'u peiriannu yn rhan o ddyluniad pyllau coed i sicrhau'r capasiti storio dŵr mwyaf posibl a lleihau dŵr ffo wyneb i gyrsiau dŵr cyfagos.

## Y Tir Comin

- Sicrhau bod dewis rhywogaethau yn parhau i wella amrywiaeth y coed ar y Tir Comin, sef elfen allweddol sy'n cyfrannu at ddiddordeb a chymeriad arbennig Ardal Gadwraeth Penfro.
- Amddiffyn a chynnal y boblogaeth bresennol o goed. Ymgymryd â rhaglen blannu wedi'i chynllunio i sicrhau stoc o goed ifanc a datblygol. Plannu mewnlenwad i wella'r rhesi a'r rhodfeydd coed presennol.
- Cyflwyno coed addurnol, bychain wrth rai o'r mynedfeydd allweddol fel marcwyr ac i wella'r ymdeimlad o gyrraedd.
- Plannu coed yn nwyrain y Tir Comin i sgrinio golygfeydd yn rhannol tuag at ddatblygiad diweddaraf i helpu i gynnal cymeriad hanesyddol yr ardal


# Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion Doc Penfro

**3.18** Dangosir Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion ar gyfer Doc Penfro ar y map ac isod. Maent yn cynnwys:

- Patrwm Grid Hanesyddol
  - Plannu coed er mwyn gwella'r patrwm grid fel nodwedd sy'n diffinio'r ardal, a darparu cyfraniad cadarnhaol at gymeriad Ardal Gadwraeth Doc Penfro.
- Parc Busnes Pont Cleddau ac Ystâd Ddiwydiannol Waterloo

  - Meddalu'r cyd-destun diwydiannol a masnachol ar dir i'r dwyrain o'r A477 Waterloo Road
- Yr Iard Longau Frenhinol a Hobbs Point
  - Hyrwyddo hanes milwrol a morwrol y dref, gan sicrhau nad yw cynigion plannu coed yn effeithio'n negyddol ar safle asedau arwyddocaol hanesyddol.
- Llanreath a Llanion Hill
  - Cyflwyno rhywogaethau plannu coed sy'n addas ar gyfer amgylcheddau arfordirol i sicrhau athreiddedd gweledol a chadw golygfeydd uwch lleol allan tuag at Aberdaugleddau.
- Cwr Preswyl Pennar a Llanion
  - Gwella safle ardaloedd preswyl a hyrwyddo derbyn cynigion plannu coed gyda'r gymuned leol i gynyddu tebygolrwydd sefydlu hirdymor
- Coridorau Ffyrdd Prifwythiennol a Dynesfa Pont Cleddau
  - Gwella coridorau llwybrau amlwg ar ddynesfa ac allanfa Doc Penfro a fframio fistâu treflun.

## Ffigur 3.8: Parthau Plannu Coed Strategol Doc Penfro




# Parthau ac Is-egwyddorion

**3.19** Mae'r tir sy'n cael ei gwmpasu o fewn Ardal Gadwraeth Doc Penfro yn cynnwys y mannau rhwng adeiladau a'r coed presennol yn y dynodiad. Felly, dylid cysylltu â Chyngor Sir Penfro (CSP) cyn dechrau gwaith ar goed presennol sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed (GCC) neu'r rhai sydd o fewn ffin Ardal Gadwraeth Doc Penfro.

## Tref Patrwm Grid Hanesyddol

- Sicrhau bod cynigion plannu coed yn gwella safle’r patrwm grid hanesyddol nodedig ac nad ydynt yn arwain at effeithiau niweidiol ar asedau treftadaeth. Dylid paratoi pob cynnig plannu ar y cyd â'r Swyddog Cadwraeth Adeiladu Hanesyddol a’r Swyddog Tirwedd yn CSP.

- Er nad yw coed yn nodwedd arbennig ar ardal y patrwm grid, dylid chwilio am gyfleoedd i blannu coed i gyfrannu’n gadarnhaol at gymeriad a golwg y treflun. Dylid ystyried cyflwyno hierarchaeth o blannu coed i gadw ac atgyfnerthu'r patrwm grid unigryw. Amlinellir categorïau arfaethedig o fewn yr hierarchaeth isod.

1. Stryd lle mae angen rhaglen ailgyflenwi ar gyfer rhodfa goed bresennol (naill ai strategaeth amnewid tymor hir ar gyfer sbesimenau aeddfed neu fel ymateb i glefyd coed ynn);

2. Stryd datganiad lle gellid gwneud lle i rodfeydd coed (o fewn llain ganolog bresennol neu o fewn palmentydd eang);

3. Stryd lle gellid cynnwys plannu coed o fewn 'nodau' drwy ad-drefnu lleoedd parcio presennol yn rhannol ac ati; a

4. Stryd sy’n gul ac wedi'i chyfyngu'n drwm lle byddai plannu coed yn gyfyngedig i sbesimenau porth (i fframio fista neu geisio cadw golygfeydd allweddol).

- Dylai cynigion plannu coed ystyried llinellau adeiladau presennol a chyfeiriadedd datblygiad presennol. Mae hyn yn cynnwys ymateb i batrwm y strydlun o ran baeau a 'nodau' sy'n ymrannu'r ffasâd.
- Plannu coed er mwyn lleihau effaith weledol ceir sydd wedi'u parcio ar y strydlun yn ogystal â lleoliad tirwedd strydoedd ac adeiladau hanesyddol.
- Ystyried maint canopi terfynol y coed er mwyn cynnal golygfeydd a fistâu allweddol tuag at adeiladau allweddol o fewn Ardal Gadwraeth Doc Penfro.
- Hyrwyddo amrywiad yn strwythur oedran plannu coed o fewn Memorial Park, yn enwedig ar hyd yr ymyl ac fel rhan o'r pwynt echelinol canolog, fel mecanwaith rhagweithiol o reoli coed yn y tymor hir.
- Hyrwyddo plannu coed (gan ddefnyddio rhywogaethau priodol) o fewn gerddi cefn i wneud mwy o gyfraniad at wyrddni trefol o fewn strydlun y patrwm grid.

## Yr Iard Longau Frenhinol a Hobbs Point

- Plannu coed i wella lleoliad Ardal Gadwraeth Doc Penfro a sicrhau nad ydynt yn arwain at unrhyw effeithiau niweidiol ar asedau treftadaeth. Dylid paratoi pob cynnig plannu ar y cyd â'r Swyddog Cadwraeth Adeiladu Hanesyddol a’r Swyddog Tirwedd yn CSP.
- Gwella'r lleoliad treflun ac ategu'r llwybrau presennol o goed aeddfed sydd ar Meyrick Owen Way. Plannu coed er mwyn gwarchod y fista wedi'i fframio o hen fynedfa'r Iard Longau Frenhinol i Ganolfan Dreftadaeth Doc Penfro.
- Meddalu strydlun caled a meddal llwybrau prifwythiennol fel yr A4139 Western Way.
- Archwilio cyfleoedd i gynyddu'r rhwydwaith o goed stryd ar Fort Road er mwyn dylunio’r llwybr fel coridor allweddol sy'n arwain at Dŵr Gynnau Martello a'r glannau.
- Amrywiaethu strwythur y coetir presennol ar Carriage Drive / The Terrace i ganiatáu golau i dreiddio i'r fflora daear a chynnal rhywogaethau peillwyr.

## Pennar a Llanion

- Plannu coed er mwyn gwella lleoliad strydoedd preswyl ac ategu'r topograffi, gan sicrhau bod digon o ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddewis rhywogaethau, maint canopi terfynol a gofynion cynnal a chadw i hyrwyddo sefydlu hirdymor.
- Osgoi cynigion sy'n gwrthdaro â phwyntiau mynediad i gerbydau preifat ar strydoedd preswyl;
- Dylai cynigion plannu coed osgoi rhwystro priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn y cyd-destun preswyl.
- Hybu perchenogaeth gymunedol ar gynigion plannu coed i gynyddu tebygolrwydd sefydlu hirdymor.

## Coridorau Ffyrdd Prifwythiennol a Dynesfa Pont Cleddau

- Sicrhau y pennir rhywogaethau uchel eu corun er mwyn sicrhau bod lleiniau gweledeedd priodol ar gael a mynediad i gerddwyr o fewn y tramwyfeydd presennol.
- Lle bo'n briodol, ystyried defnyddio rhywogaethau mawr gyda gorchudd canopi eang i'w defnyddio i ddarparu cysgod. Osgoi coed sy’n dwyn ffrwyth mewn ardaloedd lle mae darpariaeth eistedd neu lwybrau i gerddwyr yn cael eu cynnig.

## Parc Busnes Pont Cleddau ac Ystâd Ddiwydiannol Waterloo

- Sicrhau bod cynigion plannu coed yn ategu graddfa'r ffurf adeiledig bresennol. Lle mae digon o le, ceir potensial i gynnwys coed mawr o fewn y lleoliad diwydiannol a masnachol.

## Llanreath a Llanion Hill


- Cadw fistâu presennol drwy osgoi torri ar draws golygfeydd môr o eiddo preswyl sy'n ffinio.
- Sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddewis rhywogaethau (gan gynnwys maint canopi terfynol a gofynion cynnal a chadw) a chynnwys rhywogaethau sy’n oddefgar o halen oherwydd agosrwydd y glannau.
- Osgoi cynigion sy'n gwrthdaro â phwyntiau mynediad i gerbydau preifat ar strydoedd preswyl.
- Dylai cynigion plannu coed osgoi rhwystro priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn y cyd-destun preswyl.

# Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion Saundersfoot

**3.20** Dangosir Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion ar gyfer Saundersfoot ar y map ac isod. Maent yn cynnwys:

- Harbwr a Glan Môr Saundersfoot
  - Cyflwyno rhywogaethau coed sy'n addas ar gyfer amgylcheddau glan dŵr er mwyn sicrhau athreiddedd gweledol a chadw golygfeydd agored ar draws Bae Saundersfoot.
- Y Stryd Fawr a Chraidd yr Anheddiad
  - Plannu coed i feddalu strydlun presennol canol y dref a fframio fistâu'r treflun.
- Ardaloedd Preswyl Saundersfoot
  - Gwella safle ardaloedd preswyl a hyrwyddo derbyn cynigion plannu coed gyda'r gymuned leol i gynyddu tebygolrwydd sefydlu hirdymor.

## Ffigur 3.9: Parthau Plannu Coed Strategol Saundersfoot




# Parthau ac Is-egwyddorion

**3.21** Mae'r tir sydd wedi'i gwmpasu o fewn Ardal Gadwraeth Saundersfoot yn cynnwys y mannau rhwng adeiladau a'r coed presennol yn y dynodiad. Felly, dylid cysylltu â Chyngor Sir Penfro (CSP) cyn dechrau gwaith ar goed presennol sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed (GCC) neu'r rhai sydd o fewn ffin Ardal Gadwraeth Saundersfoot.

**3.22** Mae Saundersfoot o fewn ffin Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCAP). Wrth ddatblygu cynlluniau manwl ar gyfer plannu coed a choetir yn y dyfodol, dylid ystyried Canllawiau Coed a Choetir PCAP **[Gweler cyfeiriad** 15**]**.

## Harbwr a Glan Môr Saundersfoot

- Integreiddio plannu coed ychwanegol wrth yr harbwr a glan y môr gyda rhywogaethau addas i greu ardaloedd sydd ag ymdeimlad o gysgod, wrth hefyd gynnal athreiddedd gweledol a golygfeydd allan i'r môr. Ystyried ymgorffori coed ychwanegol wrth adnewyddu ardaloedd a blannwyd eisoes.
- Defnyddio coed i farcio a diffinio gwahanol barthau sy'n arwain i'r harbwr, megis ger y rhyngwyneb rhwng yr harbwr a'r Strand.
- Ystyried integreiddio coed i ymrannu ardal y maes parcio eang, gan sicrhau nad yw'r lleoliad yn ymyrryd â'r defnyddiau presennol. Integreiddio coed mewn clystyrau bach i greu microhinsawdd i wella amodau tyfu, a chaniatáu ymgorffori pyllau tyfu / lle gwreiddio a rennir.

## Y Stryd Fawr a Chraidd yr Anheddiad

- Sicrhau bod cynigion plannu coed yn gwella safle’r craidd cryno ac nad ydynt yn arwain at effeithiau niweidiol ar asedau treftadaeth na ffabrig hanesyddol yr anheddiad. Dylid paratoi pob cynnig plannu ar y cyd ag APCAP.
- Adolygu arferion rheoli coed er mwyn sicrhau bod golygfeydd a fistâu ar gael tuag at yr arfordir a'r dyffryn cysgodol sy'n ffurfio cefndir gwledig.
- Dylid ceisio cyfleoedd i integreiddio plannu coed er mwyn cyfrannu’n gadarnhaol at gymeriad y treflun a safle Ardal Gadwraeth Saundersfoot.
- Cryfhau cysylltiadau rhwng craidd yr anheddiad a'r coetir cyfagos trwy wella a chysylltu ffiniau caeau a lleiniau cysgodi i'r gogledd. Dylid hefyd ystyried plannu ochr yn ochr â chyrsiau dŵr cyfagos i leihau dŵr ffo wyneb a gwella ansawdd dŵr.
- Gwella llwybrau i mewn i graidd yr anheddiad a thrwyddo, gan chwilio am gyfleoedd i ymgorffori plannu coed o fewn ardaloedd tirwedd galed, gan gynnwys y B4316, a maes parcio Brooklands Close. Integreiddio dylunio Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) yn rhan o byllau coed lle bo hynny'n bosibl.

## Ardaloedd Preswyl Saundersfoot

- Plannu coed i wella lleoliad strydoedd preswyl ac ategu golygfeydd mewn ardaloedd uwch. Dylid rhoi digon o ystyriaeth i ddewis rhywogaethau, maint terfynol canopi a gofynion cynnal a chadw i hyrwyddo sefydliad hirdymor a lleihau ymyrraeth ag adeiladau a gwasanaethau (e.e. leiniau telegraff / colofnau goleuo).
- Osgoi cynigion sy'n gwrthdaro â phwyntiau mynediad i gerbydau preifat ar strydoedd preswyl. Dylai cynigion plannu coed osgoi rhwystro priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn y cyd-destun preswyl.
- Plannu coed er mwyn nodi'r dynesfeydd at Saundersfoot ar hyd coridorau llwybr amlwg (e.e. y B4316), gan ddefnyddio lleiniau ymyl ffordd ar gyfer rhodfeydd coed neu grwpiau bach o goed lle y bo modd. Hybu perchenogaeth gymunedol ar gynigion plannu coed i gynyddu tebygolrwydd sefydlu hirdymor. Cefnogi diddordeb y gymuned mewn pocedi o goetir trefol (e.e.
- Planhigfa Saundersfoot) i gynnwys y gymuned yn niddordeb ehangach gofalu am goed a'u rheoli.
- Plannu coed ar gyrion ardaloedd preswyl i helpu i sgrinio datblygiad twristiaeth, sy'n aml yn nodwedd allweddol sy'n tynnu sylw ar y dirwedd.
- Cryfhau ffiniau caeau a lleiniau cysgodi, drwy lenwi bylchau a phlannu coed newydd, ar y cyrion trefol i gysylltu'r goedwig drefol â choetiroedd dyffryn presennol.


# Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion Tyddewi

**3.23** Dangosir Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion ar gyfer Tyddewi ar y map ac isod. Maent yn cynnwys:

- Masnachol Ffordd Glasfryn
  - Meddalu'r cyd-destun masnachol ar dir yn Ffordd Glasfryn

- Canolfan Groeso a Gwesty
  - Plannu coed i wella'r ymdeimlad o gyrraedd y ddinas ar gyfer ymwelwyr a thrigolion
- Cwr Preswyl Tyddewi
  - Gwella safle ardaloedd preswyl a hyrwyddo derbyn cynigion plannu coed gyda'r gymuned leol i gynyddu tebygolrwydd sefydlu hirdymor.
- Canol Dinas Tyddewi
  - Plannu coed er mwyn gwella patrwm stryd ganoloesol dwys y ddinas, gan sicrhau nad yw cynigion plannu coed yn effeithio'n negyddol ar safle asedau hanesyddol arwyddocaol.

## Ffigur 3.10: Parthau Plannu Coed Strategol Tyddewi



# Parthau ac Is-egwyddorion

**3.24** Mae'r tir sydd wedi'i gwmpasu o fewn Ardal Gadwraeth Tyddewi yn cynnwys y mannau rhwng adeiladau a'r coed presennol yn y dynodiad. Felly, dylid cysylltu â Chyngor Sir Penfro (CSP) cyn dechrau gwaith ar goed presennol sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed (GCC) neu'r rhai sydd o fewn ffin Ardal Gadwraeth Tyddewi.

**3.25** Mae Tyddewi o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCAP). Wrth ddatblygu cynlluniau manwl ar gyfer plannu coed a choetir yn y dyfodol, dylid ystyried Canllawiau Coed a Choetir PCAP **[Gweler cyfeiriad 16]**. Nid yw asesiad manwl o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd 'trefol' (megis Tyddewi) wedi'i gynnwys yng nghanllawiau PCAP, oherwydd y prinder cyfleoedd i blannu coetir newydd yn yr ardaloedd hyn. Fodd bynnag, byddai'r canllawiau generig o fewn y ddogfen hon yn berthnasol o hyd.

## Masnachol Ffordd Glasfryn

- Plannu coed mewn modd sy’n sgrinio a meddalu ardaloedd diwydiannol a masnachol
- Oherwydd natur agored a golygfeydd eang o dir fferm o gwmpas, bydd plannu coetir ar raddfa fawr yn debygol o fod yn amhriodol. Dylai sgrinio a chlustogi ffyrdd, adeiladau diwydiannol a masnachol ddigwydd drwy gryfhau ffiniau caeau a lleiniau cysgodi presennol.

## Canolfan Groeso a Gwesty

- Cynnal gorchudd canopi presennol a phlannu coed ychwanegol i nodi cyrraedd Tyddewi a mynedfeydd i hybiau allweddol, lle mae digon o le.
- Gwella'r ymdeimlad o gyrraedd a sgrinio’r maes parcio yn rhannol ymhellach â choed a digon o le rhyngddynt, gan gynnal teimlad agored o hyd.

## Cwr Preswyl Tyddewi

- Plannu coed er mwyn gwella safle ardaloedd preswyl, gan greu strydoedd coediog lle bo modd. Dylid rhoi digon o ystyriaeth i ddewis rhywogaethau, maint terfynol canopi a gofynion cynnal a chadw i hyrwyddo sefydliad hirdymor a lleihau ymyrraeth ag adeiladau a gwasanaethau (e.e. leiniau telegraff / colofnau goleuo).
- Osgoi cynigion sy'n gwrthdaro â phwyntiau mynediad i gerbydau preifat ar strydoedd preswyl.
- Sicrhau bod llinellau gweld yn cael eu cynnal er mwyn diogelwch, osgoi creu ardaloedd o blannu trwchus a allai annog ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan flaenoriaethu coed canopi uchel a digon o le rhyngddynt, neu rywogaethau pigfain cul.
- Blaenoriaethu plannu coed mewn ardaloedd sydd â'r cyfyngiadau lleiaf ar y safle, megis ardaloedd mwy o laswelltir mwynder a lleiniau ymyl ffordd, gan gynnwys ardaloedd heb fawr o werth hamdden oherwydd llethr / maint bach ac ati.
- Plannu coed er mwyn clustogi a sgrinio ardaloedd preswyl o goridorau llwybr a marcio'r ddynesfa at Dyddewi (e.e. yr A487), gan ddefnyddio lleiniau ymyl ffordd ar gyfer rhodfeydd coed neu grwpiau bach o goed lle bo hynny'n briodol. Gall hyn gynnwys ymgorffori grwpiau o goed ar leiniau glaswellt lletach ymyl ffordd ar hyd Heol Non.

## Canol Dinas Tyddewi


- Sicrhau bod amnewid coed presennol (os cânt eu colli neu dynnu) yn ofyniad parhaus i gynnal gorchudd canopi a’i gynyddu yn ddelfrydol. Er bod cymharol ychydig o goed yn ardaloedd adeiledig yr ardal gadwraeth, mae sawl grŵp o goed collddail sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y strydlun.
- Mae nifer o strydoedd yng nghanol y ddinas yn gul, heb fawr iawn o gyfle i blannu coed stryd ychwanegol. Y lleoedd gorau i osod coed fydd mynedfeydd allweddol, cyrion a chyffyrdd lletach, gan ddefnyddio coed sydd â ffurf gul i gynnal llinellau gweld lle bo angen.

# Parthau Plannu Coed ac Is-Egwyddorion Dinbych-y-pysgod

**3.26** Dangosir Parthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion ar gyfer Dinbych-y-pysgod ar y map ac isod. Maent yn cynnwys:

- Y Dref Gaerog a’r Canol Hanesyddol
  - Plannu coed er mwyn gwella canol y dref hanesyddol, gan sicrhau nad yw'r cynigion plannu coed yn effeithio'n negyddol ar safle asedau hanesyddol arwyddocaol.
- Diwydiannol a Masnachol y Salterns
  - Meddalu’r cyd-destun diwydiannol a masnachol ar dir yn Ystâd Ddiwydiannol Salterns.
- Y Promenâd a'r Harbwr
  - Cyflwyno rhywogaethau coed sy'n addas ar gyfer amgylcheddau glan dŵr er mwyn sicrhau athreiddedd gweledol a chadw golygfeydd o’r môr.
- Cwr Preswyl Dinbych-y-pysgod
  - Gwella safle ardaloedd preswyl a hyrwyddo derbyn cynigion plannu coed gyda'r gymuned leol i gynyddu tebygolrwydd sefydlu hirdymor.

## Ffigur 3.11: Parthau Plannu Coed Strategol Dinbych-y-pysgod




# Parthau ac Is-egwyddorion

**3.27** Mae'r tir sydd wedi'i gwmpasu o fewn Ardal Gadwraeth Dinbych-y-pysgod yn cynnwys y mannau rhwng adeiladau a'r coed presennol yn y dynodiad. Felly, dylid cysylltu â Chyngor Sir Penfro (CSP) cyn dechrau gwaith ar goed presennol sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed (GCC) neu'r rhai sydd o fewn ffin Ardal Gadwraeth Dinbych-y-pysgod.

**3.28** Mae Dinbych-y-pysgod o fewn ffin Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCAP). Wrth ddatblygu cynlluniau manwl ar gyfer plannu coed a choetir yn y dyfodol, dylid ystyried Canllawiau Coed a Choetir PCAP [**Gweler cyfeiriad** 17]. Nid yw asesiad manwl o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd 'trefol' (megis Dinbych-y-

pysgod) wedi'i gynnwys yng nghanllawiau PCAP, oherwydd y prinder cyfleoedd i blannu coetir newydd yn yr ardaloedd hyn. Fodd bynnag, byddai'r canllawiau generig o fewn y ddogfen hon yn berthnasol o hyd.

## Y Dref Gaerog a’r Canol Hanesyddol

- Sicrhau bod y coed a blannir yn ategu cymeriad unigryw’r treflun ac nad ydynt yn tynnu oddi wrtho. Dylai cynigion plannu coed ystyried llinellau adeiladau presennol a chyfeiriadedd datblygiad presennol. Mae hyn yn cynnwys ymateb i batrwm y strydlun o ran baeau a 'nodau' sy'n ymrannu’r ffasâd.
- Dylid cynnal golygfeydd tuag at wal y dref ac ar ei hyd, gan sicrhau nad yw unrhyw blannu coed newydd yn rhwystro golygfeydd na gwrthdaro ag asedau treftadaeth / archaeoleg danddaearol yn sylweddol.
- Plannu coed er mwyn lleihau effaith weledol ceir sydd wedi'u parcio ar y strydlun yn ogystal â lleoliad tirwedd strydoedd ac adeiladau hanesyddol.
- Lle bydd cyfle a lle bo hynny'n briodol, ystyried ailddefnyddio rhannau bach o le parcio ar y stryd er mwyn gwneud lle i blannu coed o fewn tirwedd galed (e.e. rhannau lletach ar hyd y Stryd Fawr a St Julian’s Street).
- Efallai mai’r lle gorau i blannu coed mewn llawer o leoliadau fydd cyffyrdd lletach ac ardaloedd i gerddwyr, gan ddefnyddio coed o ffurf gul i gynnal golygfeydd lle bo angen.

## Diwydiannol a Masnachol y Salterns

- Cynyddu gorchudd coed i feddalu'r golygfeydd tuag at ddatblygiad diwydiannol. Gallai hyn gynnwys ffiniau'r mannau parcio (fel maes parcio The Green).
- Cynnal a chynyddu gorchudd canopi yn The Green, gan ddiogelu'r safle fel ased gwyrdd allweddol a helpu i liniaru nodweddion sy'n tynnu sylw ac adeiladau masnachol.

- Sicrhau gwyrddu strydoedd drwy blannu coed, yn enwedig lle mae unrhyw waith uwchraddio ffyrdd mynediad neu feysydd parcio yn digwydd. Sicrhau bod plannu coed newydd yn ofynnol yn rhan o ddatblygiad diwydiannol yn y dyfodol.

## Y Promenâd a'r Harbwr

- Sicrhau bod gwaith rheoli tirwedd a phlannu coed yn y dyfodol yn cynnal golygfeydd allweddol, megis o'r promenâd a'r mannau eistedd ar hyd Battery Road. Dylid cyflawni hyn gan ddefnyddio coed a digon o fwlch rhyngddynt gyda boncyffion clir / canopïau uchel. Gall grwpiau bach o goed a digon o le rhyngddynt hefyd fod yn briodol ar ymylon ardaloedd bychain o fannau gwyrdd wedi'u gosod yn ôl o lan y môr.
- Plannu coed ar raddfa fach i feddalu a hidlo effaith weledol nodweddion fel Maes Parcio Glan y Môr. Efallai mai’r lle gorau i blannu coed mewn niferoedd bach fydd er mwyn nodi mynedfeydd a chanolbwyntio ar gyfleusterau presennol fel blociau toiledau a ger y parc sglefrio / parc chwarae.
- Integreiddio coed mewn clystyrau bychain i greu microhinsawdd i wella amodau tyfu o fewn lleoliadau agored, a chaniatáu ymgorffori pyllau tyfu / lle gwreiddio a rennir mewn tirwedd galed.

## Cyrion Preswyl Dinbych-y-pysgod

- Plannu coed er mwyn gwella safle ardaloedd preswyl, gan greu strydoedd coediog lle bo modd. Dylid rhoi digon o ystyriaeth i ddewis rhywogaethau, maint terfynol canopi a gofynion cynnal a chadw i hyrwyddo sefydliad hirdymor a lleihau ymyrraeth ag adeiladau a gwasanaethau (e.e. leiniau telegraff / colofnau goleuo).
- Blaenoriaethu plannu coed mewn ardaloedd lle mae'r cyfyngiadau lleiaf ar y safle, megis ardaloedd mwy o laswelltir mwynder a lleiniau ymyl ffordd llydan. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd heb fawr o werth hamdden oherwydd eu maint bach (e.e. Heywood Court, The Glebe)

- Osgoi cynigion sy'n gwrthdaro â phwyntiau mynediad i gerbydau preifat ar strydoedd preswyl.
- Dylai cynigion plannu coed osgoi rhwystro priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn y cyd-destun preswyl.
- Integreiddio coed blodeuol ar leiniau ymyl ffordd a chyffyrdd lletach ar hyd Heol Arberth i ddarlunio llwybrau allweddol tuag at Ddinbych-y-pysgod.

# Teipoleg Plannu Coed

**3.29** Dylai’r broses o ddewis rhywogaethau gael ei hysbysu gan ddealltwriaeth drylwyr o'r safle a'r elfennau allweddol eraill a drafodir uchod. Datblygwyd cyfres o deipoleg plannu coed a rhestri o rywogaethau a awgrymir y gellir cyfeirio atynt wrth ddatblygu cynlluniau plannu coed. Nid yw'r rhestri’n nodi pob opsiwn posibl a byddai angen gwaith pellach i bennu addasrwydd ar gyfer unrhyw safle penodol. Bydd angen i'r dewis terfynol o rywogaethau ystyried argaeledd stoc a chyllideb prosiect. Dylid cyfeirio hefyd at y Canllaw ar Ddewis Coed a Llwyni yn Sir Benfro **[Gweler cyfeiriad** 18**]**, fel y'i cyhoeddwyd gan Bartneriaeth Natur Sir Benfro. Dylid cadw at egwyddor allweddol 'coeden gywir, lle cywir' bob amser.

- Coed ar gyfer amgylcheddau palmantog a choridorau trafnidiaeth
- Parcdir
- Coetir a lleiniau cysgodi
- Coed ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC)
- Coed ar gyfer lleoliadau arfordirol

**3.30** Argymhellir cyfeirio at ganllawiau cyfredol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wrth baratoi rhestri rhywogaethau ar gyfer prosiectau plannu coed. Dylid cydnabod y gallai fod yn briodol mewn rhai lleoliadau ystyried plannu rhywogaethau estron, lle maent yn addas iawn i'r amodau amgylcheddol ac nid ydynt yn oresgynnol. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ystyried heriau disgwyliedig yn y dyfodol i amodau tyfu o ganlyniad i newid hinsawdd. Mae'n debygol y bydd hyn yn ystyriaeth benodol wrth blannu o fewn yr ardal drefol ac

o fewn lleoliadau tirwedd galed. Yn ddelfrydol, rhywogaethau brodorol ddylai fod prif elfen cynlluniau plannu coetir. Dylid ystyried effaith dewis rhywogaethau ar gymeriad y dirwedd hefyd, yn enwedig o fewn y Parc Cenedlaethol.

**3.31** Mae Sir Benfro bellach yn destun effeithiau clefyd coed ynn (Hymenoscyphus fraxineus), sef clefyd ffwngaidd sy'n effeithio ar yr onnen (Fraxinus excelsior). O ganlyniad, nid yw plannu coed ynn wedi'i gynnwys yn yr argymhellion rhywogaeth.

## Coed ar gyfer amgylcheddau palmantog a choridorau trafnidiaeth

**3.32** Gall amgylcheddau palmantog ac ardaloedd o dirwedd galed gyflwyno cyfyngiadau sylweddol ar amgylchedd gwreiddio coed. Fodd bynnag, mae amryw o atebion dylunio y gellir eu gweithredu i wella llwyddiant plannu coed o fewn y lleoliadau hyn. Mae'r cyfyngiadau allweddol ar amgylchedd gwreiddio a thyfiant coed mewn amgylcheddau palmantog yn cynnwys cyfaint gwreiddio cyfyngedig ac arwyneb anathraidd sy'n cyfyngu ar ymdreiddiad dŵr a chyfnewid nwyon. Mae coed a blannwyd ar hyd coridorau trafnidiaeth hefyd yn debygol o ddioddef lefelau uchel o lygredd aer a dŵr ffo o ffyrdd (fel halen o raeanu ffyrdd). Bydd llawer o leoliadau plannu posibl o fewn amgylcheddau palmantog hefyd yn galw am goed cul neu bigfain eu ffurf oherwydd cyfyngiadau lle uwchben y ddaear.

**3.33** Mae’r rhywogaethau coed a argymhellir isod yn cwrdd â'r gofynion canlynol:

- Yn gymedrol oddefgar o leiaf o amodau sychder; a
- Heb achosi problemau difrifol gyda 'sbwriel ffrwythau' a fyddai'n achosi problemau cynnal a chadw neu ddiogelwch amlwg.

**3.34** Datblygwyd is-gategorïau sy'n bodloni'r meini prawf uchod, ond sydd hefyd yn bodloni meini prawf eraill ar gyfer senarios penodol:

- Coed cul neu bigfain eu ffurf
- Coed a allai oddef rhywfaint o halen ffo o fewn yr amgylchedd gwreiddio, neu oddef llygredd aer
    - Masarn bach (Acer campestre)
    - Castanwydd y meirch (Aesculus hippocastanum)
    - Masarn Capadocia (Acer cappadocicum)
    - Gwern yr Eidal (Alnus cordata)
    - Mefuswydd (Arbutus unedo)
    - Ceirios y cwyros (Cornus mas)
    - Mwyar y llwyfen (Celtis australis)
    - Cyll Twrci (Corylus colurna)
    - Helyg y môr (Hippophae salicifolia)
    - Yswydd Japan (Ligustrum japonicum)
    - Gludwydd melys (Liquidambar styraciflua)
    - Ffawydd hopys Ewropeaidd (Ostrya carpinifolia)
    - Coed haearn Persia (Parrotia persica)
    - Pinwydd ddu (Pinus nigra)
    - Pinwydd yr Alban (Pinus sylvestris)
    - Coed ceirios coch Ewropeaidd (Prunus fruticosa)
    - Ceirios Sargent (Prunus sargentii)
    - Derw digoes (Quercus patraea)
    - Cerddin gwynion (Sorbus aria)
    - Cerddin gwylltion (Sorbus torminalis)
    - Pisgwydd arian (Tilia tomentosa)
- Coed cul, colofnog neu bigfain eu ffurf ar gyfer amgylcheddau palmantog

- Masarn bach Lienco (Acer campestre 'Lienco')
- Oestrwydd pigfain (Carpinus betulus 'Fastigiata')
- Ginco (Ginkgo biloba 'Fastigiata')
- Helyg y môr (Hippophae salicifolia ‘Streetwise’)
- Gludwydd melys (Liquidambar styraciflua 'Slender Silhouette')
- Criafol (Sorbus aucuparia 'Streetwise')
- Pisgwydd dail bach (Tilia cordata 'Greenspire')
- Coed sy’n addas ar gyfer coridorau trafnidiaeth
- Masarn bach (Acer campestre)
- Masarn coch (Acer rubrum)
- Danadlwydd Ewropeaidd (Celtis australis)
- Melddrain (Gleditsia triacanthos)
- Helyg y môr (Hippophae salicifolia)
- Gludwydd melys (Liquidambar styraciflua)
- Pinwydd du (Pinus nigra)
- Planwydd Llundain (Platanus x hispanica)
- Coed coeg-geirios (Prunus cerasifera)
- Coed gellyg Callery (Pyrus callleryana)
- Derw digoes (Quercus patraea)
- Cerddin Sweden (Sorbus intermedia)
- Pisgwydd arian (Tilia tomentosa)

# Parcdir

**3.35** Bydd parciau, mannau agored ac ardaloedd sy'n addas ar gyfer plannu coetiroedd yn debygol o gyflwyno rhai o'r amgylcheddau o'r ansawdd uchaf ar gyfer tyfu coed. Gall parciau ddarparu cyfleoedd i blannu coed sbesimen canopi mawr, tra bo cyfleoedd yn llai aml mewn mannau eraill efallai (e.e. mewn amgylcheddau palmantog).

**3.36** Parcdir: coed sy’n frodorol i Sir Benfro

- Gwern (Alnus glutinosa)
- Bedw arian (Betula pendul)
- Bedw llwyd (Betula pubescens)
- Cyll (Corylus avellana)
- Drain Gwynion (Crataegus monogyna)
- Celyn (Ilex aquifolium)
- Aethnenni (Populus tremula)
- Ceirios gwyllt (Prunus avium)
- Derw digoes (Quercus petraea)
- Helyg deilgrwn (Salix caprea)
- Criafol (Sorbus aucuparia)
- Yw (Taxus baccata)
- Cerddin gwyllion (Sorbus torminalis)
- Llwyfenni llydanddail (Ulmus glabra)

**3.37** Mae'r bedw arian a’r bedw llwyd yn absennol o Ben Maen Dewi. Peidiwch â’u plannu yma na ger rhostir iseldirol lle gall fod yn oresgynnol iawn.

**3.38** Mae gan gerddin gwylltion ddosbarthiad cyfyngedig, a hwnnw'n bennaf o gwmpas aber afon Cleddau.

**3.39** Parcdir, coed sbesimen: blodeuo yn yr haf

- Castanwydd-y-meirch India (Aesculus indica)
- Castanwydd pêr (Castanea sativa)
- Catalpâu'r Gogledd (Catalpa speciosa)
- Melddrain (Gleditsia triacanthos)
- Coed cnau Ffrengig (Juglans regia)
- Coeden law aur (Koelreuteria paniculata)
- Coed tiwlip (Liriodendron tulipifera)
- Magnolias (Magnolia grandiflora)
- Coeg-acasiâu (Robinia pseudoacacia)
- Pisgwydd dail bach (Tilia cordata)
- Pisgwydd Ewropeaidd (Tilia x europaea)
- Pisgwydd arian (Tilia tomentosa)

**3.40** Parcdir, coed sbesimen: blodeuo yn y gwanwyn

- Masarn onennaidd (Acer negundo)
- Masarn Norwy (Acer platanoides)
- Sycamorwydd (Acer pseudoplatanus)
- Castanwydd y meirch (Aesculus hippocastanum)
- Gwern yr Eidal (Alnus cordata)
- Oestrwydd (Carpinus betulus)
- Coed Katsura (Cercidiphyllum japonicum)
- Magnolias (Magnolia acuminata)

- Ceirios gwyllt (Prunus avium)
- Ceirios yr adar (Prunus padus)
- Ceirios Sargent (Prunus sargentii)
- Derw digoes (Quercus petraea)
- Derw coesynnog (Quercus robur)
- Helyg gwynion (Salix alba)
- Cerddin gwylltion (Sorbus torminalis)

**3.41** Gerddi domestig bach a safleoedd cyfyngedig iawn:

- Criafol (Amelanchier canadensis)
- Merysbren gwyn (Amelanchier lamarkii)
- Mefuswydd (Arbutus unedo)
- Prennau bocs (Buxus sempervirens)
- Kousa (Cornus kousa)
- Cyll (Corylus avellana)
- Drain Gwynion (Crataegus monogyna)
- Piswydd (Euonymus europaeus)
- Tresi aur (Laburnum anagyroides)
- Yswydd Japan (Ligustrum japonicum)
- Magnolias (Magnolia x loebneri)
- Coed afalau surion (Malus sylvestris)
- Merysbrennau (Mespilus germanica)
- Merwydd (Morus spp.)
- Coed coeg-geirios (Prunus cerasifera)
- Coed eirin gwyllt (Prunus domestica)

- Siwmac (Rhus typhina)

## Coetir a lleiniau cysgodi

**3.42** Argymhellir bod rhywogaethau brodorol priodol yn ffurfio elfen sylweddol o brosiectau plannu coetir ar raddfa fwy. Dylid cyfeirio at feini prawf lle mae cais i gynllun cyllid grant creu coetir yn cael ei ystyried. Argymhellir cyfeirio at ganllawiau presennol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wrth baratoi rhestri rhywogaethau ar gyfer prosiectau plannu coed. Dylid cydnabod hefyd y gallai fod angen edrych y tu hwnt i restri rhywogaethau brodorol i ddatblygu gwytnwch o fewn poblogaethau ar raddfa tirwedd. Dylid ystyried effaith dewis rhywogaethau ar gymeriad y dirwedd hefyd, yn enwedig o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

**3.43** Coetiroedd a lleiniau cysgodi: coed canopi (dim mwy na 50% o un rhywogaeth o fewn cymysgedd. Yn ddelfrydol dylid cynnwys o leiaf pum rhywogaeth allweddol, a phob un yn ffurfio o leiaf 10% o'r holl gymysgedd).

**3.44** Rhywogaethau llydanddail:

- Sycamorwydd (Acer pseudoplatanus)
- Gwern (Alnus glutinosa)
- Bedw arian (Betula pendula)
- Bedw llwyd (Betula pubescens)
- Castanwydd pêr (Castanea sativa)
- Drain Gwynion (Crataegus monogyna)
- Ffawydd (Fagus sylvatica)
- Aethnenni (Populus tremula)
- Ceirios gwyllt (Prunus avium)
- Ceirios sur (Prunus cerasus)

- Derw digoes (Quercus petraea)
- Derw coesynnog (Quercus robur)
- Criafol (Sorbus aucuparia)
- Pisgwydd dail bach (Tilia cordata)
- Pisgwydd (Tilia x europaeus)
- Pisgwydd dail mawrion (Tilia platyphyllos)

**3.45** Rhywogaethau conifferaidd:

- Cedrwydd Himalaya (Cedrus deodara)
- Cedrwydd Libanus (Cedrus libani)
- Pinwydd polion (Pinus contorta)
- Pinwydd yr Alban (Pinus sylvestris)
- Cochwydd Califfornia (Sequoia sempervirens)
- Cedrwydd coch (Thuja plicata)

**3.46** Llwyni coediog (y bydd angen yn gyffredinol iddynt ffurfio 30% neu lai o'r gymysgedd rhywogaethau):

- Cyll (Corylus avellana)
- Piswydd (Euonymus europaeus)
- Rhafnwydd gwernaidd (Frangula alnus)
- Meryw (Juniperus communis)
- Yswydd (Ligustrum vulgare)
- Helyg Mair (Myrica gale)
- Drain duon (Prunus spinosa)
- Rhafnwydd (Rhamnus cathartica)
- Helyg deilgrwn (Salix caprea)

- Helyg llwyd (Salix sinerea)
- Helyg gwiail (Salix virminalis
- Ysgaw (Sambucus nigra)
- Gwifwrnwydd (Viburnum lantana)
- Corswig (Viburnum opulus)

## Coed ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC)

**3.47** Wrth ddylunio Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) gellir creu amrywiaeth o amodau tyfu. Gall hyn gynnwys ardaloedd cynefin a phantiau o lystyfiant sy’n destun llifogydd aml neu anaml. Mae rhai cynlluniau SDC yn ymgorffori systemau storio wedi’u peiriannu’n fawr, gan gynnwys pyllau coed gyda phriddoedd strwythurol sy'n draenio’n rhydd iawn. Yn y sefyllfaoedd hyn, gall amgylcheddau gwreiddio ddirlenwi’n llwyr, cyn sychu’n gymharol gyflym. Bydd angen i goed allu goddef rhywfaint o ddirlawnder ond hefyd sychder yn y lleoliadau hyn.

**3.48** Yn addas ar gyfer SDC wedi'u peiriannu gyda phriddoedd strwythurol:

- Masarn onennaidd (Acer negundo)
- Masarn coch (Acer rubrum)
- Masarn arian (Acer saccharinum)
- Gwern yr Eidal (Alnus cordata)
- Gwern (Alnus glutinosa)
- Cwyros (Cornus sanguinea)
- Melddrain (Gleditsia triacanthos)
- Gludwydd melys (Liquidambar styraciflua)

- Planwydd Llundain (Platanus x hispanica)
- Planwydd Dwyreiniol (Platanus orientalis)
- Derw Sbaen (Quercus palustris)

**3.49** Gallu goddef dirlawnder:

- Gwern (Alnus glutinosa)
- Helyg gwynion (Salix alba)
- Helyg clustiog (Salix aurita)
- Helyg deilgrwn (Salix caprea)
- Helyg llwyd (Salix cinerea)
- Helyg pêr (Salix pentandra)
- Cochwydd collddail (Taxodium distichum)

# Coed ar gyfer lleoliadau arfordirol

**3.50** Coed ar gyfer lleoliadau arfordirol (hefyd yn addas i'w plannu i ardaloedd tirwedd galed):

- Sycamorwydd (Acer pseudoplatanus)
- Gwern llwyd (Alnus incana)
- Gwern yr Eidal (Alnus cordata)*
- Criafol (Amelanchier canadensis)
- Cyll (Corylus avellana)
- Drain Gwynion (Crataegus monogyna)
- Banadl (Cytisus scoparius)
- Melddrain (Gleditsia triacanthos))*
- Helyg y môr (Hippophae salicifolia))*

- Celyn (Ilex aquifolium)
- Meryw (Juniperus communis)
- Coed afalau surion (Malus sylvestris)
- Pinwydd du (Pinus nigra))*
- Pinwydd cneuog (Pinus pinea)
- Pinwydd Monterey (Pinus radiata)
- Pinwydd yr Alban (Pinus sylvestris)
- Poplys arian (Populus alba)
- Poplys duon (Populus nigra)
- Aethnenni (Populus tremula)
- Drain duon (Prunus spinosa)
- Gellyg (Pyrus communis)
- Criafol (Sorbus aucuparia)
- Derw Twrci (Quercus cerris))*
- Derw bythwyrdd (Quercus ilex))*
- Derw digoes (Quercus petraea))*
- Derw coesynnog (Quercus robur)
- Helyg clustiog (Salix aurita)
- Helyg deilgrwn (Salix caprea)
- Helyg llwyd (Salix cinerea)
- Ysgaw (Sambucus nigra)
- Cerddin Sweden (Sorbus intermedia))*
- Cerddin gwylltion (Sorbus torminalis))*
- Pisgwydd arian (Tilia tomentosa)*
- Eithin Ewropeaidd (Ulex europaeus)

# Pennod 4

## Cyflawni - Strategaethau Coed Trefol

## Y broses plannu coed

**4.1** Efallai y bydd y gwaith o gyflawni prosiectau plannu coed yn ymarferol yn golygu bod angen cydlynu amrywiaeth o randdeiliaid, arbenigwyr a phartïon a chanddynt fuddiant. Buddiol felly yw gosod proses neu 'fframwaith' lefel uchel ar gyfer y cyflawni. Gellir defnyddio cynllun proses amlinellol yn fan cychwyn i unrhyw brosiect plannu coed drwy'r 11 anheddiad i gyd ac mae modd ei ddiwygio yn ôl yr angen. Gall y cynllun proses hefyd fod yn sail i restr wirio a rhaglen y gall partneriaid prosiect weithio iddynt.

**4.2** Gall cynigion am blannu coed ddod o amrywiaeth o bartïon, gan gynnwys Cyngor Sir Penfro (CSP) neu Gynghorau Tref, neu grwpiau cymunedol. Argymhellir datblygu rhestr blannu neu brosiect ym mhob tymor plannu gwreiddiau moel (a fydd yn debygol o bara o fis Hydref hyd at fis Mawrth fan bellaf). Bydd angen digon o amser i wneud yn siŵr bod yr holl archwiliadau angenrheidiol yn cael eu cynnal (megis cloddio pyllau prawf neu brofion pridd) a chadarnhau a oes unrhyw gynlluniau neu ganiatâd yn ofynnol ar gyfer y plannu. Os cyflwynir ceisiadau addas gan grwpiau cymunedol neu drigolion a bod arian ar gael ar gyfer plannu, gallai coed gael eu hychwanegu at y rhaglen blannu ar gyfer y flwyddyn honno.

**4.3** Bydd maint y cynllunio, yr adnoddau a lefel yr arbenigedd sydd eu hangen ar gyfer prosiectau plannu coed yn amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar y lleoliad. Er enghraifft, bydd y gofynion ar gyfer plannu ar raddfa fach mewn tirwedd feddal (megis parc lleol neu ymyl laswellt) yn llawer llai nag ar gyfer plannu mewn ardal tirwedd galed lle nad yw'r amodau dan y ddaear yn hysbys.

**4.4** Dangosir cynllun proses lefel uchel ar gyfer prosiectau plannu coed yn ffigur 4.1 isod ac mae'n cynnwys y canlynol:

- Cynllun proses prosiectau plannu coed
  - Arolwg desg i gadarnhau unrhyw gyfyngiadau amgylcheddol, cynllunio neu berchnogaeth.
  - Nodi unrhyw ofynion ymgynghori tebygol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynnar
  - Arolwg gweledol i gwmpasu nifer y coed/lleoliadau, golygfeydd, cyfyngiadau, amlygiad a choed cyfagos presennol
- Plannu mewn tirwedd galed
  - Cynnal asesiad radar treiddio tir i helpu i nodi cyfyngiadau cyfleustodau tanddaearol
  - Treialu cloddio lleoliadau sy'n pasio'r cam blaenorol (pwll prawf lleiaf 600mm x 600mm)
  - Nodi a chostio unrhyw ofynion tirlunio caled/peirianneg sifil
- Plannu mewn tirwedd feddal
  - Asesiad pridd sylfaenol i lywio dewis rhywogaethau. Nodi math o bridd, pH ac unrhyw broblemau draenio
  - Cadarnhau bod cynllun cynnal a chadw hyd at sefydlu yn ei le (isafswm o 3 blynedd)
- Ychwanegu safleoedd llwyddiannus at raglen blannu flynyddol
  - Yn ddelfrydol, dylai safleoedd fod wedi’u cyflwyno erbyn mis Awst i ganiatáu amser i sicrhau stoc coed ar gyfer y tymor plannu i ddod
  - Adolygu opsiynau rhywogaethau sy'n cael eu llywio gan restr rhywogaethau.
  - Cysylltu â phlanhigfeydd er mwyn gwirio argaeledd stoc a diwygio cynlluniau plannu ar gyfer safleoedd os oes angen
  - Sicrhau stoc plannu. Gwneud trefniadau i dderbyn dosbarthiadau. Trefnu storfa dros dro os oes angen. Chwilio am gyfleoedd i wneud archebion grŵp ac arbed costau dosbarthu

- Cysylltu â thimau, contractwyr neu grwpiau cymunedol perthnasol i gadarnhau trefniadau plannu ac ôl-ofal.
- Trefnu unrhyw waith tirlunio caled, gwella pridd neu baratoi safle ymhell cyn y dyddiad plannu
- Ychwanegu plannu newydd at gofnodion coed. Monitro coed ar ôl eu plannu. Gofal dyfrio a sefydlu am 3 blynedd o leiaf nes bod coed yn gwbl annibynnol yn y dirwedd.

## Ffigur 4.1: Cynllun proses lefel uchel ar gyfer prosiectau plannu coed



# Cydrannau allweddol ar gyfer sefydlu coed yn llwyddiannus

**4.5** Gellir rhannu'r cydrannau allweddol ar gyfer sefydlu coed yn llwyddiannus yn fras fel a ganlyn:


1. Dewis rhywogaethau
   - Dewis y goeden gywir ar gyfer y lleoliad, gan ystyried cyfyngiadau'r safle.
2. Yr amgylchedd gwreiddio
   - Darparu amgylchedd gwreiddio priodol, gyda digon o gyfaint o bridd o'r amodau cywir.
3. Plannu ac ôl-ofal
   - Defnyddio arferion da drwy gydol y broses gyfan o archebu planhigion i blannu a chynnal a chadw

**4.6** Mae Ffigur 4.2 isod yn amlygu'r pwyntiau canlynol ar gyfer pob cydran:

- Yr amgylchedd gwreiddio
  - Cyfaint gwreiddio
  - Manyleb pwll coed
  - Math/amodau pridd
- Dewis rhywogaethau
  - Cyfyngiadau'r safle
  - Hinsawdd
  - Tirwedd
  - Egwyddorion Strategaeth

- Plannu ac ôl-ofal
  - Arfer plannu
  - Ansawdd y planhigion
  - Cynnal a chadw
  - Diogelu

## Ffigur 4.2: Cydrannau allweddol ar gyfer sefydlu coed llwyddiannus



# Dewis rhywogaethau

**4.7** Mae yna ystod eang o ffactorau y mae angen eu hystyried wrth ddewis rhywogaethau addas ar gyfer unrhyw gynllun plannu coed. Derbynnir yn helaeth mai coed uchafbwyntiol iach, canopi mawr a fydd yn sicrhau'r buddion mwyaf ar y cyfan. Felly, dylid blaenoriaethu plannu coed mawr lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, gall cyfyngiadau'r safle (megis strydoedd cul, ystyriaethau diogelwch, agosrwydd at strwythurau a chyfleustodau) bennu y bydd angen dewis rhywogaethau neu gyltifarau llai o faint.

**4.8** Beth bynnag y bydd maint aeddfed y goeden yn y pen draw, dim ond os bydd y coed yn iach a bod modd sicrhau bywioldeb parhaus y bydd buddion yn dod. Ni fydd coed sydd heb egni ac sy'n ei chael hi'n anodd goroesi yn darparu'r buddion a fwriadwyd. Ar ben hynny, bydd mwy o waith cynnal yn ofynnol ar goed mewn iechyd gwael, byddant yn fwy agored i bathogenau a byddant yn arwain yn y pen draw at wastraff amser ac adnoddau.  Felly mae angen i goed fod yn addas ar gyfer yr amgylchedd a'r safle lle cânt eu plannu, a’r gofyniad cyffredinol ar gyfer dewis rhywogaethau felly fydd 'coeden gywir, lle cywir'. Yn ddealladwy, mae ystyriaethau esthetig yn aml yn dylanwadu ar ddewis coed i raddau helaeth, ond dylai hyn bob amser fod yn eilaidd i allu’r goeden i ffynnu ar y safle dan sylw.

## Ystyriaethau allweddol ar gyfer dewis rhywogaethau

### Nodweddion a chyfyngiadau safle

**4.9** Bydd angen asesu nodweddion a chyfyngiadau’r safle ar gyfer pob cynllun plannu coed. Bydd maint y dasg hon yn amrywio yn ôl y lleoliad a'r math o blannu sy'n cael ei gynnig. Mae cyfyngiadau safle allweddol y bydd angen eu hystyried yn cynnwys:

## Yr amgylchedd gwreiddio / islaw'r ddaear

- Nodweddion y pridd (pH, math o bridd, materion draeniad neu gywasgu)
- Presenoldeb a lleoliad cyfleustodau
- Cyfaint wreiddio ac arwyneb sydd ar gael (a yw'r safle'n balmantog / yn dal traffig)
- Risg llifogydd / llygredd ffo tebygol

**4.10** Yn gyffredinol, mae'r cyfyngiadau a'r heriau ar gyfer yr amgylchedd gwreiddio a achosir trwy blannu o fewn tirweddau caled yn fwy na phlannu o fewn tirweddau meddal (fel parciau a mannau agored).

## Uwchlaw'r ddaear

- Lle tyfu sydd ar gael (h.y. adeiladau a chyfleustodau cyfagos)
- Amlygiad a hinsawdd (llwch halen, amlygiad i'r gwynt, cysgod ac ati)
- Golygfeydd (h.y. fistâu y mae angen eu cynnal er mwyn diogelwch neu werthfawrogiad esthetig / tirwedd neu dreftadaeth)
- Llygredd
- Cynefin amgylchynol a phoblogaeth bresennol o goed
- Cymeriad tirwedd
- Defnydd arall y safle a materion mynediad

# Amrywiaeth rhywogaethau coed

**4.11** Mae poblogaethau amrywiol o goed yn fwy gwydn i amrywiaeth o fygythiadau amgylcheddol, fel plâu a chlefydau, sy'n gallu amlhau mewn achosion o blannu rhywogaethau sengl ac a allai fygwth rhywogaethau cyfan o goed.  Bydd newidiadau disgwyliedig yn yr hinsawdd hefyd yn gosod heriau i dyfiant iach rhai coed ac o bosib yn gwaethygu rhai problemau plâu a

chlefydau. Felly, wrth blannu coed newydd, dylid anelu at amrywio'r gymysgedd rhywogaethau ar unrhyw safle penodol. Gallai strydoedd a rhodfeydd ag un rhywogaeth fod yn briodol o hyd, ond ar y cyfan dylai dewis rhywogaethau ledled anheddiad neu is-ardal osgoi cael mwy na thuag 20% o'r un rhywogaeth yn gyffredinol. Fel y nodwyd o dan nodweddion a chyfyngiadau'r safle, dylid cynnal asesiad o'r boblogaeth goed bresennol. Dylai hwn gynnwys asesiad o'r gymysgedd bresennol o rywogaethau coed y gellir ei wneud wrth ddewis rhywogaethau.

## Darparu ar gyfer bioamrywiaeth

**4.12** Mae coed yn darparu cynefinoedd a ffynonellau bwyd ar gyfer ystod eang o fywyd gwyllt. Mae coed mwy o faint yn darparu lle i glwydo, eistedd a nythu (fel adar ac ystlumod). Mae ffrwythau, aeron a hadau yn ffynhonnell fwyd i adar a mamaliaid, ac mae llawer o infertebratau'n dibynnu ar goed am fwyd (fel neithdar o flodau) ac am agweddau eraill ar eu cylch bywyd (fel dodwy wyau / gaeafu ac ati). Dylid blaenoriaethu cyfleoedd i blannu coed sy'n darparu bwyd, lloches a chynefin i fywyd gwyllt arall. Fodd bynnag, mewn rhai lleoliadau gall fod cyfyngiadau eraill ar y safle a allai gyfyngu ar ddefnyddio rhai coed at y diben (megis ffrwythau mawr a allai achosi mater cynnal a chadw sylweddol na ellir ei reoli'n briodol).

**4.13** Yn gyffredinol, bydd rhywogaethau brodorol, a fu’n bresennol ochr yn ochr â bywyd gwyllt brodorol arall am gyfnod hirach, yn cynnal ystod ehangach o fywyd gwyllt arall na rhywogaethau anfrodorol. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried ei bod yn gwbl hanfodol defnyddio rhywogaethau brodorol yn unig ym mhob ardal. Mae llawer o rywogaethau coed anfrodorol â phriodoleddau buddiol a allai fod yn fwy gwydn i effeithiau disgwyliedig newid hinsawdd. Mae hyn yn arbennig o wir o fewn amgylcheddau trefol, a dylid ystyried y rhywogaethau hyn hefyd wrth ddewis rhywogaethau ar gyfer prosiectau plannu coed, ar yr amod nad ydynt yn oresgynnol. Dylai'r ffocws fod ar y rhywogaethau sy’n fwyaf priodol i'r fro, ac sy’n fwyaf tebygol o ffynnu yn amodau’r dyfodol. Yn gyffredinol, y rhywogaethau sy’n perthyn agosaf i’r rhywogaethau brodorol fydd y rhai mwyaf priodol.

## Dewis rhywogaethau ar gyfer 11 anheddiad ledled Sir Benfro

**4.14** Dylai dealltwriaeth drylwyr o'r safle plannu a'r elfennau allweddol eraill a drafodir uchod hysbysu'r broses o ddewis rhywogaethau. Datblygwyd cyfres o deipoleg plannu a rhestri o rywogaethau a awgrymir y gellir cyfeirio atynt wrth ddatblygu cynlluniau plannu coed. Nid yw'r rhestri'n nodi pob opsiwn posibl a byddai angen gwneud gwaith pellach i bennu addasrwydd ar gyfer unrhyw safle penodol. Gall argaeledd stoc a chyllideb y prosiect hefyd ddylanwadu ar y dewis terfynol o rywogaethau yn y pen draw. Fodd bynnag, dylid cadw bob amser at egwyddor allweddol 'coeden gywir, lle cywir'.

- Coed ar gyfer amgylcheddau palmantog a choridorau trafnidiaeth;
- Parcdir
- Coetir a lleiniau cysgodi;
- Coed ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy; a
- Choed ar gyfer lleoliadau arfordirol.

**4.15** Argymhellir cyfeirio at ganllawiau presennol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gysylltiedig ag Iechyd Coed yng Nghymru **[Gweler cyfeiriad** 19**]** wrth baratoi rhestri rhywogaethau ar gyfer prosiectau plannu coed. Yn ddelfrydol, rhywogaethau brodorol ddylai fod prif elfen cynlluniau plannu coetir sylweddol. Dylid hefyd ystyried effaith dewis rhywogaethau ar gymeriad y tirlun, yn enwedig o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (Canllawiau ar Goed a Choetir (Canllawiau Cynllunio Atodol i Gynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – drafft wedi'i gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus **[Gweler cyfeiriad** 20**]**). Mae'r ddogfen hon i'w mabwysiadu'n ffurfiol gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) (yn dilyn adroddiad o ymgynghoriadau) yn 2023.

**4.16** Mae argymhellion rhywogaethau ar gyfer y deipoleg blannu a restrir uchod wedi'u nodi o dan Barthau Plannu Coed ac Is-egwyddorion ar gyfer 11 Anheddiad.

# Yr amgylchedd gwreiddio

**4.17** Er mwyn i goed dyfu i'w hiechyd gorau posibl a'u llawn botensial, mae angen cyfaint priodol o bridd arnynt gyda digon o fater organig, maetholion, pH addas, y gallu i ddal digon o ddŵr a digon o ddraeniad. Mae awyriad yn hanfodol ac mae'n pennu gallu'r goeden i gael at ddŵr a maetholion. Gall y ffactorau allweddol canlynol gyfaddawdu awyriad pridd:

- Selio pridd ag arwynebau caled sy'n atal cyfnewid ocsigen a nwyon eraill rhwng amgylcheddau uwchlaw ac islaw'r ddaear (sy'n broblem yn bennaf mewn amgylcheddau tirwedd galed);
- Draeniad gwael neu lefelau trwythiad uchel (a all fod oherwydd amodau daear naturiol a hefyd cael eu creu'n artiffisial trwy ddyluniad gwael); a
- Chywasgu pridd drwy ddefnydd blaenorol neu gamreoli priddoedd (megis trwy ddefnyddio peiriannau trwm pan fydd pridd yn wlyb).

**4.18** Gall nodweddion eraill y pridd megis pH pridd, ansawdd pridd a'r gallu i ddal dŵr gael effaith sylweddol ar ddewis rhywogaethau. Bydd angen pennu rhagor o wybodaeth am ofynion penodol i rywogaethau yn ôl y gofyn.

## Safonau pyllau coed (amgylchedd gwreiddio) ar gyfer 11 anheddiad yn Sir Benfro

**4.19** Nid yw'n bosib darparu pwll plannu coed syml oddi ar y silff a fydd yn berthnasol i bob safle. Gall pyllau plannu coed amrywio o atebion syml iawn i dra thechnegol y mae angen mewnbwn ac arbenigedd dylunio arbenigol arnynt. Yn gyffredinol, dim ond i fynd i'r afael â chyfyngiad neu rwystr penodol ar safle y bydd angen dyluniadau mwy cymhleth o gwbl. Yr egwyddor ar gyfer y rhan fwyaf o blannu coed o ran yr amgylchedd gwreiddio fydd ceisio'r ateb symlaf, gan fabwysiadu arferion coedyddiaeth priodol. Ar gyfer rhai prosiectau, efallai mai'r cyfan y bydd angen ei wneud yw cloddio twll plannu, gosod y goeden ac ôl-lenwi â'r pridd presennol, gan sicrhau bod uwchbridd ac isbridd yn cael eu cadw ar wahân. Dylai dyluniad pwll coeden syml fod yn fan cychwyn, ond gall

fod angen rhagor o waith a mewnbwn dylunio mewn ymateb i gyfyngiadau penodol y safle. Gellir cyfeirio at destun cyfeirio cynhwysfawr; *Trees in Hard Landscapes: A Guide for Delivery* (Trees and Design Action Group, 2014) am arweiniad pellach ynghylch goresgyn cyfyngiadau safle penodol wrth blannu mewn tirweddau caled.

## Coed mewn tirwedd feddal

**4.20** Yn gyffredinol, bydd darparu amgylchedd gwreiddio addas mewn ardaloedd o dirwedd feddal yn fwy didrafferth na darparu amgylchedd gwreiddio addas mewn ardaloedd o dirwedd galed (balmantog). Bydd angen i asesiadau safle nodi unrhyw faterion penodol a allai rwystro tyfiant gwreiddiau, gan gynnwys materion draenio sylweddol neu gywasgiad pridd a pH pridd a allai gyfyngu'n sylweddol ar dyfiant planhigion iach neu ddewis rhywogaethau. Dylid dilyn arfer da coedyddiaeth lle mae angen unioni unrhyw faterion pridd. Y deunydd a gloddiwyd a ddylai ddarparu'r pridd a ddefnyddir i lenwi'r twll plannu yn ôl. Os nad yw hyn yn bosibl am unrhyw reswm, dylai'r pridd a ddefnyddir i ôl-lenwi'r twll plannu fod mor agos â phosibl o ran nodweddion i'r pridd cyfagos.

## Coed mewn tirwedd galed

**4.21** Un ffactor cyfyngu allweddol yn nhyfiant coed trefol yw diffyg cyfaint pridd addas i wreiddiau dyfu. Dylai cynigion ar gyfer plannu mewn ardaloedd o dirwedd galed sicrhau bod digon o gyfaint gwreiddio i'r rhywogaeth sy'n cael ei phlannu er mwyn i'r goeden gyrraedd aeddfedrwydd a sicrhau'r buddion a fwriadwyd. Mae hyn yn her, gan fod angen lle tanddaearol yn aml ar gyfer defnyddiau sy'n cystadlu yn yr ardaloedd trefol.  Dylid ceisio cael y cyfaint gwreiddio mwyaf posibl os oes modd. Os yw cost yn ystyriaeth fawr wrth ddarparu prosiect o fewn ardal o dirwedd galed, efallai y bydd yn fwy priodol lleihau nifer cyffredinol y coed a darparu mwy o gyfaint gwreiddio ar gyfer llai o goed.  Ymhlith y strategaethau allweddol i sicrhau bod digon o gyfaint gwreiddio islaw ardaloedd o dirwedd galed, mae:

- Cynyddu'r amgylchedd gwreiddio gymaint â phosibl drwy swbstradau plannu sy'n dwyn llwyth (priddoedd strwythurol) neu gelloedd pridd modiwlaidd (ateb costus fel rheol);
- Creu ffos barhaus sy'n galluogi gwreiddiau i ledaenu i'r lle rhwng coed, gan greu amgylchedd gwreiddio a rennir. Golyga hyn yn gyffredinol y gellir lleihau'r amgylchedd gwreiddio cyffredinol fesul coeden; a
- Chreu 'parthau ymneilltuo' sy'n galluogi gwreiddiau i fanteisio ar ardaloedd pridd cyfagos a allai ddarparu amgylchedd gwreiddio ehangach.

**4.22** Gellir plannu coed newydd o hyd mewn ardaloedd lle mae cyfaint pridd yn brin, ond dylid derbyn na fydd coed o'r fath yn debygol o gyrraedd eu llawn botensial (aeddfedrwydd, maint neu ddisgwyliad oes).

## Canllaw i gyfeintiau pridd (lleiaf)

**4.23** Nodir isod ganllaw i gyfeintiau pridd lleiaf, sy'n cael eu pennu gan faint y goeden yn y pen draw. Darperir canllawiau ar gyfer amgylcheddau gwreiddio coed sy'n cynnwys uwchbridd 'amlbwrpas' sy'n cydymffurfio â Safonau Prydeinig (BS 3882:2015 Manyleb ar gyfer Uwchbridd). Darperir canllawiau cyfaint pridd ar wahân hefyd ar gyfer priddoedd strwythurol (sy’n dwyn llwyth), y mae angen iddynt fod yn fwy yn gyffredinol oherwydd y cynnwys cerrig uwch, a chanddynt lai o gyfran o bridd mwynol a mater organig.

### Coed bach iawn <5 metr

- Priddoedd lôm heb eu cywasgu: 6m3 (5m3 os cânt eu rhannu); a
- Phriddoedd strwythurol: 8m3 (6m3 os cânt eu rhannu).

### Coed bach (5-10m)

- Priddoedd lôm heb eu cywasgu: 12m3 (9.5m3 os cânt eu rhannu); a
- Phriddoedd strwythurol: 15m3 (12m3 os cânt eu rhannu).

### Coed canolig (10-15m)

- Priddoedd lôm heb eu cywasgu: 20m3 (16m3 os cânt eu rhannu); a
- Phriddoedd strwythurol: 26m3 (20m3 os cânt eu rhannu).

### Coed mawr (15-25m)

- Priddoedd lôm heb eu cywasgu: 28m3 (24m3 os cânt eu rhannu); a
- Phriddoedd strwythurol: 36m3 (28m3 os cânt eu rhannu).

### Coed enfawr (>25m)

- Priddoedd lôm heb eu cywasgu: 36m3 (30m3 os cânt eu rhannu); a
- Phriddoedd strwythurol: 45m3 (35m3 os cânt eu rhannu).

**4.24** Ar y cyfan, bydd angen llai o gyfaint gwreiddio ar goed colofnaidd neu bigfain nag ar goed sydd â mathau o ganopi llydan neu ganopi sy'n lledu. Mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd yn briodol cwtogi cymaint â hanner ar gyfeintiau pridd y canllawiau ar gyfer coed cul eu ffurf.

## Agoriad pwll coeden

**4.25** Yn ddelfrydol, dylai arwyneb uchaf lleoliadau plannu coed fod yn bridd agored o ansawdd rhydd. Mae pyllau coed agored gyda phriddoedd agored hefyd yn rhoi cyfle i ddefnyddio taenfeydd sy'n gallu cynnal strwythur pridd iach a gweithgarwch biolegol, gan helpu i sicrhau ymdreiddiad dŵr a chyfnewid ocsigen a charbon deuocsid.

**4.26** Mae'n bwysig bod priddoedd dros wreiddiau coed yn cael eu diogelu rhag cywasgu ac yn ddelfrydol yn cael eu gwarchod rhag traffig cerddwyr. Mae amrywiaeth o atebion y gellir eu defnyddio gan gynnwys defnyddio rhwyllau coed, gardiau coed postyn a rheilen, cyrbau wedi'u codi ychydig (gan sicrhau

bod modd dargyfeirio dŵr wyneb i bwll y goeden o hyd) neu osod coed yn syml i ochr llwybrau troed ac allan o ffordd llwybrau i gerddwyr lle bo modd.

**4.27** Os nad oes modd osgoi arwyneb caled uwchben pyllau coed, rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer ymdreiddiad dŵr ac awyriad i ardal y gwreiddiau. Yn gyffredinol, bydd hyn yn pennu'r defnydd o ddeunydd arwyneb athraidd, graean neu arwynebau anathraidd gydag awyrellau a thiwbiau awyru diamedr mawr.

## Ymgorffori'r amgylchedd gwreiddio coed fel rhan o Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC).

**4.28** Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai pyllau coed newydd gyfrannu tuag at Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC). Gellir ymgorffori coed mewn ystod o wahanol SDC (megis gwlypdiroedd neu erddi glaw) i wella ymarferoldeb. Gellir dylunio pyllau coed unigol hefyd fel nodwedd SDC annibynnol.  Os caiff ei ddylunio'n gywir, gall gwaredu tirwedd galed helpu i dderbyn dŵr ffo wyneb gormodol, a gellir dargyfeirio dŵr glaw i'r amgylchedd gwreiddio coed i ddarparu ffynhonnell ddŵr a gwella iechyd coed. System ddraenio briodol ac effeithiol i sicrhau bod modd gwaredu gormodedd dŵr er mwyn osgoi amodau anaerobig. Yn gyffredinol, bydd amgylcheddau gwreiddio coed gyda chyfaint mwy a all gynnwys nifer o goed yn gweithredu'n well fel rhan o gynlluniau SDC oherwydd capasiti storio dŵr uwch.

## Gwasanaethau dan y ddaear

**4.29** Wrth gynnig plannu unrhyw goed, yn enwedig rhai ar hyd y briffordd neu mewn ardaloedd o dirwedd galed, mae'n hanfodol nad yw’r pyllau coed a thyfiant gwreiddiau yn achosi difrod uniongyrchol neu anuniongyrchol i gyfleustodau neu wasanaethau tanddaearol. Fel y nodwyd yn y cynllun proses uchod, bydd gofyn cynnal ymchwiliadau gwasanaeth i bennu hyfywedd cynigion plannu. Mae amrywiaeth o atebion dylunio y gellir eu defnyddio i fynd i'r afael â gwrthdaro posibl, ac efallai y bydd angen ymgynghori â chwmnïau cyfleustodau

/ adrannau priffyrdd perthnasol. Mae angen asesu a datrys pob sefyllfa fesul achos. Gall y gost o ddylunio i leddfu rhyw wrthdaro posib fod yn sylweddol a bydd angen ei hystyried yn gynnar yn y prosiect. Efallai y bydd angen atebion dylunio pwrpasol, gan gynnwys yr opsiynau ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau tanddaearol yn cael eu diogelu ym mhob lleoliad.

# Dulliau plannu ac ôl-ofal

## Cyrchu coed

**4.30** Mae prynu coed iach sy'n rhydd o blâu a chlefydau yn elfen allweddol o sefydliad llwyddiannus coed newydd a blannir. Yn ddelfrydol, dylid dod o hyd i’r stoc goed yn lleol a dylent fod o darddiad hysbys. Mae bioddiogelwch yn flaenoriaeth uchel ac mae'n rhaid cadw at yr holl fesurau a'r gofynion diweddaraf i gyfyngu ar ledaeniad pathogenau coed. Mae gan gyflenwyr coed gyfrifoldeb i sicrhau bod stoc blannu ac unrhyw bridd yn rhydd o blâu a chlefydau drwy’r holl gadwyn gyflenwi. Dylai planhigfeydd coed allu darparu trywydd archwilio o drosglwyddiad a pherchnogaeth stoc goed o hadau i'r safle plannu. Dylai stoc goed ar gyfer plannu newydd fod:

- Wedi’i thyfu a’i chyrchu o’r DU
- Yn destun cwarantin planhigfa am dymor tyfu llawn ar ôl ei mewnforio o dramor (ni ddylid mewnforio coed yn uniongyrchol a'u plannu yn y dirwedd)
- O feithrinfeydd sy'n aelod achrededig o gynllun sicrhau iechyd planhigion sy'n dilyn y canllawiau cenedlaethol diweddaraf ac sy'n gallu darparu trywydd archwilio llawn ar gyfer stoc goed

**4.31** Mae'n fuddiol i'r rhai sy'n goruchwylio prosiectau plannu coed ymweld â chyflenwyr cyn gosod archebion. Mae hyn yn ddoeth ar gyfer archebion bach o goed ac yn hanfodol wrth archebu nifer fawr o goed.

## Maint a math o stoc goed

**4.32** Mae stoc goed fwy o faint yn fwy costus a bydd angen ôl-ofal dwysach arni, fel dyfrhau. Mae coed bach yn tueddu i sefydlu'n gyflymach na stoc plannu coed fwy o faint a bydd yn tyfu'n gyflymach oherwydd cymhareb fwy ffafriol o ran gwreiddyn i eginyn. Mae coed bach yn llawer mwy agored i fandaliaeth a difrod damweiniol o fewn amgylcheddau trefol ac felly mae coed mwy o faint ar y cyfan yn fwy priodol ac yn fwy tebygol o oroesi, o gael ôl-ofal priodol. Mae cost maint y stoc goed sydd ar gael hefyd yn ystyriaeth bwysig am fod coed mwy o faint yn llawer drutach a bydd costau cludo yn gyfrifol am ganran fwy o'r costau cyffredinol. Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd bydd angen dod i 'ganol teg', gan gael stoc o faint rhesymol sy'n addas ar gyfer plannu coed sbesimen unigol mewn amgylcheddau tirwedd galed a sefyllfa tirwedd feddal fel parciau. Yn gyffredinol, bydd stoc lai o faint yn addas ar gyfer plannu gwrychoedd, coetiroedd, lleiniau cysgodi ac ardaloedd perllan gymunedol.

**4.33** Mae coed ar gael naill ai gyda gwreiddiau moel, gwreiddiau mewn pêl (y gwreiddiau a’r pridd wedi'u lapio mewn lliain hesian), neu wedi’u tyfu mewn pot. Mae gan bob opsiwn ei fanteision a'i gyfyngiadau. Yn gyffredinol, coed gwreiddiau moel fydd y stoc a ddewisir ar gyfer cynlluniau plannu mwy o faint ar gyfer coetir, llain gysgodi neu wrych. Mae coed gwreiddiau moel yn cyflwyno her logistaidd gan fod angen eu plannu cyn gynted â phosibl ar ôl eu cael, ac yn gyffredinol dim ond am gyfnodau byr iawn y bydd yn ymarferol eu storio. Gellir cael y rhan fwyaf o goed fel planhigion a dyfwyd mewn potiau. Fel rheol, bydd yn ddrutach prynu a chludo sbesimenau a dyfwyd mewn pot, ond bydd defnyddio coed a dyfwyd mewn pot ar y cyfan yn golygu mwy o hyblygrwydd o ran pryd y gellir plannu’r coed. Gellir storio coed a dyfwyd mewn pot yn ofalus drwy gydol y tymor plannu os oes angen ac os oes lle ar gael.

**4.34** Yn ymarferol, ac yn dibynnu ar argaeledd, mae hyn yn debygol o olygu cyrchu'r mathau a'r meintiau canlynol o stoc goed ar gyfer llawer o gynlluniau plannu:

### Plannu mewn tirwedd galed:

- Tal (8-10cm o gwmpas), neu Dal Dethol (10-12cm o gwmpas) (yn debygol o fod wedi'u tyfu mewn pot).

### Plannu mewn tirwedd feddal (coed sbesimen neu goed parcdir unigol):

- Tal Ysgafn (6-8cm o gwmpas), neu
- Dal (8-10cm o gwmpas) (yn debygol o fod wedi'u tyfu mewn pot).

### Plannu mewn tirwedd feddal (Plannu coetir neu lain gysgodi):

- Coed chwip neu goed chwip asgellog (gwreiddiau moel yn debygol)
- (coed un cyff, neu ag ychydig o ganghennau ochr, dim ond un flwydd neu sawl mlwydd oed).

## Gadael bwlch rhwng coed

**4.35** Ar gyfer coed sbesimen unigol, coed parcdir neu goed mewn tirwedd galed, dylid gadael digon o le rhwng coed fel y gallant ddatblygu corunau llawn wrth aeddfedu. Efallai y bydd angen ystyried ffactorau eraill wrth bennu maint y bylchau megis faint o gysgod a allai gael ei fwrw ar hyd strydoedd unigol. Bydd dwysedd a ffurf canopi hefyd yn dylanwadu ar y penderfyniadau dylunio hyn. Lle mae angen cynnal golygfeydd, megis gweld yr arfordir, gall plannu dwysedd isel iawn (bylchau eang), neu blannu grwpiau bach o goed a bylchau eang rhyngddynt, fod yn fwy priodol.

**4.36** Fel rheol, bydd coetiroedd neu leiniau cysgodi, sydd wedi'u plannu â choed chwip neu asgellog bychain, yn cael eu plannu'n agosach at ei gilydd. Yn y senario hon, yn gyffredinol bydd angen plannu coed rhwng 2 a 3 metr ar

wahân. Fel rheol, bydd coed yn y math hwn o gynllun plannu yn elwa ar waith rheoli coetir gweithredol parhaus. Gall hyn gynnwys ychydig o deneuo wrth i'r planhigion ddatblygu i gynyddu'r pellter rhwng rhai coed, creu ardaloedd agored ac amrywio strwythur y plannu.

## Plannu coed

**4.37** Mae'r prif dymor plannu coed yn estyn o fis Tachwedd i fis Mawrth (yn gynhwysol). Yn gyffredinol, dim ond yn yr hydref a dechrau'r gaeaf y mae coed gwreiddiau moel a choed a'u gwreiddiau mewn pêl ar gael ac mae angen eu plannu tra'u bod ynghwsg. Er bod modd cael gafael ar y rhan fwyaf o goed fel sbesimenau a dyfwyd mewn pot, y gellir eu plannu mewn egwyddor ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, bydd sefydlu llwyddiannus yn fwy heriol os cânt eu plannu yn ystod misoedd yr haf. Y nod ddylai fod cwblhau'r holl waith plannu coed blynyddol o fewn y prif dymor plannu coed.

**4.38** Mae angen plannu coed i bridd parod sy'n weddol rydd o chwyn a cherrig mawr. Yn gyffredinol, ni fydd angen ychwanegu mater organig neu wrtaith ychwanegol at bridd presennol oni nodwyd problem benodol gyda'r pridd y mae angen ei hunioni. Os caiff mater organig ei ymgorffori, ni ddylid ei roi yng ngwaelod y pwll plannu nac o dan y bêl wreiddiau. Gall ochrau a gwaelod y twll platio gael eu torri'n ysgafn i gynorthwyo draenio. Dylid plannu coed â gwaelod y coesyn / ymlediad y gwreiddyn ar yr un lefel ag y datblygodd yn y blanhigfa. Dylid gwneud y pridd yn gadarn o amgylch gwreiddiau'r goeden / y bêl wreiddiau fel nad oes unrhyw fylchau aer, ond hynny heb gywasgu'r pridd.

**4.39** Dylai pob coeden newydd gael ei dyfrio'n drwyadl yn syth ar ôl ei phlannu.

**4.40** Yn ddelfrydol bydd safle pob coeden a blannir yn cael ei thaenu â thomwellt organig addas, sy'n rhydd o chwyn (megis compost rhydd o chwyn o pH addas, neu risgl mân). Mae hyn yn helpu i gadw lleithder, cynnal strwythur pridd da a lleihau cystadleuaeth chwyn. Dylai'r tomwellt fod hyd at 75mm o ddyfnder (heb fod mewn tomen yn erbyn y boncyff) a dylai estyn hyd at 1 metr o gyff y goeden.

## Coedio a diogelu coed

**4.41** Mae amrywiaeth eang o systemau ar gyfer cynnal y goeden ar ôl ei phlannu. Mae cynnal coeden yn sicrhau bod pridd yn parhau i fod mewn cysylltiad â gwreiddiau'r goeden wrth iddi sefydlu, gan leihau 'siglo' gormodol y gwreiddiau yn y gwynt. Fodd bynnag, mae’n bwysig bod y boncyff yn symud rhywfaint yn y gwynt er mwyn annog datblygiad prif gyff strwythurol a fydd yn cynnal y goeden yn y tymor hir. Y dull mwyaf priodol ar gyfer y rhan fwyaf o goed fydd coedio ddwywaith (â pholion pren fel arfer), mor isel i lawr ar y goeden â phosib, gan hefyd gadw’r gwreiddiau mewn cysylltiad â'r ddaear. Gellir defnyddio clymau rwber i ddiogelu'r goeden wrth y polion. Dylid gosod y polion bob ochr i'r brif bêl wreiddiau a dylid cymryd mesuriadau i sicrhau nad yw'r polion a’r clymau yn rhwbio ar foncyffion coed.

**4.42** Mae'n debygol y bydd angen ffyrdd eraill o ddiogelu coed yn ystod y cyfnod sefydlu yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. Ar y cyfan, gardiau boncyff (megis rhwyll wedi’i weldio sydd ynghlwm wrth bolion coed) fydd yr ateb mwyaf effeithiol mewn ardaloedd trefol. Yn gyffredinol, tiwbiau coed bioddiraddadwy fydd yr ateb mwyaf effeithiol ar gyfer ardaloedd coetir, lleiniau cysgodi neu blannu perllannau.

## Ôl-ofal

**4.43** Bydd angen i bob coeden newydd a blannwyd gael ei chynnal yn ystod y cyfnod sefydlu nes y bydd yn gwbl annibynnol yn y dirwedd. Fel y nodwyd yn y cynllun proses uchod, dylid cadarnhau cynllun ar gyfer cynnal a chadw parhaus yn ystod proses gynllunio unrhyw brosiect. Dylai gweithrediadau cynnal a chadw blynyddol allweddol gynnwys:

- Rheoli chwyn wrth waelod coed, gan gynnal man sy’n rhydd o chwyn a glaswellt sy'n estyn 1 metr o'r prif foncyff. Dylid cwtogi cymaint ag sy’n rhesymol bosibl ar ddefnyddio chwynladdwyr, gan reoli chwyn drwy ddulliau eraill lle bo hynny'n ymarferol. Dylid chwynnu o leiaf am y tair blynedd gyntaf ar gyfer y rhan fwyaf o goed a blannir, ond yn ddelfrydol fel rhan o 60 mis o gyfnod cynnal a chadw.

- Cynnal ac ychwanegu at haen o domwellt sy’n estyn 1 metr (hyd at 75mm o ddyfnder) o'r prif foncyff (a fydd hefyd yn helpu i leihau gofynion chwynnu). Gellir parhau i daenu tomwellt pan fydd coed wedi llawn sefydlu, ond mae'n bwysicaf yn ystod y cyfnod sefydlu.
- Dyfrhau er mwyn sicrhau tyfiant a datblygiad iach.
    - Dylai coed sydd newydd eu plannu gael eu dyfrhau adeg eu plannu. Dylai’r dyfrhau barhau drwy gydol y prif dymor tyfu am y tair blynedd gyntaf o leiaf nes ei sefydlu.
    - Yn ystod y sefydlu, mae amlder yn bwysicach na maint y dŵr, yn enwedig yn ystod y tymor cyntaf. Os yw’r goeden yn tyfu'n iach o'r ail dymor, gellir lleihau'r amlder ychydig o blaid rhoi mwy o ddŵr yn llai aml. Fel meincnod, efallai y bydd angen ymweld â choed ar gyfer dyfrhau hyd at 12 gwaith drwy gydol y tymor tyfu.
    - Yn ystod cyfnodau o dywydd sych a phoeth, efallai y bydd angen dyfrhau’n amlach. Wrth i goed ddatblygu yn ystod y cyfnod sefydlu, bydd angen cynyddu’r dyfrhau er mwyn ystyried arwynebedd ychwanegol y gwreiddiau a’r dail.
    - Bydd gofynion dyfrhau yn amrywio yn dibynnu ar rywogaethau, maint stoc a lleoliad. Bydd angen mwy o ddŵr ar goed mawr sydd newydd eu plannu nag ar goed llai o faint.
- Dylid archwilio, addasu ac amnewid polion, clymau a gardiau coed pryd bynnag y bo angen. Dylid archwilio coed newydd yn flynyddol o leiaf i fonitro llwyddiant y cynllun a nodi unrhyw bla a chlefyd, neu broblemau eraill

# Pennod 5

## Strategaethau Peillwyr


## Pwysigrwydd peillwyr

**5.1** Mae peillwyr yn rhan hanfodol o'n hamgylchedd. Maent yn cynnwys rhywogaethau megis gwenyn mêl, cacwn, gwenyn unig, gwenyn meirch parasitig, pryfed hofran, glöynnod byw, gwyfynod a rhai rhywogaethau o glêr a chwilod.

**5.2** Mae peillwyr yn cynyddu amrywiaeth rhywogaethau blodau gwyllt, gan gyfrannu at well bioamrywiaeth a gwell gwytnwch ecolegol. Maent o werth cynhenid yn eu rhinwedd eu hunain fel rhan o'n treftadaeth naturiol, ac mae rhai, megis gwenyn a glöynnod byw, yn cael eu gwerthfawrogi'n eang gan y cyhoedd.


**5.3** Mae'r rhywogaethau hyn yn bwysig gan eu bod yn darparu sicrwydd bwyd ar gyfer llawer o fathau o gnydau a phlanhigion sy'n bachu nitrogen sy'n bwysig wrth wella cynhyrchiant porfeydd ar gyfer pori da byw. Amcangyfrifwyd mai gwerth peillio **[Gweler cyfeiriad** 21**]** i amaethyddiaeth yn y DU yw £690 miliwn. Felly, mae peillwyr yn gwneud ein biliau bwyd yn llawer is nag y byddent pe bai'n rhaid i ni beillio cnydau â llaw. Mae gwerth y mêl **[Gweler cyfeiriad** 22**]** a gynhyrchir yng Nghymru yn unig hefyd yn sylweddol gyda gwerth cyfanwerthu dros £2 filiwn yn 2011.

## Ffigur 5.1: Buddion Peillwyr




**5.4** Cymharol hawdd yw darparu ar gyfer peillwyr, cyhyd ag y cedwir neu y diogelir y planhigion sydd eu hangen arnynt ar wahanol gyfnodau yn eu cylch bywyd. Mae angen bwyd ar beillwyr ar ffurf paill a neithdar wedi'u fforio o amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion blodeuol; a strwythur llystyfiant amrywiol, e.e. gwrychoedd, prysgwydd a phorfa dal er mwyn cysgodi, nythu a gaeafu fel tyrchfeydd a thyllau mewn boncyffion coed. Er mwyn cynnal amrywiaeth o rywogaethau peillwyr, mae angen i ffynonellau neithdar fod ar gael o ddechrau'r gwanwyn hyd at ddiwedd yr hydref.

### Ffigur 5.2: Peillio




## Cyd-destun polisi

### Cenedlaethol

**5.5** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 **[gweler cyfeiriad** 23**]** yn cydnabod y pwysigrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar ein byd natur a'i fioamrywiaeth. Ynghyd â chwe nod arall, mae'r Ddeddf yn gosod nod ‘Cymru Gydnerth’: ‘Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy’n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).’ Bydd yn rhaid i bob corff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag at hwn a'r holl nodau fel sy’n ofynnol gan y Ddeddf, gan fabwysiadu'r egwyddorion a amlinellir yn y Ddeddf.

**5.6** Yn ganolog i hyn, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ganolog **[Gweler cyfeiriad** 24**]** yn rhoi dull newydd mwy integredig ar waith o reoli ein hadnoddau naturiol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor. Cyflwynir camau ar gyfer peillwyr drwy Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol **[Gweler cyfeiriad** 25**]**, Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol **[Gweler cyfeiriad** 26**]** a Datganiadau Ardal **[Gweler cyfeiriad** 27**]**.

**5.7** Mae Cynllun Adfer Natur Cymru (2015) **[Gweler cyfeiriad** 28**]**, yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fioamrywiaeth yng Nghymru. Mae'n cynnwys amcanion ar gyfer diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o brif bwysigrwydd a gwella eu rheolaeth a mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd.

**5.8** Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr yng Nghymru **[Gweler cyfeiriad** 29**]** yn manylu ar weledigaeth ar gyfer peillwyr yng Nghymru, ac yn rhoi hynny yng nghyd-destun blaenoriaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn gosod Agenda Gweithredu - y canlyniadau a'r meysydd gweithredu sydd wedi'u nodi a sut y byddwn yn gweithio tuag atynt.

## Rhanbarthol

**5.9** Mae Datganiad Ardal De-orllewin Cymru **[Gweler cyfeiriad** 30**]** yn nodi'r risgiau, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau allweddol y mae angen i ni oll fynd i'r afael â nhw er mwyn meithrin gwytnwch ein hecosystemau a chefnogi rheolaeth gynaliadwy o'r adnoddau naturiol. Ymhlith y cyfleoedd a nodwyd mae targedu plannu rhywogaethau brodorol a chysylltu cynefinoedd cyfagos fel glaswelltiroedd, lle mae rhywogaethau yn ffynnu a lledaenu.

## Lleol

**5.10** Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Benfro **[Gweler cyfeiriad** 31**]** yn cynnwys cynlluniau gweithredu a gwybodaeth am gynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth yn Sir Benfro. Mae'n cynnwys gweledigaethau i

gynnal a gwella nifer a dosbarthiad glöynnod byw Brith y Gors a Brithribin Brown yn Sir Benfro – dwy o rywogaethau peillwyr mwyaf nodedig y sir.

# Bygythiadau allweddol

**5.11** Pryderir yn eang am statws peillwyr, gan fod llawer o grwpiau pryfed gan gynnwys gwenyn, glöynnod byw, gwyfynod a phryfed hofran wedi dirywio o ddifrif yn y DU ac yn fyd-eang o ran eu helaethrwydd a'u hamrywiaeth. Mae colli cynefin y ddôl ym Mhrydain wedi arwain at ddirywiad hanner y 27 rhywogaeth o gacwn **[Gweler cyfeiriad** 32**]**, a thair ohonynt eisoes wedi diflannu. Mae tua dwy ran o dair o wyfynod yn dirywio'n hir dymor ac mae dros 70% o löynnod byw yn dirywio.

**5.12** Mae'r bygythiadau allweddol sy'n wynebu peillwyr yn cynnwys colli cynefin, newid yn yr hinsawdd a defnyddio plaladdwyr.

**5.13** Colli cynefin, yn enwedig dirywiad glaswelltiroedd sy'n ferw o flodau gwyllt, yw achos mwyaf sylweddol dirywiad peillwyr. Mae Cymru wedi colli 97 y cant **[Gweler cyfeiriad** 33**]** o'i dolydd blodau gwyllt ers y 1930au.

**5.14** Mae defnyddio mwy o blaladdwyr wedi arwain at effaith fawr ar beillwyr a'r planhigion y maent yn dibynnu arnynt. Mae defnyddio plaladdwyr neonicotinoid yn peri pryder arbennig, ac ymchwil **[Gweler cyfeiriad** 34**]** yn dangos bod hyd yn oed mân olion y cemegau gwenwynig hyn ym mhaill cnydau neu flodau gwyllt yn gwneud llanastr o allu gwenyn i gael pen ffordd, gyda chanlyniadau trychinebus i oroesiad eu nythfa. Nid yw chwynladdwyr yn niweidio peillwyr yn uniongyrchol, ond gall eu defnyddio'n ormodol leihau'r cyflenwad o blanhigion blodeuol y maent yn dibynnu arnynt.

**5.15** Gall amhariad ar batrymau tymhorol a newid cyfnodau blodeuo oherwydd newid yn yr hinsawdd amddifadu peillwyr o gyflenwadau bwyd holl bwysig. Mae hyn yn arbennig o wir am rywogaethau arbenigol sy'n dibynnu ar ychydig o blanhigion yn unig. Rhagwelir y bydd newid hinsawdd yn lleihau cyfoeth rhywogaethau gwenyn o wyth i 18 y cant **[Gweler cyfeiriad** 35**]** mewn rhai

ardaloedd a gwyddys hefyd fod amrediad daearyddol cacwn yn crebachu am fod eu cydamseroldeb rhwng planhigion blodeuol a'u peillwyr yn cael ei amharu.

# Peillwyr blaenllaw yn Sir Benfro

**5.16** Yng Nghymru, mae 1500 **[Gweler cyfeiriad** 36**]** o rywogaethau o bryfed yn beillwyr. Amlinellir isod rai o'r rhywogaethau o beillwyr sy'n genedlaethol brin ac o dan fygythiad a geir yn Sir Benfro.

## Gwenyn

**5.17** Mae dirywiad amrywiaeth o rywogaethau peillwyr a oedd yn fwy cyffredin yng Nghymru o'r blaen wedi'i hen grybwyll. Collwyd poblogaethau mewndirol nodweddiadol o'r Gardwenynen Feinlais, y Gardwenynen Lwydfrown a'r Wenynen Hirgorn **[Gweler cyfeiriad** 37**]**, er enghraifft, oherwydd bod yr ardaloedd sy'n weddill o gynefinoedd lled-naturiol iseldirol yn tueddu i fod yn fach, yn dameidiog a heb eu cysylltu'n dda, gan gyfyngu'r poblogaethau sy'n weddill i gynefinoedd arfordirol. Yng Nghymru mae o leiaf 64 o rywogaethau o wenyn yn dirywio. Ystyrir mai Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw un o'r ardaloedd mwyaf arwyddocaol ar gyfer gwenyn yng Nghymru.

## Glöynnod Byw

**5.18** Mae glöynnod byw yn dioddef dirywiad difrifol, hirdymor a pharhaus yn y DU. Awgryma'r patrwm cyffredinol fod 76% o löynnod byw preswyl a mudol y DU wedi gostwng naill ai o ran helaethrwydd neu ddigwyddiad (neu'r ddau) dros y pedwar degawd diwethaf **[Gweler cyfeiriad** 38**]**. Yng Nghymru cafwyd gostyngiadau sylweddol mewn helaethrwydd i arbenigwyr cynefinoedd yn ôl Cynllun Monitro Glöynnod Byw'r DU **[Gweler cyfeiriad** 39**]**.

## Gwyfynod

**5.19** Mae gwyfynod hefyd yn gyfranwyr pwysig at beillio. Yng Nghymru mae dros 1700 o wyfynod **[Gweler cyfeiriad** 40**]** yn ogystal â llawer o rywogaethau mudol. Fodd bynnag, bu dirywiad sylweddol yn helaethrwydd ac amrywiaeth gwyfynod.

**5.20** Yn Sir Benfro, mae mwyafrif y poblogaethau gwyfynod yn sefydlog er y dylid eu gwarchod o hyd am eu cyfraniad tuag at beillio. Mae’r rhywogaethau o wyfynod a geir yn Sir Benfro yn cynnwys y bwrned chwe smotyn, y bwrned pum smotyn ymyl gul, y bwrned pum smotyn, gwyfyn mintys, wylun y derw, gwalchwyfyn llygeidiog, gwalchwyfyn poplys, brychan fflamgoch, cochyn rhesog, cathwyfyn, teigr cochddu, teigr y benfelen, troedwas gyddfgoch, ôl-adain goch a gwyfyn fflamysgwydd.

## Pryfed hofran

**5.21** Mae pryfed hofran wedi dirywio ledled y DU fel y dangosir o wahanol gynlluniau cofnodi data. Mae pryfed hofran yn bwydo ar neithdar a phaill yn unig, sy'n eu gwneud yn beillwyr pwysig. Gallant deithio mwy o bellteroedd **[Gweler cyfeiriad** 41**]** na llawer o rywogaethau peillwyr eraill, sy'n ychwanegu at eu harwyddocâd o fewn cynefinoedd tameidiog. Ymysg y rhywogaethau a geir yng Nghymru mae'r pryf marmalêd, y pryf hofran rhesog, y pryf gormes a'r pryf hofran dynwared cacwn meirch.

# Cysylltu â mentrau ehangach

## Menter Caru Gwenyn

**5.22** Caru Gwenyn **[Gweler cyfeiriad** 42**]** yw'r Cynllun Gweithredu ar gyfer cynllun y Tasglu Peillwyr i annog sefydliadau a chymunedau ledled Cymru i

weithredu i helpu peillwyr. Caiff yr holl beillwyr eu cynnwys: gwenyn mêl, cacwn a gwenyn unig, rhai gwenyn meirch, glöynnod byw, gwyfynod a phryfed hofran, a rhai chwilod a chlêr.

**5.23** Y Pedair Nod ar gyfer Caru Gwenyn yw:

- Bwyd – darparu ffynonellau bwyd sy'n denu pryfed peillio yn eich ardal chi;
- Llety Pum Seren – darparu lleoedd i bryfed peillio fyw;
- Rhyddid rhag plaladdwyr a chwynladdwyr – ymrwymo i osgoi cemegau sy'n niweidio peillwyr; a
- Hwyl – cynnwys yr holl gymuned a dweud wrth bobl pam rydych chi'n helpu peillwyr.

## Cynlluniau Monitro Cenedlaethol

**5.24** Mae cadw golwg ar gynnydd strategaethau peillwyr yr 11 anheddiad yn sylfaenol wrth rannu a hyrwyddo llwyddiant a dysgu o gamgymeriadau posibl. Lle bo'n berthnasol, dylid cyfleu gwybodaeth i fudiadau bywyd gwyllt neu systemau wedi'u cofnodi. Awgrymir cynlluniau cofnodi a phrosiectau perthnasol yn y pwyntiau bwled isod.

- Cynllun Monitro Peillwyr y DU **[Gweler cyfeiriad** 43**]**;
- Cynllun Monitro Glöynnod Byw'r DU **[Gweler cyfeiriad** 44**]**;
- BeeWalk **[Gweler cyfeiriad** 45**]**;
- Get Britain Buzzing **[Gweler cyfeiriad** 46**]**;
- Urban Buzz **[Gweler cyfeiriad** 47**]**;
- Cyfrif Gwenyn Mawr Prydain **[Gweler cyfeiriad** 48**]**;
- Y Cyfrif Glöynnod Byw Mawr **[Gweler cyfeiriad** 49**]**;
- Noson Genedlaethol y Gwyfyn **[Gweler cyfeiriad** 50**]**;
- Obsidentify **[Gweler cyfeiriad** 51**]**;

- Seek gan iNaturalist **[Gweler cyfeiriad** 52**]**; ac
- iRecord **[Gweler cyfeiriad** 53**]**.

# Pwrpas y strategaethau peillwyr

**5.25** Mae gan y Strategaethau Peillwyr ar gyfer yr 11 anheddiad i gyd yr un pwrpas sylfaenol, sef:

- Amlinellu camau blaenoriaeth a fydd yn creu, cynnal, gwella a chysylltu cynefin peillwyr;
- Cynyddu helaethrwydd ac amrywiaeth rhywogaethau peillwyr yn y tymor hir;
- Cyfrannu at rwydwaith peillwyr ffyniannus a gwydn ledled Sir Benfro;
- Disgrifio camau a dulliau priodol ar gyfer rheoli a monitro; a
- Nodi partneriaid cyflenwi posibl.

# Strwythur y strategaethau peillwyr

**5.26** Rhennir y Strategaethau Peillwyr yn dair adran:

## Strategaethau peillwyr cyffredinol

**5.27** Bwriad yr egwyddorion peillwyr cyffredinol **[Gweler cyfeiriad** 54**]** yw llywio dyluniad a darpariaeth y prosiectau peillwyr a nodwyd yn y Cynlluniau Rheoli Anheddiad yn ogystal â phrosiectau peillwyr newydd yn y dyfodol.

# Llwybrau Peillwyr

**5.28** Cynhyrchwyd Llwybrau Peillwyr **[Gweler cyfeiriad** 55**]** ar gyfer yr 11 anheddiad unigol. Mae'r rhain yn cynnwys map sy'n dangos:

- Asedau peillwyr presennol allweddol;
- Coridorau peillwyr strategol; a
- Phrosiectau allweddol.

**5.29** Gellir croesgyfeirio'r prosiectau allweddol rhwng y Cynlluniau Rheoli Anheddiad ar gyfer pob anheddiad. Mae rhai o'r rhain wedi'u cynnwys fel y prosiectau 'cicdanio' ar gyfer pob anheddiad.

# Cyflawni

**5.30** Mae’r adran gyflawni **[Gweler cyfeiriad** 56**]** yn berthnasol i bob anheddiad. Mae'n amlinellu'r mathau o ffactorau i'w hystyried wrth reoli a chynnal y gwahanol fathau o gamau sy'n gysylltiedig â pheillwyr sydd wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Rheoli Anheddiad.


# Pennod 6

## Egwyddorion Peillwyr Cyffredinol

**6.1** Mae'r adran ganlynol yn nodi ystod o Egwyddorion Peillwyr Cyffredinol a fydd yn llywio’r broses o ddylunio a chyflawni camau diogelu, gwella a chysylltu cynefinoedd peillwyr o fewn yr 11 Anheddiad. Cefnogir yr Egwyddorion Peillwyr Cyffredinol gan gyfres o Is-egwyddorion sy'n berthnasol i bob Anheddiad. Bydd clicio ar is-benawdau pob Is-egwyddor yn ehangu testun esboniadol pellach.

**6.2** Hysbyswyd yr Egwyddorion Peillwyr gan yr adolygiad sylfaenol o bwysau a bygythiadau tuag at beillwyr, ymweliadau safle ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

## Ffigur 6.1: Cynefinoedd Llwyddiannus i Beillwyr



# 1. Creu rhwydweithiau natur

## 1a. Diogelu a gwella cynefin peillwyr presennol

**6.3** Mae peillwyr fel arfer ar eu helaethaf mewn mannau lle ceir ardaloedd presennol o laswelltir sy'n llawn blodau gwyllt, rhostir, a choetiroedd lle mae'r rhain wedi'u cysylltu'n dda er enghraifft gan wrychoedd neu ymylon llawn blodau. Bydd gwarchod a gwella'r safleoedd presennol hyn er mwyn eu gwneud yn fwy ac yn well yn helpu i'w clustogi yn erbyn pwysau defnydd tir cyfagos ac yn darparu mwy o wytnwch i'r hinsawdd.

## 1b. Creu cynefin peillwyr newydd, yn enwedig ar argloddiau a llethrau

**6.4** Mae angen mwy o gynefin peillwyr i greu poblogaethau mawr a sefydlog. Mae argloddiau a llethrau yn gamau cyflym ymlaen o ran creu cynefin newydd gan nad yw'r ardaloedd hyn mewn defnydd hamdden, nid yw'r glaswellt yno'n cael ei dorri mor aml ac nid ydynt wedi'u tirlunio'n ffurfiol. Gall hadau cribell felen helpu i leihau tyfiant glaswellt a helpu i sefydlu blodau gwyllt.

**6.5** Bydd arolygu safle posib o fis Mawrth i fis Hydref yn helpu i ddeall cyfyngiadau safle a phresenoldeb peillwyr presennol i sicrhau bod gwaith creu cynefinoedd yn briodol yn lleol ac wedi'i dargedu tuag at anghenion peillwyr penodol. Yn aml, y lle gorau i greu cynefin i beillwyr yw llecyn heulog cysgodol.

## 1c. Cryfhau cysylltedd drwy greu cynefin cerrig sarn a choridor

**6.6** Mae darnau llai o gynefin sy'n denu peillwyr, gan gynnwys gwrychoedd, lleiniau ymyl ffordd, ffosydd a chloddiau yn helpu peillwyr i symud ar draws y

dirwedd lle nad oes llawer o goridorau llinellol. Mae gwneud y gorau o swyddogaeth mannau llai o faint yn yr ardal drefol yn arbennig o bwysig er mwyn cynyddu'r athreiddedd i rywogaethau symud o gwmpas. Gall hyn fod drwy dyfu planhigion ar ddellt neu ffrâm ddringo, mewn basgedi crog neu flychau ffenestri.

# 2. Cynyddu amrywiaeth

## 2a. Dewis planhigion brodorol sy'n llawn neithdar a phaill

**6.7** Dros y blynyddoedd mae peillwyr wedi datblygu ochr yn ochr â phlanhigion brodorol sydd wedi'u haddasu'n dda i'r tymor tyfu, yr hinsawdd, a’r priddoedd lleol.  Mae llawer o beillwyr yn bwydo ar blanhigion penodol am fod rhai mathau o flodau yn well ganddynt.

**6.8** Gall planhigion brodorol hefyd atgyfnerthu cymeriad lleol ac ymdeimlad o le, er enghraifft cennin Pedr Dinbych-y-pysgod. Mewn trefi arfordirol, bydd angen planhigion sy’n gallu goddef halen. Mae'n bosibl y bydd yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt neu Grŵp Dolydd lleol yn gallu darparu hadau o darddiad lleol. Dylid teilwra cyfansoddiad y gymysgedd hadau i'r math o bridd a'r lleoliad. Ar gyfer ardal fawr, gellid defnyddio gwair gwyrdd lleol fel ffynhonnell hadau.

## 2b. Darparu ar gyfer mwy na gwenyn yn unig

**6.9** Mae ystod amrywiol o beillwyr sy'n chwarae rhan hanfodol yn ein hecosystemau. Yn ogystal â gwenyn mêl, cacwn a gwenyn unig, mae peillwyr yn cynnwys rhai gwenyn meirch, glöynnod byw, gwyfynod a phryfed hofran, a rhai chwilod a chlêr. Drwy ddarparu'r cynefinoedd a'r amodau sy’n ofynnol i ystod ehangach o beillwyr, crëir mwy o wytnwch wrth ddarparu gwasanaethau peillio.

## 2c. Darparu ar gyfer peillwyr drwy gydol eu cylch bywyd

**6.10** Y tu hwnt i flodau llawn paill a neithdar sydd ar gael rhwng mis Mawrth a diwedd mis Medi, mae angen ar beillwyr gynefinoedd sy'n helpu gyda chyfnodau bywyd eraill, gan gynnwys lleoedd i gysgodi a magu eu hifainc. Er enghraifft, gall coesynnau a phennau hadau marw ddarparu lloches yn y gaeaf. Gall cloddiau pridd, pridd moel, bylchau mewn waliau, pentyrrau o gerrig a boncyffion ddarparu safleoedd nythu a gaeafgysgu. Dylid creu safleoedd nythu wrth ymyl blodau, gan gofio nad yw amrediad fforio rhai peillwyr yn fwy nag ychydig fetrau.

## 2d. Osgoi defnyddio plaladdwyr os oes modd a pheidio byth â chwistrellu blodau agored

**6.11** Mae plaladdwyr yn lladd pryfed defnyddiol yn ogystal â phlâu. Dylid osgoi eu defnyddio yn arbennig ar blanhigion blodeuol lle mae peillwyr yn bresennol neu'n agos at nythod. Gellir rheoli llawer o blâu, chwyn a chlefydau heb ddefnyddio plaladdwyr, fel chwynnu â llaw yn lle chwistrellu. Bydd addysgu’r gymuned leol am blaladdwyr a chwynladdwyr i'w defnyddio yn eu gerddi eu hunain o fudd i beillwyr.

# 3. Sicrhau buddion ehangach i bobl a bywyd gwyllt

## 3a. Darparu bwyd a lloches i dacsonau eraill

**6.12** Gall creu ystod amrywiol o fathau a strwythurau cynefin fod o fudd i rywogaethau eraill hefyd. Er enghraifft, mae caniatáu i lystyfiant dyfu'n hir yn darparu bwyd a lloches i adar, infertebratau ac ymlusgiaid eraill. Gall ystyried

anghenion tacsonau eraill wrth ddylunio cynefin peillwyr helpu i gynnal bioamrywiaeth ffyniannus gyffredinol.

### 3b. Integreiddio cynefin sy'n denu peillwyr i seilwaith gwyrdd ehangach

**6.13** Gall cynefin sy'n denu peillwyr gael ei ôl-osod i'r datblygiad presennol a/neu ei ddylunio i ddatblygiad newydd naill ai fel cynefin annibynnol neu wedi'i integreiddio i asedau seilwaith gwyrdd eraill. Er enghraifft, os cânt eu dylunio a'u rheoli'n briodol, gall ymylon glaswelltir o amgylch SDC annog rhywogaethau sy'n denu peillwyr neu flodau gwyllt sy'n goddef dŵr i'w hychwanegu at amrywiaeth y rhywogaethau. Gellir cyfuno plannu mwy o lwyni yng nghanol trefi â mesurau eraill fel rhwystrau neu fesurau lleddfu traffig i bedestreiddio strydoedd ac annog teithio llesol.

## 4. Hybu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd peillwyr

### 4a. Cyfleu 'aflerwch' canfyddedig

**6.14** Yn aml, ystyrir efallai bod dolydd blodau gwyllt, lleiniau ymyl ffordd a choed marw yn agweddau sydd wedi tyfu'n wyllt neu heb eu rheoli. Gall arwyddion gwybodaeth helpu i egluro bod ardal yn cael ei rheoli ar gyfer peillwyr. Drwy gydweithio â grwpiau bywyd gwyllt ac amgylchedd lleol ac arddangos gwybodaeth ychwanegol am rywogaethau planhigion a pheillwyr a allai gael eu gweld gerllaw, gellir helpu trigolion ac ymwelwyr i ddysgu am y fioamrywiaeth leol a magu cysylltiad â'u hamgylchoedd naturiol.

**6.15** Gall ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol, fel ymgyrch 'Iddyn Nhw' Llywodraeth Cymru **[Gweler cyfeiriad** 57**]** neu brosiect 'Dolydd Bychain'

EcoDewi **[Gweler cyfeiriad** 58**]** gynyddu cydnabyddiaeth a dealltwriaeth ledled Sir Benfro.

## 4b. Ystyried achrediad 'Caru Gwenyn'

**6.16** Mae achrediad Caru Gwenyn yn cynnig cyngor ac arweiniad gan 'Hyrwyddwyr Caru Gwenyn' rhanbarthol ac yn cyfeirio at ffynonellau ariannu y gellid eu defnyddio i weithredu rhaglenni a chamau gweithredu sy’n denu peillwyr.

**6.17** Bydd sefydliadau a chymunedau sy'n llwyddo yn eu cais am achrediad yn gallu defnyddio logo Caru Gwenyn ar eu deunydd cyhoeddusrwydd i gadarnhau eu bod yn rhan o'r cynllun. Gweler 'Mentrau Ehangach' i gael gwybod rhagor am y cynllun.

## 4c. Creu llwybrau hygyrch i hyrwyddo archwilio natur

**6.18** Mewn parciau a mannau agored, gellir torri llwybrau bach a llwybrau cylchol drwy ddolydd blodau gwyllt sy'n adlewyrchu 'llinellau awydd' defnyddwyr y parc. Gall cyflwyno seddi, meinciau a boncyffion i eistedd arnynt i fwynhau’r golygfeydd a'r synau helpu pobl i gysylltu â byd natur. Drwy farcio llwybrau cerdded yn amlwg mewn dolydd ac ardaloedd o goetir, gellir helpu i adael ardaloedd sydd heb aflonyddu arnynt ar gyfer byd natur.

# 5. Sicrhau rheoli tymor hir

## 5a. Ymgysylltu ag ysgolion a grwpiau cymunedol

**6.19** Mae perthynas dda â phobl leol yn hanfodol ar gyfer canlyniadau cadarnhaol ac ymdeimlad o berchnogaeth leol. Mae gweithio gyda grwpiau cymunedol a/neu ysgolion yn ffordd allweddol o ymgysylltu â phobl leol a'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni camau i warchod a chreu cynefin peillwyr, ac i ehangu cyfranogiad.

## 5b. Gweithio gyda thirfeddianwyr mawr i roi camau rheoli peillwyr ar waith

**6.20** Mae dros 70% o'r tir yn y DU yn cael ei ffermio mewn rhyw ffordd, felly mae'r ffordd y caiff ei reoli'n cael effaith enfawr ar beillwyr a bioamrywiaeth. Mae'r newidiadau yn ein cefn gwlad dros y degawdau diwethaf, gan gynnwys colli 97% **[Gweler cyfeiriad** 59**]** o'n dolydd blodau gwyllt, wedi golygu bod gwenyn a pheillwyr eraill yn dibynnu fwyfwy ar gnydau blodeuol a'r cymysgeddau blodau gwyllt a blannir gan ffermwyr.

**6.21** Gall annog ac addysgu tirfeddianwyr i greu nodweddion cynefin sy'n denu peillwyr a defnyddio opsiynau eraill effeithiol **[Gweler cyfeiriad** 60**]** yn lle plaladdwyr a chwynladdwyr cemegol, gan gynnwys annog ysglyfaethwyr naturiol a chymar-gnydau, oll fod o fudd i beillwyr.

## 5c. Gwneud gwaith ar adeg addas o'r flwyddyn

**6.22** Mae angen gwneud gwaith plannu a rheoli ar adegau addas o'r flwyddyn er mwyn sicrhau bod cynefinoedd yn sefydlu ac i osgoi tarfu ar rywogaethau neu eu niweidio. Er enghraifft, y gaeaf yw'r adeg orau i blannu bylbiau a choed, ond yr hydref neu'r gwanwyn sydd orau ar gyfer plannu hadau dôl. Dylid osgoi

torri gwrychoedd yn ystod y prif dymor bridio i adar sy'n nythu, sydd fel arfer yn para drwy gydol mis Mawrth i fis Awst bob blwyddyn. Gall hyn fod yn ddibynnol ar y tywydd, ac efallai bydd rhai adar yn nythu y tu allan i'r cyfnod hwn, felly mae'n bwysig chwilio’n ofalus bob amser am nythod gweithredol cyn torri.

## 5d. Torri a chasglu sgil-gynhyrchion

**6.23** Mae'n bwysig cael gwared ar sgil-gynhyrchion o laswelltiroedd sy'n llawn blodau gwyllt er mwyn atal cyfoethogi’r pridd, sy'n ffafrio planhigion bras a chystadleuol. Mae hyn hefyd yn cadw darnau o dir moel yn hygyrch i wenyn sy'n nythu ar y ddaear. Os oes modd, dylid gadael y sgil-gynhyrchion yn eu lle am ychydig ddyddiau er mwyn i’r hadau gael cyfle i ollwng i'r ddaear. Mae gohirio torri tan yr Hydref a gwaredu llystyfiant tan ar ôl i fwyafrif y planhigion flodeuo yn helpu i estyn yr amser y mae bwyd ar gael i beillwyr. Fel arall, gallai ardaloedd gwahanol gael eu torri o ganol mis Gorffennaf ymlaen gan newid pa ardal sy'n cael ei thorri'n gyntaf bob blwyddyn.

## 5e. Rheoli a dileu rhywogaethau goresgynnol

**6.24** Mae rhywogaethau goresgynnol yn creu cystadleuaeth ar gyfer lle, golau ac adnoddau i adfer cynefinoedd fforio a nythu ar gyfer peillwyr. Oherwydd eu natur, mae rhywogaethau goresgynnol yn ymledu’n hawdd, felly mae angen rhoi mesurau bioddiogelwch ar waith er mwyn gwaredu rhywogaethau goresgynnol. Gall hyn fod yn llafurus ac yn gostus, er bod cyfle i gynnwys y gymuned gyda'r gwaredu. Mae'n annhebygol iawn y bydd llawer o rywogaethau goresgynnol yn cael eu dileu'n llwyr, a hynny’n aml oherwydd eu bod yn tyfu mewn mannau anhygyrch, neu lle nad yw rheoli cemegol a/neu reoli â llaw yn opsiwn.

# 6. Monitro cynnydd

## 6a. Casglu data monitro ac addasu dulliau rheoli yn briodol

**6.25** Mae gwybodaeth yn allweddol i bobl allu gweithredu'n effeithiol i ddiogelu a chynnal poblogaethau peillwyr. Bydd gwell dealltwriaeth o niferoedd y boblogaeth ac ymhle mae camau'n cael effaith yn golygu bod modd cynllunio a gweithredu mesurau cadwraeth yn well.

## 6b. Cyflwyno data monitro i gynllun cenedlaethol

**6.26** Drwy gyfrannu data monitro at gynlluniau cenedlaethol (fel y rhai a restrir yn 'Mentrau Ehangach') mae modd olrhain newidiadau hirdymor mewn dosbarthiadau a helpu i gefnogi polisi a gweithredu cadarn ar sail tystiolaeth. Canfu un astudiaeth **[Gweler cyfeiriad 61]** fod costau gweithredu cynlluniau monitro ledled y wlad dros 70 gwaith yn is na gwerth gwasanaethau peillio i economi'r DU.

# Pennod 7

Llwybrau Peillwyr ar gyfer 11 Anheddiad

**7.1** Mae'r llwybrau peillwyr yn meithrin yr egwyddorion peillwyr cyffredinol ymhellach drwy amlinellu'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu ym mhob anheddiad.

## Llwybr Peillwyr Abergwaun ac Wdig

**7.2** Mae Llwybr Peillwyr Abergwaun ac Wdig yn cynnwys:

- Asedau peillwyr presennol allweddol
- Coridorau peillwyr strategol
- Prosiectau allweddol

**7.3** Caiff y tair agwedd hyn eu llywio gan yr adolygiad sylfaenol, ymweliadau safle ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

**7.4** Gan adlewyrchu Egwyddor Peillwyr Gyffredinol **[Gweler cyfeiriad** 62**]** 1a 'Gwarchod a gwella cynefin peillwyr presennol', darperir y cynefin peillwyr presennol allweddol hefyd ar gyfer pob anheddiad. Er nad yw'r rhain yn ffocws i brosiect allweddol efallai, maent yn amhrisiadwy serch hynny yn rhan o'r llwybr peillwyr ac mae gofyn eu diogelu rhag difrod neu aflonyddwch.


**7.5** Mae'r cynefin peillwyr presennol allweddol yn cynnwys dynodiadau statudol, man gwyrdd lleol neu lle mae prosiectau neu fentrau peillwyr presennol yn digwydd. Nid yw'r ardaloedd a gynhwysir yn gynhwysfawr a bydd tir arall o werth uchel ar gyfer peillwyr, er enghraifft tir mewn tirfeddiannaeth breifat.

**7.6** Disgrifir y gwahanol fathau o goridorau peillwyr strategol yn 'Llwybrau Peillwyr ar gyfer 11 Anheddiad' **[Gweler cyfeiriad** 63**]**.

**7.7** Dangosir y Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus i annog archwilio natur rhwng yr asedau peillwyr allweddol ac ar hyd y coridorau strategol.

**7.8** Ceir mwy o wybodaeth am gwmpas pob prosiect allweddol yng Nghynllun Rheoli Seilwaith Gwyrdd Abergwaun ac Wdig. **[Gweler cyfeiriad** 64**]**.

## Ffigur 7.1: Llwybr Peillwyr Abergwaun ac Wdig




Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y goron a hawl cronfa ddata 2022

CB:JT EB:Tomlinson_J LUC 11993_010_r0_BaseMapRequest221010 10/10/2022
Ffynhonnell: OS

**Prosiectau peillwyr allweddol o fewn y Cynllun Rheoli SG:**

**FIS1** Gwella Parc Lota
**FIS3** Amrywiaethu lleiniau ymyl ffordd ar hyd y Parrog
**FIS4** Creu llwybr peillwyr yn Llwybr Pencowrw
**FIS5** Gwyrddu Ffordd yr Efail ymhellach
**FIS6** Hyrwyddo gwyrddu coridor yr A487
**FIS8** Gwella gwerth bioamrywiaeth y mannau gwyrdd a'r caeau chwarae presennol
**FIS10** Hyrwyddo tyfu bwyd cymunedol yn Wdig
**FIS11** Gwella gwerth bioamrywiaeth y cae chwarae i'r de o Ros Wdig
**FIS12** Gwella Rhos Wdig

**Cynefin peillwyr presennol allweddol:**

A Gwarchodfa Natur Rhos Wdig
B Gardd Gymunedol Wdig

Coridor Bwytadwy
Coridor Glaswelltir
Coridor Gwlyptir / Morol
Coridor Amaethyddol
Carreg Sarn Drefol
Hawliau Tramwy Cyhoeddus

# Llwybr Peillwyr Hwlffordd

**7.9** Mae Llwybr Peillwyr Hwlffordd yn cynnwys:

- Asedau peillwyr presennol allweddol
- Coridorau peillwyr strategol
- Prosiectau allweddol

**7.10** Caiff y tair agwedd hyn eu llywio gan yr adolygiad sylfaenol, ymweliadau safle ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

**7.11** Gan adlewyrchu Egwyddor Peillwyr Gyffredinol **[Gweler cyfeiriad** 65**]** 1a 'Gwarchod a gwella cynefin peillwyr presennol', darperir y cynefin peillwyr presennol allweddol hefyd ar gyfer pob anheddiad. Er nad yw'r rhain yn ffocws i brosiect allweddol efallai, maent yn amhrisiadwy serch hynny yn rhan o'r llwybr peillwyr ac mae gofyn eu diogelu rhag difrod neu aflonyddwch.


**7.12** Mae'r cynefin peillwyr presennol allweddol yn cynnwys dynodiadau statudol, man gwyrdd lleol neu lle mae prosiectau neu fentrau peillwyr presennol yn digwydd. Nid yw'r ardaloedd a gynhwysir yn gynhwysfawr a bydd tir arall o werth uchel ar gyfer peillwyr, er enghraifft tir mewn tirfeddiannaeth breifat.

**7.13** Disgrifir y gwahanol fathau o goridorau peillwyr strategol yn 'Llwybrau Peillwyr ar gyfer 11 Anheddiad' **[Gweler cyfeiriad** 66**]**.

**7.14** Dangosir y Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus i annog archwilio natur rhwng yr asedau peillwyr allweddol ac ar hyd y coridorau strategol.

**7.15** Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â chwmpas pob prosiect allweddol i'w gweld yng Nghynllun Rheoli Seilwaith Gwyrdd Hwlffordd **[Gweler cyfeiriad** 67**]**.

## Ffigur 7.2: Llwybr Peillwyr Hwlffordd




**Prosiectau peillwyr allweddol o fewn y Cynllun Rheoli SG:**

- **HAV1** Cynnal a gwella'r rhwydwaith perllannau
- **HAV2** Estyn a gwella amgylchedd torlannol Dôl y Bont
- **HAV3** Sefydlu ardal dyfu gymunedol i bobl a bywyd gwyllt
- **HAV4** Rheoli'r gerddi 'tir bwrdais' canoloesol fel hafan i fywyd gwyllt
- **HAV5** Gwella Neuadd y Sir
- **HAV6** Cynnal a gwella dôl Priory Saltings
- **HAV7** Sefydlu llwybr coed parcdir cae ras a hyrwyddo sefydlu dôl blodau gwyllt
- **HAV8** Cyflwyno coed perllan a pharcdir wrth ymyl y parc sgrialu
- **HAV12** Hyrwyddo gwyrddu ardaloedd preswyl Hwlffordd
- **HAV17** Gwella pyrth gwyrdd

**Cynefin peillwyr presennol allweddol:**

- **A** SoDdGA Afon Cleddau Wen
- **B** SoDdGA Dyfrffordd y Ddau Gleddau
- **C** Gwarchodfa Natur Priory Saltings
- **D** Fortunes Frolic
- **E** Dôl y Bont
- **F** Perllan Fleming Crescent
- **G** Perllan Cae Ras
- **H** Perllan Pont Fadlen

Coridor Bwytadwy
Coridor Glaswelltir
Coridor Amaethyddol
Mosaig Cynefinoedd
Carreg Sarn Drefol
Hawliau Tramwy Cyhoeddus

# Llwybr Peillwyr Aberdaugleddau

**7.16** Mae Llwybr Peillwyr Aberdaugleddau yn cynnwys:

- Asedau peillwyr presennol allweddol
- Coridorau peillwyr strategol
- Prosiectau allweddol

**7.17** Caiff y tair agwedd hyn eu llywio gan yr adolygiad sylfaenol, ymweliadau safle ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

**7.18** Gan adlewyrchu Egwyddor Peillwyr Gyffredinol **[Gweler cyfeiriad** 68**]** 1c 'Gwarchod a gwella cynefin peillwyr presennol', darperir y cynefin peillwyr presennol allweddol hefyd ar gyfer pob anheddiad. Er nad yw'r rhain yn ffocws i brosiect allweddol efallai, maent yn amhrisiadwy serch hynny yn rhan o'r llwybr peillwyr ac mae gofyn eu diogelu rhag difrod neu aflonyddwch.


**7.19** Mae'r cynefin peillwyr presennol allweddol yn cynnwys dynodiadau statudol, man gwyrdd lleol neu lle mae prosiectau neu fentrau peillwyr presennol yn digwydd. Nid yw'r ardaloedd a gynhwysir yn gynhwysfawr a bydd tir arall o werth uchel ar gyfer peillwyr, er enghraifft tir mewn tirfeddiannaeth breifat.

**7.20** Disgrifir y gwahanol fathau o goridorau peillwyr strategol yn 'Llwybrau Peillwyr ar gyfer 11 Anheddiad' **[Gweler cyfeiriad** 69**]**.

**7.21** Dangosir y Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus i annog archwilio natur rhwng yr asedau peillwyr allweddol ac ar hyd y coridorau strategol.

**7.22** Mae mwy o wybodaeth am gwmpas pob prosiect allweddol i'w gweld yng Nghynllun Rheoli Seilwaith Gwyrdd Aberdaugleddau **[Gweler cyfeiriad** 70**]**.

## Ffigur 7.3: Llwybr Peillwyr Aberdaugleddau




Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y goron a hawl cronfa ddata 2022

CB:JT EB:Tomlinson_J LUC 11993_010_r0_BaseMapRequest221010 10/10/2022 Ffynhonnell: OS

**Prosiectau peillwyr allweddol o fewn y Cynllun Rheoli SG:**

- **MIL1** Trawsnewid y man gwyrdd y tu cefn i Ganolfan Hamdden Aberdaugleddau i fioamrywiaeth
- **MIL2** Ehangu'r rhwydwaith dolydd blodau gwyllt ar The Rath
- **MIL3** Gwella man gwyrdd a choetir Bae Gelliswick
- **MIL4** Hyrwyddo rheolaeth well ar goedwig Hubberston Pill
- **MIL8** Hyrwyddo gwyrddu ystadau tai
- **MIL9** Creu coridor natur Hubberston i Hakin
- **MIL10** Cryfhau'r A4076 fel coridor gwyrdd
- **MIL19** Gwella gwerth hamdden a bioamrywiaeth y Glebelands
- **MIL20** Hyrwyddo tyfu bwyd cymunedol yn Aberdaugleddau

**Cynefin peillwyr presennol allweddol:**

- A SoDdGA Dyfrffordd y Ddau Gleddau
- B Hubberston Pill
- C The Rath

Coridor Bwytadwy

Coridor Coetir

Coridor Gwlyptir / Morol

Coridor Glaswelltir

Carreg Sarn Drefol

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

# Llwybr Peillwyr Arberth

**7.23** Mae Llwybr Peillwyr Arberth yn cynnwys:

- Asedau peillwyr presennol allweddol
- Coridorau peillwyr strategol
- Prosiectau allweddol

**7.24** Caiff y tair agwedd hyn eu llywio gan yr adolygiad sylfaenol, ymweliadau safle ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid.


**7.25** Gan adlewyrchu Egwyddor Peillwyr Gyffredinol **[Gweler cyfeiriad** 71**]** 1a 'Gwarchod a gwella cynefin peillwyr presennol', darperir y cynefin peillwyr presennol allweddol hefyd ar gyfer pob anheddiad. Er nad yw'r rhain yn ffocws i brosiect allweddol efallai, maent yn amhrisiadwy serch hynny yn rhan o'r llwybr peillwyr ac mae gofyn eu diogelu rhag difrod neu aflonyddwch. Mae'r cynefin peillwyr presennol allweddol yn cynnwys dynodiadau statudol, man gwyrdd lleol neu lle mae prosiectau neu fentrau peillwyr presennol yn digwydd. Nid yw'r ardaloedd a gynhwysir yn gynhwysfawr a bydd tir arall o werth uchel ar gyfer peillwyr, er enghraifft tir mewn tirfeddiannaeth breifat.

**7.26** Disgrifir y gwahanol fathau o goridorau peillwyr strategol yn 'Llwybrau Peillwyr ar gyfer 11 Anheddiad' **[Gweler cyfeiriad** 72**]**.

**7.27** Dangosir y Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus i annog archwilio natur rhwng yr asedau peillwyr allweddol ac ar hyd y coridorau strategol.

**7.28** Mae mwy o wybodaeth am gwmpas pob prosiect allweddol i'w gweld yng Nghynllun Rheoli Seilwaith Gwyrdd Arberth **[Gweler cyfeiriad** 73**]**.

## Ffigur 7.4: Llwybr Peillwyr Arberth




Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y goron a hawl cronfa ddata 2022

CB:JT EB:Tomlinson_J LUC 11993_010_r0_BaseMapRequest221010 10/10/2022
Ffynhonnell: OS

**Prosiectau peillwyr allweddol o fewn y Cynllun Rheoli SG:**

**NAR2** Cyflenwi cynefinoedd coetir yng Nghastell Arberth
**NAR3** Gwella gwerth bioamrywiaeth Gwaun y Dref
**NAR6** Sefydlu perllan gymunedol
**NAR7** Hyrwyddo gwyrddu canol tref Arberth
**NAR8** Gwella safle Canolfan Gymunedol Bloomfield
**NAR10** Gwella gwerth bioamrywiaeth perimedr y cae rygbi
**NAR11** Hyrwyddo gwyrddu Parc Menter Ruchacre
**NAR12** Creu porth gwyrdd wrth gyffordd yr A478 a Ffordd Kiln Park
**NAR13** Sicrhau dulliau sy'n denu peillwyr yn Ysgol Gynradd Arberth
**NAR15** Hyrwyddo plannu coed yn Cox Hill a Garfield Gardens
**NAR18** Sicrhau gwelliannau i Fynwent St Andrews

**Cynefin peillwyr presennol allweddol:**

A SoDdGA Afon Cleddau Ddu
B Gwaun y Dref

Coridor Bwytadwy
Coridor Coetir
Coridor Amaethyddol
Coridor Glaswelltir
Carreg Sarn Drefol
Hawliau Tramwy Cyhoeddus

# Llwybr Peillwyr Trefdraeth

**7.29** Mae Llwybr Peillwyr Trefdraeth yn cynnwys:

- Asedau peillwyr presennol allweddol
- Coridorau peillwyr strategol
- Prosiectau allweddol

**7.30** Caiff y tair agwedd hyn eu llywio gan yr adolygiad sylfaenol, ymweliadau safle ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

**7.31** Gan adlewyrchu Egwyddor Peillwyr Gyffredinol **[Gweler cyfeiriad** 74**]** 1a 'Gwarchod a gwella cynefin peillwyr presennol', darperir y cynefin peillwyr presennol allweddol hefyd ar gyfer pob anheddiad. Er nad yw'r rhain yn ffocws i brosiect allweddol efallai, maent yn amhrisiadwy serch hynny yn rhan o'r llwybr peillwyr ac mae gofyn eu diogelu rhag difrod neu aflonyddwch.


**7.32** Mae'r cynefin peillwyr presennol allweddol yn cynnwys dynodiadau statudol, man gwyrdd lleol neu lle mae prosiectau neu fentrau peillwyr presennol yn digwydd. Nid yw'r ardaloedd a gynhwysir yn gynhwysfawr a bydd tir arall o werth uchel ar gyfer peillwyr, er enghraifft tir mewn tirfeddiannaeth breifat.

**7.33** Disgrifir y gwahanol fathau o goridorau peillwyr strategol yn 'Llwybrau Peillwyr ar gyfer 11 Anheddiad' **[Gweler cyfeiriad** 75**]**.

**7.34** Dangosir y Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus i annog archwilio natur rhwng yr asedau peillwyr allweddol ac ar hyd y coridorau strategol.

**7.35** Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â chwmpas pob prosiect allweddol i'w gweld yng Nghynllun Rheoli Seilwaith Gwyrdd Trefdraeth.

## Ffigur 7.5: Llwybr Peillwyr Trefdraeth




**Prosiectau peillwyr allweddol o fewn y Cynllun Rheoli SG:**

**NEW1** Cyflwyno plannu ffiniol ar raddfa fach yn y parc sgrialu a'r lle chwarae

**NEW6** Cyflwyno plannu coed stryd ac ymylon ffordd 'gwylltach' ar Ffordd y Parrog

**NEW7** Cyflwyno plannu ymyl ffordd ar raddfa fach ar y ddynesfa at Drefdraeth o'r A487

**NEW8** Amrywiaethu'r plannu yn y Gerddi Cymunedol

**NEW9** Cyflwyno cafnau blodau brodorol wrth safleoedd bws a mannau gorffwys

**NEW10** Creu fflora daear coetir ar hyd hawl tramwy cyhoeddus Afon Nyfer

**NEW11** Hyrwyddo llai o dorri gwair ym man agored Barwniaeth Cemaes

**NEW12** Sefydlu rhandir cymunedol i bobl a bywyd gwyllt

**NEW13** Hyrwyddo dad-ddofi gerddi preifat

**NEW15** Cefnogi sefydlu gardd natur Ysgol Bro Ingli

**NEW16** Hyrwyddo Mynwent Brynhyfryd yn safle caru gwenyn

**Cynefin peillwyr presennol allweddol**

A SoDdGA Carn Ingli

B SoDdGA Clogwyni Trefdraeth

C Mynwent Brynhyfryd

Coridor Bwytadwy

Coridor Glaswelltir

Coridor Gwlyptir / Morolr

Coridor Amaethyddol

Carreg Sarn Drefol

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

# Llwybr Peillwyr Neyland

**7.36** Mae Llwybr Peillwyr Neyland yn cynnwys:

- Asedau peillwyr presennol allweddol
- Coridorau peillwyr strategol
- Prosiectau allweddol

**7.37** Caiff y tair agwedd hyn eu llywio gan yr adolygiad sylfaenol, ymweliadau safle ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid.


**7.38** Gan adlewyrchu Egwyddor Peillwyr Gyffredinol **[Gweler cyfeiriad** 76**]** 1a 'Gwarchod a gwella cynefin peillwyr presennol', darperir y cynefin peillwyr presennol allweddol hefyd ar gyfer pob anheddiad. Er nad yw'r rhain yn ffocws i brosiect allweddol efallai, maent yn amhrisiadwy serch hynny yn rhan o'r llwybr peillwyr ac mae gofyn eu diogelu rhag difrod neu aflonyddwch. Mae'r cynefin peillwyr presennol allweddol yn cynnwys dynodiadau statudol, man gwyrdd lleol neu lle mae prosiectau neu fentrau peillwyr presennol yn digwydd. Nid yw'r ardaloedd a gynhwysir yn gynhwysfawr a bydd tir arall o werth uchel ar gyfer peillwyr, er enghraifft tir mewn tirfeddiannaeth breifat.

**7.39** Disgrifir y gwahanol fathau o goridorau peillwyr strategol yn 'Llwybrau Peillwyr ar gyfer 11 Anheddiad' **[Gweler cyfeiriad** 77**]**.

**7.40** Dangosir y Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus i annog archwilio natur rhwng yr asedau peillwyr allweddol ac ar hyd y coridorau strategol.

**7.41** Ceir mwy o wybodaeth ynglŷn â chwmpas pob prosiect allweddol yng Nghynllun Rheoli Seilwaith Gwyrdd Neyland **[Gweler cyfeiriad** 78**]**.

# Ffigur 7.6: Llwybr Peillwyr Neyland




**Prosiectau peillwyr allweddol o fewn y Cynllun Rheoli SG:**

**NEY1** Gwella gwyrddu Cei Brunel
**NEY3** Gwella Parc Harbour Close
**NEY6** Gwella mynediad i'r man gwyrdd sy'n eiddo i'r cyngor y tu ôl i'r Maes Athletau
**NEY7** Creu llwybr peillwyr ar hyd Llwybr Brunel
**NEY8** Gwella'r cynefin a'r mynediad yn Nhir Comin Bro Neyland
**NEY9** Ehangu nifer y gwelyau blodau brodorol
**NEY10** Gwella gwerth bioamrywiaeth man gwyrdd Westfield Drive
**NEY11** Cyflwyno dolydd blodau gwyllt a choed yn Honeyborough Green
**NEY12** Creu ymylon blodau gwyllt ar hyd y Promenâd
**NEY13** Gwyrddu'r Stryd Fawr ymhellach
**NEY14** Hyrwyddo gwyrddu Riverside Avenue
**NEY15** Darparu mynediad a gwelliannau bioamrywiaeth i fan gwyrdd Cambrian Road
**NEY17** Estyn Gwarchodfa Natur Westfield Pill

**Cynefin peillwyr presennol allweddol:**

A Gwarchodfa Natur Westfield Pill
B SoDdGA Dyfrffordd y Ddau Gleddau
C Gwelyau blodau Neyland Terrace
D Gwelyau blodau Railway Terrace

Coridor Bwytadwy
Coridor Coetir
Coridor Glaswelltir
Carreg Sarn Drefol
Hawliau Tramwy Cyhoeddus

# Llwybr Peillwyr Penfro

**7.42** Mae Llwybr Peillwyr Penfro yn cynnwys:

- Asedau peillwyr presennol allweddol
- Coridorau peillwyr strategol
- Prosiectau allweddol

**7.43** Caiff y tair agwedd hyn eu llywio gan yr adolygiad sylfaenol, ymweliadau safle ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

**7.44** Gan adlewyrchu Egwyddor Peillwyr Gyffredinol **[Gweler cyfeiriad** 79**]** 1a 'Gwarchod a gwella cynefin peillwyr presennol', darperir y cynefin peillwyr presennol allweddol hefyd ar gyfer pob anheddiad. Er nad yw'r rhain yn ffocws i brosiect allweddol efallai, maent yn amhrisiadwy serch hynny yn rhan o'r llwybr peillwyr ac mae gofyn eu diogelu rhag difrod neu aflonyddwch.


**7.45** Mae'r cynefin peillwyr presennol allweddol yn cynnwys dynodiadau statudol, man gwyrdd lleol neu lle mae prosiectau neu fentrau peillwyr presennol yn digwydd. Nid yw'r ardaloedd a gynhwysir yn gynhwysfawr a bydd tir arall o werth uchel ar gyfer peillwyr, er enghraifft tir mewn tirfeddiannaeth breifat.

**7.46** Disgrifir y gwahanol fathau o goridorau peillwyr strategol yn 'Llwybrau Peillwyr ar gyfer 11 Anheddiad' **[Gweler cyfeiriad** 80**]**.

**7.47** Dangosir y Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus i annog archwilio natur rhwng yr asedau peillwyr allweddol ac ar hyd y coridorau strategol.

**7.48** Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â chwmpas pob prosiect allweddol i'w gweld yng Nghynllun Rheoli Seilwaith Gwyrdd Penfro.

## Ffigur 7.7: Llwybr Peillwyr Penfro




**Prosiectau peillwyr allweddol o fewn y Cynllun Rheoli SG:**

**PEM1** Gwella gwyrddu Main Street ac Ardal Rheoli Ansawdd Aer Penfro
**PEM2** Gwella bioamrywiaeth a rheoli llifogydd naturiol yn Nhir Comin Penfro
**PEM3** Gwella bioamrywiaeth leol a chymeriad tirwedd y Maes Glas
**PEM4** Cyflwyno perllan gymunedol yn Devon Drive
**PEM7** Gwella amrywiaeth cynefinoedd yng nghoedwig Holyland
**PEM11** Gwella potensial bioamrywiaeth a diddordeb esthetig safleoedd amwynder lleol
**PEM13** Gwella Tŵr Barnard
**PEM14** Creu gardd bywyd gwyllt ac oriel
**PEM16** Gwella bioamrywiaeth wrth gyffordd South Road / St Daniel's Hill / yr A4139
**PEM19** Gwella gwerth bioamrywiaeth Llwybr y Pwll Melin

**Cynefin peillwyr presennol allweddol:**

A Parc Comin Uchaf ac Isaf
B Gwarchodfa Natur Leol Pwll Melin Penfro
C Coedwig Holyland

Coridor Bwytadwy
Coridor Coetir
Coridor Gwlyptir / Morol
Coridor Glaswelltir
Coridor Amaethyddol
Carreg Sarn Drefol
Hawliau Tramwy Cyhoeddus

# Llwybr Peillwyr Doc Penfro

**7.49** Mae Llwybr Peillwyr Doc Penfro yn cynnwys:

- Asedau peillwyr presennol allweddol
- Coridorau peillwyr strategol
- Prosiectau allweddol

**7.50** Caiff y tair agwedd hyn eu llywio gan yr adolygiad sylfaenol, ymweliadau safle ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid.


**7.51** Gan adlewyrchu Egwyddor Peillwyr Gyffredinol **[Gweler cyfeiriad** 81**]** 1a 'Gwarchod a gwella cynefin peillwyr presennol', darperir y cynefin peillwyr presennol allweddol hefyd ar gyfer pob anheddiad. Er nad yw'r rhain yn ffocws i brosiect allweddol efallai, maent yn amhrisiadwy serch hynny yn rhan o'r llwybr peillwyr ac mae gofyn eu diogelu rhag difrod neu aflonyddwch. Mae'r cynefin peillwyr presennol allweddol yn cynnwys dynodiadau statudol, man gwyrdd lleol neu lle mae prosiectau neu fentrau peillwyr presennol yn digwydd. Nid yw'r ardaloedd a gynhwysir yn gynhwysfawr a bydd tir arall o werth uchel ar gyfer peillwyr, er enghraifft tir mewn tirfeddiannaeth breifat.

**7.52** Disgrifir y gwahanol fathau o goridorau peillwyr strategol yn 'Llwybrau Peillwyr ar gyfer 11 Anheddiad' **[Gweler cyfeiriad** 82**]**.

**7.53** Dangosir y Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus i annog archwilio natur rhwng yr asedau peillwyr allweddol ac ar hyd y coridorau strategol.

**7.54** Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â chwmpas pob prosiect allweddol ar gael yng Nghynllun Rheoli Seilwaith Gwyrdd Doc Penfro **[Gweler cyfeiriad** 83**]**.

## Ffigur 7.8: Llwybr Peillwyr Doc Penfro




Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y goron a hawl cronfa ddata 2022

CB:JT EB:Tomlinson_J LUC 11993_010_r0_BaseMapRequest221010 10/10/2022
Ffynhonnell: OS

**Prosiectau peillwyr allweddol o fewn y Cynllun Rheoli SG:**

**PED1** Ailwampio lle chwarae Clwb Ieuenctid Doc Penfro
**PED3** Gwella Western Way Green i bobl a pheillwyr
**PED4** Creu coridor bywyd gwyllt ar hyd Military Road
**PED5** Creu cerrig sarn i fywyd gwyllt yng Nghwrs Golff De Sir Benfro
**PED6** Adfywio Carriage Drive
**PED7** Creu gardd bywyd gwyllt yn Ysbyty De Sir Benfro
**PED8** Gwella bioamrywiaeth yn Memorial Park
**PED9** Gwella bioamrywiaeth Mynwent Doc Penfro
**PED10** Gwella gwyrddu'r tir y tu ôl i ASDA
**PED12** Gwella gwerth bioamrywiaeth cae chwarae Bush Street
**PED13** Hyrwyddo gwerth bioamrywiaeth cynyddol Cwm Sykemoor
**PED14** Gwella gwyrddu meysydd parcio
**PED15** Creu dolydd blodau gwyllt ym Mhencadlys APCAP
**PED18** Gwella gwerth bioamrywiaeth y Fynwent Filwrol
**PED19** Gwella gwerth hamdden a bioamrywiaeth y man agored cyhoeddus ar Charles Thomas Avenue

**Cynefin peillwyr presennol allweddol:**

A SoDdGA Dyfrffordd y Ddau Gleddau
B Memorial Park
C Pennar Point

Coridor Bwytadwy
Coridor Coetir
Coridor Glaswelltir
Carreg Sarn Drefol
Hawliau Tramwy Cyhoeddus

# Llwybr Peillwyr Saundersfoot

**7.55** Mae Llwybr Peillwyr Saundersfoot yn cynnwys:

- Asedau peillwyr presennol allweddol
- Coridorau peillwyr strategol
- Prosiectau allweddol

**7.56** Caiff y tair agwedd hyn eu llywio gan yr adolygiad sylfaenol, ymweliadau safle ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

**7.57** Gan adlewyrchu Egwyddor Peillwyr Gyffredinol **[Gweler cyfeiriad** 84**]** 1a 'Gwarchod a gwella cynefin peillwyr presennol', darperir y cynefin peillwyr presennol allweddol hefyd ar gyfer pob anheddiad. Er nad yw'r rhain yn ffocws i brosiect allweddol efallai, maent yn amhrisiadwy serch hynny yn rhan o'r llwybr peillwyr ac mae gofyn eu diogelu rhag difrod neu aflonyddwch.


**7.58** Mae'r cynefin peillwyr presennol allweddol yn cynnwys dynodiadau statudol, man gwyrdd lleol neu lle mae prosiectau neu fentrau peillwyr presennol yn digwydd. Nid yw'r ardaloedd a gynhwysir yn gynhwysfawr a bydd tir arall o werth uchel ar gyfer peillwyr, er enghraifft tir mewn tirfeddiannaeth breifat.

**7.59** Disgrifir y gwahanol fathau o goridorau peillwyr strategol yn 'Llwybrau Peillwyr ar gyfer 11 Anheddiad' **[Gweler cyfeiriad** 85**]**.

**7.60** Dangosir y Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus i annog archwilio natur rhwng yr asedau peillwyr allweddol ac ar hyd y coridorau strategol.

**7.61** Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â chwmpas pob prosiect allweddol i'w gweld yng Nghynllun Rheoli Seilwaith Gwyrdd Saundersfoot **[Gweler cyfeiriad** 86**]**.

## Ffigur 7.9: Llwybr Peillwyr Saundersfoot




Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y goron a hawl cronfa ddata 2022

CB:JT EB:Tomlinson_J LUC 11993_010_r0_BaseMapRequest221010 10/10/2022
Ffynhonnell: OS

**Prosiectau peillwyr allweddol o fewn y Cynllun Rheoli SG:**

**SAU1** Dynodi llwybrau yn The Incline yn well
**SAU4** Gwella'r ddarpariaeth gynefinoedd yng Ngardd Synhwyraidd Saundersfoot
**SAU6** Gwella gwyrddu'r B4316
**SAU7** Cyflwyno ac adfer cafnau blodau uchel yn Harbwr Saundersfoot
**SAU9** Gwella tir segur ar Milford Street
**SAU10** Cyfoethogi ymylon ffordd gwyrdd y tu allan i Ysgol Saundersfoot

**Cynefin peillwyr presennol allweddol:**

A SoDdGA Bae Waterwynch i Saundersfoot
B Gardd Synhwyraidd Saundersfoot

Coridor Bwytadwy
Coridor Glaswelltir
Coridor Amaethyddol
Hawliau Tramwy Cyhoeddus

# Llwybr Peillwyr Tyddewi

**7.62** Mae Llwybr Peillwyr Tyddewi yn cynnwys:

- Asedau peillwyr presennol allweddol
- Coridorau peillwyr strategol
- Prosiectau allweddol

**7.63** Caiff y tair agwedd hyn eu llywio gan yr adolygiad sylfaenol, ymweliadau safle ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

**7.64** Gan adlewyrchu Egwyddor Peillwyr Gyffredinol **[Gweler cyfeiriad** 87**]** 1a 'Gwarchod a gwella cynefin peillwyr presennol', darperir y cynefin peillwyr presennol allweddol hefyd ar gyfer pob anheddiad. Er nad yw'r rhain yn ffocws i brosiect allweddol efallai, maent yn amhrisiadwy serch hynny yn rhan o'r llwybr peillwyr ac mae gofyn eu diogelu rhag difrod neu aflonyddwch.


**7.65** Mae'r cynefin peillwyr presennol allweddol yn cynnwys dynodiadau statudol, man gwyrdd lleol neu lle mae prosiectau neu fentrau peillwyr presennol yn digwydd. Nid yw'r ardaloedd a gynhwysir yn gynhwysfawr a bydd tir arall o werth uchel ar gyfer peillwyr, er enghraifft tir mewn tirfeddiannaeth breifat.

**7.66** Disgrifir y gwahanol fathau o goridorau peillwyr strategol yn 'Llwybrau Peillwyr ar gyfer 11 Anheddiad' **[Gweler cyfeiriad** 88**]**.

**7.67** Dangosir y Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus i annog archwilio natur rhwng yr asedau peillwyr allweddol ac ar hyd y coridorau strategol.

**7.68** Ceir mwy o wybodaeth ynglŷn â chwmpas pob prosiect allweddol yng Nghynllun Rheoli Seilwaith Gwyrdd Tyddewi **[Gweler cyfeiriad** 89**]**.

## Ffigur 7.10: Llwybr Peillwyr Tyddewi




Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint y goron a hawl cronfa ddata 2022

CB:JT EB:Tomlinson_J LUC 11993_010_r0_BaseMapRequest221010 10/10/2022
Ffynhonnell: OS

**Prosiectau peillwyr allweddol o fewn y Cynllun Rheoli SG:**

**STD1** Cyflenwi rhandiroedd / lle tyfu cymunedol newydd ar Ffordd Glasfryn
**STD2** Cyflwyno gwyrddu trefol o fewn ardaloedd preswyl presennol
**STD6** Gwella safle Cadeirlan Tyddewi, Llys yr Esgob, a'r Fynwent i beillwyr
**STD7** Datblygu darpariaeth peillwyr yng Nghanolfan Groeso ac Oriel y Parc
**STD8** Gwella potensial cynefin caeau chwarae yn Ysgol Penrhyn Dewi
**STD9** Cyfoethogi'r cynefin presennol ym Maes Parcio Merivale / Llys yr Esgob
**STD10** Mynd i'r afael â'r bylchau yn Llwybr Peillwyr Tyddewi
**STD11** Gwyrddu Heol Non ymhellach
**STD13** Hyrwyddo cyfleoedd i dyfu bwyd cymunedol yn lleol

**Cynefin peillwyr presennol allweddol**

A ACA Tiroedd Comin Gogledd Sir Benfro
B ACA Tyddewi
C Llwybr Peillwyr Tyddewi Caru Gwenyn
D Erw Dewi, Gardd Gymunedol Tyddewi

Coridor Bwytadwy
Coridor Coetir
Coridor Gwlyptir / Morol
Coridor Glaswelltir
Coridor Amaethyddol
Carreg Sam Drefol
Hawliau Tramwy Cyhoeddus

# Llwybr Peillwyr Dinbych-y-pysgod

**7.69** Mae Llwybr Peillwyr Dinbych-y-pysgod yn cynnwys:

- Asedau peillwyr presennol allweddol
- Coridorau peillwyr strategol
- Prosiectau allweddol

**7.70** Caiff y tair agwedd hyn eu llywio gan yr adolygiad sylfaenol, ymweliadau safle ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

**7.71** Gan adlewyrchu Egwyddor Peillwyr Gyffredinol **[Gweler cyfeiriad** 90**]** 1a 'Gwarchod a gwella cynefin peillwyr presennol', darperir y cynefin peillwyr presennol allweddol hefyd ar gyfer pob anheddiad. Er nad yw'r rhain yn ffocws i brosiect allweddol efallai, maent yn amhrisiadwy serch hynny yn rhan o'r llwybr peillwyr ac mae gofyn eu diogelu rhag difrod neu aflonyddwch.


**7.72** Mae'r cynefin peillwyr presennol allweddol yn cynnwys dynodiadau statudol, man gwyrdd lleol neu lle mae prosiectau neu fentrau peillwyr presennol yn digwydd. Nid yw'r ardaloedd a gynhwysir yn gynhwysfawr a bydd tir arall o werth uchel ar gyfer peillwyr, er enghraifft tir mewn tirfeddiannaeth breifat.

**7.73** Disgrifir y gwahanol fathau o goridorau peillwyr strategol yn 'Llwybrau Peillwyr ar gyfer 11 Anheddiad' **[Gweler cyfeiriad** 91**]**.

**7.74** Dangosir y Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus i annog archwilio natur rhwng yr asedau peillwyr allweddol ac ar hyd y coridorau strategol.

**7.75** Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â chwmpas pob prosiect allweddol i'w gweld yng Nghynllun Rheoli Seilwaith Gwyrdd Dinbych-y-pysgod **[Gweler cyfeiriad** 92**]**.

## Ffigur 7.11: Llwybr Peillwyr Dinbych-y-pysgod




**Prosiectau peillwyr allweddol o fewn y Cynllun Rheoli SG:**

**TEN1** Hyrwyddo gwyrddu'r Hyb Trafnidiaeth
**TEN3** Cyflenwi ymyriadau gwyrddu ym Mur y Dref
**TEN6** Gwella gerddi Battery Gardens i beillwyr
**TEN7** Annog planhigion blodeuog sy'n denu peillwyr i sefydlu yng Ngerddi Jiwbilî
**TEN8** Cynyddu bioamrywiaeth yn Eglwys y Santes Fair
**TEN9** Cyflwyno planhigion brodorol ar hyd y Promenâd
**TEN10** Darparu hafan i beillwyr yng Nghastell Dinbych-y-pysgod
**TEN15** Creu clawdd peillwyr yn Ysgol Greenhill
**TEN16** Cyflenwi lle tyfu yn Ysgol Gynradd Sant Teilo
**TEN22** Hyrwyddo tyfu bwyd cymunedol yn Ninbych-y-pysgod

**Cynefin peillwyr presennol allweddol:**

A SoDdGA Clogwyni Dinbych-y-pysgod ac Ynys Catrin
B SoDdGA Trwyn Lydstep a Thwyni Dinbych-y-pysgod

Coridor Bwytadwy
Coridor Coetir
Coridor Gwlyptir / Morol
Coridor Glaswelltir
Coridor Amaethyddol
Carreg Sarn Drefol
Hawliau Tramwy Cyhoeddus

# Coridorau peillwyr strategol

**7.76** Ar gyfer pob un o'r 11 anheddiad, mae coridorau peillwyr strategol wedi'u nodi. Mae'r coridorau hyn yn elfen allweddol o rwydweithiau ecolegol ehangach, gan gysylltu ardaloedd peillwyr craidd a chynefinoedd cerrig sarn. Maen nhw'n galluogi rhywogaethau i symud, gwasgaru, mudo ac atgynhyrchu a dod yn fwy gwydn i fygythiadau fel newid yn yr hinsawdd a cholli cynefin.

**7.77** Mae'r coridorau hyn hefyd yn adlewyrchu ardaloedd cyfle ffocws ar gyfer gwella cysylltedd i beillwyr, er enghraifft llain laswellt barhaus eang sy'n cael ei thorri’n fyr ar hyn o bryd ond sydd â photensial i'w gwella. Nodwyd y rhain gan ddefnyddio modelu addasrwydd cynefinoedd peillwyr a setiau data Blines, yn ogystal ag ymweliadau safle a delweddau o'r awyr.

**7.78** Amlinellir camau generig i gryfhau swyddogaeth a pharhad y coridorau hyn isod.

**7.79** Efallai y bydd gan ardaloedd y tu allan i'r coridorau strategol bwysigrwydd posibl o hyd ar gyfer peillwyr a dylid eu hystyried o hyd fel rhan o gynigion ar gyfer creu, gwella a chysylltu cynefinoedd peillwyr.

## Coridorau coetir

**7.80** Mae adnoddau blodeuog ar gyfer peillwyr yn aml yn brin tua dechrau’r flwyddyn cyn prif gyfnod blodeuo planhigion llysieuol mewn lleiniau ymyl ffordd, ffiniau caeau a dolydd. Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, mae llwyni a choed blodeuol mewn coedwigoedd, yn ogystal â fflora daear coetir fel clychau'r gog, blodau’r gwynt a fioledau yn gallu darparu ffynonellau gwerthfawr o neithdar a phaill.

**7.81** Bydd creu ychydig fetrau o gynefin heb ei drin na’i dorri ar hyd ymylon coetir lle bydd efwr, gorthyfail, ysgall, y bengaled, llysiau’r gingroen a rhai mieri yn gallu tyfu o fudd i beillwyr. Gall rhodfeydd a llennyrch estyn y cynefin agored

hwn sy'n cefnogi'r amodau cynnes a heulog sydd orau gan beillwyr. Gall creu ardaloedd o goedlan, pren marw, platiau gwreiddiau wedi'u dinoethi, topograffi amrywiol a choetir gwlyb hefyd ddarparu cynefin i beillwyr ar wahanol gyfnodau o'u cylch bywyd.

## Coridorau bwytadwy

**7.82** Gall gerddi cymunedol a choridorau bwytadwy ddarparu cynefin rhagorol i beillwyr ond hefyd gwasanaethu'r gymuned leol ar gyfer cyfleoedd fforio a defnydd hamdden. Gallant leihau effaith tlodi bwyd mewn ardaloedd incwm isel a galluogi trigolion i gael at fwy o fwyd maethlon.

**7.83** Bydd plannu coed ffrwythau, llysiau a pherlysiau sy'n blodeuo, plannu rhywogaethau brodorol sy'n dwyn ffrwyth, aeron neu gnau yn lle gwrychoedd addurnol neu i lenwi bylchau mewn gwrychoedd yn darparu ar gyfer pobl a pheillwyr. Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru wedi cynhyrchu rhestr o'r 50 o **[Gweler cyfeiriad** 93**]** blanhigion bwytadwy gorau ar gyfer peillwyr. Mae hyn yn cynnig dewis o goed ffrwythau, i'w tyfu am fwyd wrth ddenu peillwyr. Ymhlith y rhywogaethau y gellid eu plannu mae afalau, gellyg, mieri, gwern, eirin a chnau cyll.

## Coridorau morol neu wlyptir

**7.84** Mae nodweddion gwlyb fel camlesi a chronbyllau gyda chors ymylol, ynghyd â ffosydd yn cynnal blodau gwlyptir fel gold y gors, briwlys y gors, erwain a helyglys pêr, sydd i gyd yn ffynonellau da o baill a neithdar.

**7.85** Mae angen 'lagwnau pryfed hofran' ar lawer o bryfed hofran ar gyfer eu cyfnod bywyd larfaol dyfrol. Gall pyllau dŵr neu gynefin gwlyb gynnal larfae peillwyr megis pryfed drôn a gallant hefyd ddarparu nodweddion blodeuol os defnyddir y planhigion cywir e.e. mintys y dŵr, llysiau'r-milwr coch, llysiau'r angel a briwlys y gors sydd o fudd i beillwyr eraill hefyd.

**7.86** Gan amlaf, coridorau morol yw'r rhai ar ben wynebau clogwyn neu ar lan y môr lle bydd planhigion yn llawer mwy agored i lwch halen yn yr aer a chronni halen yn y pridd. Dylid plannu planhigion brodorol sy’n goddef halen er mwyn sicrhau sefydliad llwyddiannus. Gan fod llawer o'r aneddiadau yn arfordirol, bydd goddef halen hefyd yn ffactor i'w ystyried ar gyfer rhai coridorau glaswelltir a nodwyd.

## Coridorau glaswelltir

**7.87** Mae glaswelltiroedd llawn blodau gwyllt yn hanfodol i lawer o bryfed sy'n peillio. Gall glaswelltiroedd ar briddoedd llai ffrwythlon fod yn hynod o gyfoethog o flodau, gyda rhywogaethau fel pys-y-ceirw, briallu Mair, llygad llo mawr, briwydd a thegeirianau.

**7.88** Un o'r ffordd hawsaf i hyrwyddo coridor peillio yw drwy newid y drefn torri gwair. Gall lleiniau ymyl ffordd, argloddiau, llethrau a pherimedrau neu gorneli mannau agored i gyd gael eu torri'n llai aml er mwyn caniatáu i blanhigion flodeuo. Dylai’r drefn torri gwair anelu at gydbwysedd rhwng diogelwch, mwynder ac anghenion peillwyr/bywyd gwyllt.

**7.89** Mae glaswelltiroedd corsiog, fel dolydd gwellt y gweunydd a geir yn ACA Tiroedd Comin Gogledd-orllewin Sir Benfro, hefyd yn hynod werthfawr i beillwyr. Bydd angen cynnal trefn bori briodol er mwyn cyflawni cymuned tywarchen sy’n llawn rhywogaethau sy'n cynnal nifer amrywiol o beillwyr.

## Coridorau amaethyddol

**7.90** Mae ymylon caeau âr yn lleoliadau delfrydol ar gyfer cynyddu cynefin peillwyr a chysylltedd i gefn gwlad ehangach. Yn aml maent yn llai ffrwythlon, yn llai cynhyrchiol neu'n anhygyrch i beiriannau fferm modern, ac felly'n cael eu hystyried yn llai gwerthfawr ar gyfer cynhyrchu cnydau. Gall sefydlu cymysgedd o lysiau a blodau gwyllt brodorol mewn lleiniau neu stribedi mewn caeau âr neu

o'u cwmpas ddarparu ffynonellau da o baill a neithdar i bryfed peillio o fis Mawrth hyd at fis Hydref.

**7.91** Bydd yr ymylon yn gweithio orau ar y cyd â gwaith rheoli gwrychoedd sensitif i ddarparu ffynonellau cynnar o baill a neithdar o flodau’r ddraenen wen a'r ddraenen ddu. Mae gwrychoedd yn darparu blodau, cysgod rhag gwynt, planhigion bwyd ar gyfer larfae peillwyr a safleoedd gaeafu yng ngwaelodion y gwrychoedd.

**7.92** Bydd gan y rhan fwyaf o dir amaethyddol botensial i adfer neu wella nodweddion cynefin peillwyr. Yn aml, bydd angen ymgysylltu â thirfeddianwyr preifat ar gyfer hyn. Bwriad y coridorau hyn yw dynodi athreiddedd cyffredinol i'r matrics amaethyddol yn hytrach na choridor a ddiffinnir yn benodol yn ofodol.

## Coridorau mosaig cynefin

**7.93** Weithiau, bydd coridorau naturiol drwy'r dirwedd e.e. coridorau afonydd, yn cynnwys llawer o wahanol fathau o gynefinoedd, megis mosaigau o wlyptir, glaswelltir gwlyb, glaswelltir llawn rhywogaethau, cymunedau perlysiau tal, prysgwydd, rhostir a phocedi gwasgaredig o goetir. Gellir gwella a chreu amrywiaeth o nodweddion sy'n cynnal peillwyr, megis pren marw, daear foel, pentyrrau cynefin, tyweirch glaswellt amrywiol, deiliach marw, rhedyn agored a phrysgwydd.

## Cerrig sarn trefol

**7.94** Os yw lle’n brin, gall ychwanegu mwy o gafnau plannu, gwelyau blodau a basgedi crog amrywiol at yr amgylchedd cyhoeddus a'r ystadau tai ddarparu ffynonellau da o baill a neithdar o'r gwanwyn i'r hydref, mannau diogel i fridio a gaeafu a hedfan i ffwrdd. Gall waliau a phontydd gynnal dringwyr blodeuol brodorol megis Iorwg a Gwyddfid. Mae gan hen waith brics a gwaith maen ei gynefin blodeuol ei hun hefyd gyda chreulys Rhydychen, triaglog goch, trwyn-y-llo dail eiddew ac Ysgaw.

**7.95** Gallant hefyd ddarparu amrywiaeth o fuddion eraill, gan gynnwys gwella ansawdd aer drwy hidlo llygryddion a gwella iechyd meddwl a chorfforol drwy ddod â phobl yn agosach at fyd natur drwy greu mannau gwyrdd deniadol. Gallant hefyd gynyddu buddion economaidd am fod ychwanegu planhigion, blodau a llwyni yn helpu i feithrin amgylchedd cadarnhaol gan ddenu mwy o gwsmeriaid i drefi ac efallai cynyddu gwerthoedd eiddo.

# Pennod 8

## Cyflawni - Strategaethau Peillwyr

**8.1** Mae’r Llwybrau Peillwyr Anheddiad **[Gweler cyfeiriad** 94**]** yn cynnwys amrywiaeth o gamau gweithredu i greu, adfer, gwella a chysylltu cynefinoedd peillwyr. Darperir ystyriaethau cynnal a chadw a rheoli ar gyfer y mathau canlynol o gynefinoedd ac ymyriadau peillwyr:

- Dolydd blodau gwyllt a lleiniau ymyl ffordd;
- Cafnau blodau a basgedi crog;
- Gerddi preifat;
- Gerddi a pherllannau cymunedol;
- Gwrychoedd sy’n llawn o rywogaethau sy’n blodeuo a dwyn ffrwyth;
- Cloddiau gwenyn a glöynnod byw;
- Lagwnau pryfed hofran;
- Fflora daear coetir; ac
- Ymylon caeau âr.

**8.2** Dylai’r broses o gyflenwi'r prosiectau allweddol a amlygwyd o fewn y llwybrau peillwyr hefyd gydredeg ag egwyddor peillwyr gyffredinol 5 **[Gweler cyfeiriad** 95**]**: 'Sicrhau rheoli tymor hir’.

# Ystyriaethau rheoli a chynnal a chadw

## Dolydd blodau gwyllt a lleiniau ymyl ffordd

**8.3** Gall dolydd blodau gwyllt drawsnewid amgylcheddau adeiledig a mannau gwyrdd blinedig o bob lliw a llun. Mae'r cynefinoedd hyn yn addas ar gyfer: gerddi; parciau; mannau cymunedol; caeau; neu waelodion gwrychoedd a waliau cerrig. Mae lliw ac amrywiaeth blodau gwyllt yn ychwanegu diddordeb gweledol o'r gwanwyn hyd at yr haf.

**8.4** Mae’r ffordd o greu dôl blodau gwyllt yn dibynnu ar yr ardal, sef a yw ardal bresennol sy'n llawn blodau yn cael ei gwella neu a yw'r ardal yn brin o rywogaethau. Y naill ffordd neu’r llall, drwy blannu neu hau amrywiaeth o flodau gwyllt sydd â gwahanol amseroedd blodeuo, gallwn helpu peillwyr i gael ystod fwy amrywiol o baill a neithdar i fwydo arnynt drwy gydol y flwyddyn.

**8.5** Mae rheoli dolydd yn allweddol i gael dôl sy'n blodeuo yn y gwanwyn neu'n blodeuo yn yr haf. Bydd cael y ddau beth yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i beillwyr fwydo am fwy o amser. Er bod dolydd blodau gwyllt yn gynefinoedd sy'n cael eu rheoli, nid oes angen llawer o waith cynnal a chadw arnynt. Mae Cyngor Sir Dorset yn arbed tua £93,000 y flwyddyn **[Gweler cyfeiriad** 96**]** trwy dorri lleiniau ymyl ffordd gwledig dim ond pan fydd angen ac mae Cyngor Bwrdeistref Burnley yn amcangyfrif ei fod yn arbed £58,000 y flwyddyn o reoli dolydd **[Gweler cyfeiriad** 97**]**. Amcangyfrifa Cyngor Sir Fynwy ei fod yn arbed tua £35,000 bob blwyddyn o gwtogi ar dorri gwair ymylon priffordd **[Gweler cyfeiriad** 98**]** ac mae Rotherham yn dweud eu bod yn arbed £25,000 y flwyddyn **[Gweler cyfeiriad** 99**]** o ostwng ffioedd torri gwair.

**8.6** Wrth ddatblygu ardal blodau gwyllt, y canllaw gorau bob amser yw cael gwared ar yr holl doriadau. Mae hyn yn helpu i gadw ffrwythlondeb pridd ar leiafswm sy'n annog tyfiant blodau gwyllt. Mae gadael sgil-gynhyrchion yn ychwanegu ffrwythlondeb at y pridd ac yn annog glaswelltau grymus i dyfu sy'n

drech na'r blodau gwyllt yn y storfa hadau yn y pridd. Er mwyn rheoli'n briodol, mae gofyn prynu peiriant torri a chasglu gwair unwaith.

**8.7** Gall rhai gredu bod dolydd blodau gwyllt yn anniben neu wedi tyfu'n wyllt. Mae arwyddion yn bwysig er mwyn rhoi gwybod i bobl beth sy'n cael ei wneud a pham. Ar gyfer dolydd mwy o faint, mae'n aml yn syniad da torri gwair llwybrau troellog drwyddynt. Dylai'r llwybrau hyn ystyried llinellau awydd a phwyntiau o ddiddordeb ar hyd y ffordd. Gall llwybrau o'r fath helpu i annog pobl i archwilio a mwynhau'r bywyd gwyllt sydd ynddo.

## Canllawiau pellach

- Buglife – **[Gweler cyfeiriad** 100**]**
- Buglife – **[Gweler cyfeiriad** 101**]**
- Magnificent Meadows – **[Gweler cyfeiriad** 102**]**
- Plantlife – **[Gweler cyfeiriad** 103**]**
- Cyngor Dorset – **[Gweler cyfeiriad** 104**]**

# Cafnau blodau a basgedi crog

**8.8** Plannwyd rhywogaethau addurnol eisoes mewn llawer o ardaloedd yn yr amgylchfyd cyhoeddus. Nid yw dewis planhigion mwy amrywiol sy'n frodorol neu'n wydn i'r hinsawdd yn creu unrhyw waith rheoli ychwanegol ond mae'n cynyddu'r gwerth bioamrywiaeth yn fawr. Gall prynu cafnau blodau neu fasgedi crog neu greu gwelyau blodau ddarparu cost ymlaen llaw ond bydd hyn yn cael ei gydbwyso gan leoedd mwy deniadol – gan annog ymweliadau hirach, profiadau gwell, a mwy o wariant.

**8.9** Wrth blannu gwrychoedd, coed a llwyni, mae'n bwysig dewis rhywogaethau brodorol, yn ddelfrydol rhywogaethau blodeuol sydd o fudd i beillwyr.

**8.10** Gall cynnal a chadw basgedi a chafnau ychwanegu at y gost, ond yn aml gall y rhain gael eu noddi a gall busnesau a grwpiau cymunedol ofalu amdanynt mewn partneriaeth â'r cyngor. Mae angen eu dyfrio’n rheolaidd yn uniongyrchol i'r pridd yn hytrach na thros y planhigion/blodau eu hunain, hyd yn oed os yw'n bwrw glaw, tuag unwaith yr wythnos, a bydd hyn yn cynyddu yn ystod yr haf. Mewn rhai achosion, bydd angen defnyddio bwyd planhigion.

**8.11** Mae llawer o flodau y gellir eu plannu sy'n hunanlanhau ac ni fydd angen tynnu blodau sydd wedi marw; hwn yw’r opsiwn gorau i arbed costau cynnal a chadw ychwanegol.

## Canllawiau pellach

- Cyngor Sir Abertawe – **[Gweler cyfeiriad** 105**]**

# Gerddi preifat

**8.12** Nid oes angen llawer o le i ddechrau gardd peillwyr. Gall erw neu ddwy neu ddim ond gardd falconi ddarparu cynefin cerrig sarn pwysig ar gyfer peillwyr a phryfed eraill. Dylid gadael rhan o'r ardd wedi’i thrin yn llai dwys ac yn fwy anffurfiol, i ddarparu safleoedd nythu addas.

**8.13** Mae'r rhan fwyaf o blanhigion i’w plannu allan (h.y. fel y'u gwerthir mewn stribedi polystyren mewn canolfannau garddio a siopau DIY), planhigion blodau 'dwbl' **[Gweler cyfeiriad** 106**]**, a newyddbethau garddwriaethol eraill wedi’u cymysgrywio’n fawr yn llai addas ar gyfer peillwyr a dylid plannu blodau brodorol yn eu lle (gweler 'Dewis rhywogaethau').

**8.14** Ni ddylid defnyddio plaladdwyr, chwynladdwyr na phryfladdwyr o unrhyw fath yn yr ardd peillwyr nac o'i chwmpas.

## Canllawiau pellach

- Buglife – **[Gweler cyfeiriad** 107**]**
- Gardd Fotaneg Cymru – **[Gweler cyfeiriad** 108**]**
- Cyfeillion y Ddaear – **[Gweler cyfeiriad** 109**]**

# Gerddi a pherllannau cymunedol

**8.15** Gall gerddi cymunedol ddarparu cynefin rhagorol i beillwyr ond hefyd gwasanaethu'r gymuned leol ar gyfer cyfleoedd fforio a defnydd hamdden, er enghraifft, perllannau. Maent yn fuddiol i'r amgylchedd, ac i iechyd a lles **[Gweler cyfeiriad** 110**]** aelodau'r gymuned. Gallant leihau effaith tlodi bwyd mewn ardaloedd incwm isel a chaniatáu i drigolion gael mwy at fwyd maethlon.

**8.16** Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru wedi cynhyrchu rhestr o'r 50 o **[Gweler cyfeiriad** 111**]** blanhigion bwytadwy gorau ar gyfer peillwyr. Mae hyn yn cynnig dewis o goed ffrwythau, llysiau sy'n blodeuo a pherlysiau i'w tyfu am fwyd wrth ddenu peillwyr. Ymhlith y rhywogaethau y gellid eu plannu mae afalau, gellyg, mwyar, cyrens duon, ceirios ac eirin.

**8.17** Mae gofyn rheoli dwys ar erddi cymunedol a choridorau bwytadwy i'w hatal rhag mynd yn ddiffaith a digariad. Mae hunandrefnu rhwng aelodau o'r gymuned yn cyfrannu at gynllun rheoli hirdymor da. Cynnwys gwirfoddolwyr a sicrhau parhad yw rhai o'r elfennau allweddol i sicrhau llwyddiant yr ardd.

**8.18** Gall yr ardd gymunedol gynnig cyfleoedd i hyfforddi gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol mewn garddwriaeth a magu'r hyder sydd ei angen arnynt i barhau. Mae'n fuddiol creu grŵp llywio o aelodau'r gymuned ac aelodau o'r cyngor lleol i hwyluso cyfathrebu rheolaidd mewn perthynas â'r ardd neu'r coridor. Mae ymchwil gan 12 prosiect gardd gymunedol yng Ngogledd Iwerddon wedi rhoi gwybodaeth am sut i gynnal eich gardd gymunedol **[Gweler cyfeiriad** 112**]**.

**8.19** Gan fod gerddi cymunedol fel arfer yn cael eu rheoli gan y gymuned leol a gwirfoddolwyr, mae hyn yn lleddfu'r pwysau ar y cyngor lleol i wario arian ar waith cynnal a chadw ychwanegol. Mae datblygu a chynnal gardd yn llai costus nag ardal o barcdir, a hynny'n rhannol am nad oes angen llawer o dir ar erddi a bod angen arnynt 80% o'u cost llafur **[Gweler cyfeiriad** 113**]**. Gall cynghorau lleol ddarparu daliadau tir i'r gymuned a darparu'r offer sydd eu hangen arnynt i greu gardd gymunedol lwyddiannus.

## Canllawiau pellach ac astudiaethau achos

- Llywodraeth y DU – **[Gweler cyfeiriad** 114**]**
- CLAS Cymru – **[Gweler cyfeiriad** 115**]**
- The Orchard Project – **[Gweler cyfeiriad** 116**]**
- Llandudoch – **[Gweler cyfeiriad** 117**]**
- Bwyd Bendigedig Port – **[Gweler cyfeiriad** 118**]**
- Gardd Gymunedol Tyddewi – **[Gweler cyfeiriad** 119**]**

# Gwrychoedd sy'n llawn o rywogaethau sy'n blodeuo a dwyn ffrwyth

**8.20** Gwrychoedd yw un o'r cynefinoedd pwysicaf i fywyd gwyllt yn y DU **[Gweler cyfeiriad** 120**]** ac os cânt eu rheoli'n gywir byddant yn cynnal amrywiaeth o beillwyr. Gall coed gwrych sy'n blodeuo fel ceirios gwyllt, helyg neu fasarn bach neu goed afalau surion sydd wedi tyfu'n rhy fawr ddarparu cynefin gwerthfawr i beillwyr. Gall coed gwrych hefyd gynnig cynefin pwysig i larfae peillwyr. Gall y dail fod yn ffynhonnell fwyd i wyfynod a glöynnod byw llysysol. Pydredd y galon a thyllau pydredd o'r awyr yw'r safleoedd bridio ar gyfer gwahanol bryfed hofran, a gall unrhyw ganghennau neu foncyffion marw yn yr haul fod yn safle bridio ar gyfer amrywiaeth o wenyn unig a gwenyn meirch, gan gynnwys y saerwenynen goch – sy'n peillio coed ffrwythau.

**8.21** Mae cynefinoedd gwrych hanfodol pellach yn cynnwys cloddiau gwrych, ffosydd ac ymylon. Trwy reoli gwrychoedd i ddarparu'r nodweddion a'r rhywogaethau hyn gallwn gynnal y rhwydwaith cynefinoedd ledled Sir Benfro ar gyfer peillwyr. Mae yna lu o ganllawiau ar reoli cynefinoedd ar gael. Mae hyn yn cynnwys archwilio’r stoc bresennol o rywogaethau ac ychwanegu mwy os oes angen, torri gwrychoedd ar gylchdroadau tair i bedair blynedd a chaniatáu i ymylon gwrychoedd blodeuog ddatblygu.

## Canllawiau pellach

- Farm Wildlife – [**Gweler cyfeiriad** 121]
- Ymddiriedolaeth y Bobl er Rhywogaethau mewn Perygl – [**Gweler cyfeiriad** 122]
- Hedgelink – [**Gweler cyfeiriad** 123]

# Cloddiau gwenyn a glöynnod byw

**8.22** Er mwyn creu lle Clawdd Gwenyn a Glöynnod byw, mae angen llafur a deunyddiau ymlaen llaw. Felly byddai hyn yn fwyaf addas i brosiect cymunedol, fel ysgolion neu wirfoddolwyr lleol, ond gyda chymorth gan ymddiriedolaethau bywyd gwyllt lleol neu gynghorau lleol. Ar ôl ei sefydlu, prin yw’r gwaith cynnal a chadw a chanolbwyntir ar sicrhau nad yw llystyfiant yn ymsefydlu arno, nac yn cysgodi’r ardaloedd a grëwyd.

**8.23** Dylai'r rheolwyr glirio hanner y clawdd yn ôl bob blwyddyn ym mis Chwefror er mwyn lleihau aflonyddwch a chreu cynefinoedd amrywiol, neu ar sail gylchdro os oes nifer o gloddiau. Gall plannu o gwmpas ymyl y cynefin hwn neu ychwanegu nodweddion coed marw hefyd ddarparu cynefin nythu ychwanegol ar gyfer rhywogaethau eraill o beillwyr.

## Canllawiau pellach

- Canolfan Data Bioamrywiaeth Genedlaethol Iwerddon – How-to-Guide: **[Gweler cyfeiriad** 124]
- Buglife – **[Gweler cyfeiriad** 125]

# Lagwnau pryfed hofran

**8.24** Mae lagwnau pryfed hofran yn ffordd gyflym a hawdd o ychwanegu cynefin bywyd gwyllt at barciau neu erddi. Gallant ddarparu gweithgaredd gwych ar gyfer grwpiau ysgol a chymunedol drwy greu lagŵn yn syml mewn boncyff coeden neu o gynwysyddion plastig a mân ddeiliach. Y lle gorau i'r rhain fydd ardaloedd cysgodol lle mae anweddiad yn is. Mae nifer o larfae pryfed hofran yn byw mewn pren sy'n pydru, gyda boncyffion gwlyb sy'n pydru yn cael eu ffafrio. Bydd cyflwyno cynefinoedd coed marw sy'n amgylchynu pyllau yn darparu noddfeydd i bryfed hofran.

**8.25** Fel rheol, dylid rheoli cynefinoedd i gynnal amrywiaeth strwythurol a rhywogaethau i ddarparu ar gyfer peillwyr cyffredinol ac arbenigol trwy gydol eu cylch bywyd.

## Canllawiau pellach

- The Buzz Club - **[Gweler cyfeiriad** 126]
- Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol - **[Gweler cyfeiriad** 127]

# Fflora daear coetir

**8.26** Mae ymylon sy'n wynebu'r dwyrain a'r de sy'n cael yr haul ac sy'n cynhesu gyntaf yn y bore yn ddefnyddiol i'r nifer o beillwyr sy'n fforio yn gynnar yn y dydd, ac maen nhw'n tueddu hefyd i ddarparu gwell lloches rhag y

prifwyntoedd. Serch hynny, gall ymylon cysgodol sy'n wynebu'r gogledd fod yn ddefnyddiol i beillwyr yn ystod sychder neu gyfnodau poeth. Drwy reoli llennyrch rhodfeydd yn ofalus, gellir creu llennyrch sy'n dal yr haul o fore tan nos.

**8.27** Wrth reoli coetiroedd, mae'n bwysig ystyried clefydau coed **[Gweler cyfeiriad** 128**]**, yn arbennig mewn llarwydd (Phytophthora ramorum) ac ynn (Clefyd coed ynn) a fu'n effeithio ar safleoedd yn y DU a'r tu hwnt. Gall canfod coed ifanc sydd wedi'u heintio yn gynnar, a'u gwaredu'n gynnar, arafu colled coed ynn a choetir. Dylai gwaith rheoli coetir ddilyn mesurau bioddiogelwch.

**8.28** Mae rheoli coetir fel hyn yn cyd-fynd â Chynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro **[Gweler cyfeirnod** 129**]** (2020-2024) sydd â pholisïau ar warchod a gwella tirweddau a morluniau'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys coetiroedd lled-naturiol.

## Canllawiau pellach

- Buglife - **[Gweler cyfeiriad** 130**]**
- Defra - **[Gweler cyfeiriad** 131**]**
- Ymddiriedolaeth Gwarchod y Cacwn - **[Gweler cyfeiriad** 132**]**

# Ymylon caeau âr

**8.29** Mae ymylon caeau âr yn darparu cysylltedd amrywiaeth o gynefinoedd ledled y DU sy'n eu gwneud yn ardaloedd allweddol ar gyfer peillwyr. Gall ymylon glaswellt sy'n llawn blodau gwyllt ddenu peillwyr sy'n bwydo ar neithdar fel cacwn a phryfed hofran.

**8.30** Mae gan Sir Benfro gyfran uchel o blanhigion âr prin o ganlyniad i'r amrywiaeth o swbstrad, gyda phlanhigion âr ymhlith y grwpiau o blanhigion sydd dan fygythiad mwyaf yng Nghymru. Mae llawer o'r rhywogaethau planhigion âr nodedig hyn yn ffynonellau hynod werthfawr o neithdar a phaill i

nifer o rywogaethau peillwyr er enghraifft, llysiau'r-gwrid y tir âr, pabïau coch a glas yr ŷd.

**8.31** Gellir creu ymylon cae grawnfwyd **[Gweler cyfeiriad** 133**]** sef lleiniau o dir sy'n gorwedd rhwng cnydau grawnfwyd a ffin y cae, wedi'u rheoli'n fwriadol i greu amodau sydd o fudd i beillwyr, a bywyd gwyllt arall. Mae hyn yn cynnwys creu 'llain bywyd gwyllt' 6m o led ger cnwd grawnfwyd, ynghyd ag 1m o 'lain ddi-haint' rhwng y llain bywyd gwyllt a'r cnwd. Nod y llain ddi-haint yw atal chwyn âr rhag lledaenu a lleihau mewnbynnau gan blaladdwyr.

**8.32** Bydd darparu amrywiaeth o gynefinoedd yn denu rhagor o bryfed a pheillwyr, a gall cynefinoedd gynnwys gwrychoedd hynafol, cloddiau glaswelltog, coetiroedd neu gynefin lled-naturiol arall. Yn ogystal, gall ymylon caeau âr ddarparu cyfleoedd **[Gweler cyfeiriad** 134**]** i greu cloddiau chwilod, pentiroedd cadwraeth, annog llystyfiant amrywiol, llawn blodau a chynnal cynefin olynol cynnar ac ati.

## Canllawiau pellach

- RSPB - **[Gweler cyfeiriad** 135**]**
- Buglife - **[Gweler cyfeiriad** 136**]**

# Dewis rhywogaethau

**8.33** Mae egwyddor peillwyr gyffredinol **[Gweler cyfeiriad** 137**]** 2a yn pwysleisio pwysigrwydd dewis planhigion brodorol. Mae cyfnewid planhigion addurnol llai defnyddiol i'w plannu allan am rywogaethau brodorol sy'n denu mwy o beillwyr yn ffordd hawdd o gynyddu cynefin peillwyr. Mae rhestr o enghreifftiau o blanhigion a argymhellir gan Ymddiriedolaeth Gwarchod y Cacwn **[Gweler cyfeiriad** 138**]** a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru **[Gweler cyfeiriad** 139**]** i'w gweld isod ynghyd â manylion amseroedd blodeuo a rhywogaethau maen nhw'n eu denu.

**8.34** Os oes modd, dylid plannu rhywogaethau o darddiad lleol er mwyn cynnal cymeriad y dirwedd a’r treflun. Mae Menter Caru Gwenyn wedi llunio rhestr o rywogaethau **[Gweler cyfeiriad** 140**]** sy'n frodorol i Gymru neu wedi’u cynefino yng Nghymru sy'n rhoi budd i löynnod byw, gwyfynod, gwenyn gwyllt a pheillwyr eraill. Ceir rhagor o wybodaeth am ddewis rhywogaethau ar gyfer coed yn y Strategaeth Plannu Coed Trefol **[Gweler cyfeiriad** 141**]**.

**8.35** Mae Cyngor Sir Penfro yn chwilio am randdeiliaid i ddweud eu dweud yn Tyfu Mannau Gwyrdd Trefol (2022-2023) **[Gweler cyfeiriad** 142**]**. Mae CSP yn hyrwyddo ardaloedd plannu bylbiau a blodau gwyllt, gan gynnwys plannu bylbiau brodorol, i sicrhau'r buddion mwyaf posibl i fyd natur e.e. cennin Pedr Dinbych-y-pysgod, clychau'r gog, eirlysiau, brithegion a sêr y gwanwyn.

# Cyfeiriadau


1 chrome-extension://efaidnbmnnnibpcajpcglclefindmkaj/https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/woodlands-for-wales-action-plan.pdf

2 Schwaab et al. (2021) The role of urban trees in reducing land surface temperatures in European cities. Nature Communications, 12, 6763

3 Wolf et al. (2020) Urban Trees and Human Health: A scoping Review. International Journal of Environmental Research and Public Health 2020, 17, 4371

4 Green Blue Urban. (2015) A guide to the benefits of urban trees. Ar gael yn: www.greenblue.com/wp-content/uploads/2016/05/Book-1-A-Guide-to-the-Benefits-of-Urban-Trees.pdf

5 Coder, KD. (1996) Identified Benefits of Community Trees and Forests, University of Georgia Cooperative Extension Service – Forest Resources Publication FOR96-39

6 Smets, V. et al. (2019) The importance of city trees for reducing net rainfall: comparing measurements and simulations. Hydrology and Earth System Sciences, 23, 3865-3884

7 Kuo, FE a Sullivan, WC, (2001(a)), Environment and Crime in the Inner City. Does Vegetation Reduce Crime Environment and Behaviour 33(3), tt 343 – 367

8 Green Blue Urban. (2015) A guide to the benefits of urban trees. Ar gael yn: www.greenblue.com/wp-content/uploads/2016/05/Book-1-A-Guide-to-the-Benefits-of-Urban-Trees.pdf

9 Wolf et al. (2020) Urban Trees and Human Health: A scoping Review. International Journal of Environmental Research and Public Health 2020, 17, 4371

10 Holtan, M.T., Dieterlen, S.L., Sullivan, W.C. (2015) Social life under cover: Tree canopy and social capital in Baltimore, Maryland. Environmental Behaviour 47, 502-525

11 Parliamentary Office of Science & Technology (2016) Green Space and Health

12 Wolf, K, (2000) Community Image – Roadside Settings and Public Perceptions, University of Washington College of Forest Resources, Factsheet #32

13 Wolf, K, (2003) Public Response to the Urban Forest in Inner-City Business Districts, Journal of Arboriculture 29(3) tt 117 – 126

14 https://www.arfordirpenfro.cymru/canllawiau-cynllunio-atodol-drafft-coed-a-choetiroedd-hydref-2022/

15 https://www.arfordirpenfro.cymru/canllawiau-cynllunio-atodol-drafft-coed-a-choetiroedd-hydref-2022/

16 http://supplementary%20planning%20guidance%20consultations%20-%20pembrokeshire%20coast%20national%20park/

17 http://supplementary%20planning%20guidance%20consultations%20-%20pembrokeshire%20coast%20national%20park/

18 https://www.sir-benfro.gov.uk/bioamrywiaeth/cynlluniau-a-chanllawiau-partneriaeth-natur-sir-benfro

19 https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/woodlands-and-forests/tree-health-in-wales/?lang=cy

20 https://www.arfordirpenfro.cymru/canllawiau-cynllunio-atodol-drafft-coed-a-choetiroedd-hydref-2022/

21 https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/pollinators/love-pollinators/?lang=cy.

22 https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-pryfed-peillio.pdf

23 https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru

24 https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/contents/enacted

25 https://naturalresources.wales/sonarr2020?lang=cy

26 https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/polisi-adnoddau-naturiol-cenedlaethol.pdf

27 https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/?lang=cy

28 https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cynllun-gweithredu-adfer-natur-2015.pdf.

29 https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-pryfed-peillio.pdf

30 https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/south-west-wales-area-statement/?lang=cy

31 https://www.sir-benfro.gov.uk/bioamrywiaeth/cynlluniau-a-chanllawiau-partneriaeth-natur-sir-benfro

32 https://cdn.buglife.org.uk/2019/11/Wales-Threatened-Bee-report_FINAL.pdf

33 https://www.plantlife.org.uk/wales/about-plantlife-cymru/news-press/magnificent-meadows-i#:~:text=Wales%20has%20lost%2097%20percent,fortunes%20of%20our%20vanishing%20meadows.

34 https://www.wtwales.org/news/uk-government-puts-bees-risk

35 https://www.bristol.ac.uk/biology/news/2020/what-are-the-effects-of-climate-change-on-pollinators-and-human-health.html#:~:text=Climate%20change%20is%20predicted%20to,their%20pollinators%20is%20being%20disrupted.

36 https://storymaps.arcgis.com/stories/1bd0035fd7a64db3a2e2e53ceeb4f83c

37 https://cdn.buglife.org.uk/2019/11/Wales-Threatened-Bee-report_FINAL.pdf

38 https://butterfly-conservation.org/sites/default/files/soukb-2015.pdf

39 https://ukbms.org/

40 https://www.biodiversitywales.org.uk/Gl-ynnod-a-Gwyfynod

41 https://royalsocietypublishing.org/doi/10.1098/rspb.2020.0508#:~:text=Unli

ke%20bees%2C%20which%20rarely%20forage,migratory%20%5B60%2C61%5D.

42 https://www.biodiversitywales.org.uk/Caru-Gwenyn

43 https://ukpoms.org.uk/

44 https://ukbms.org/

45 https://www.bumblebeeconservation.org/surveys/

46 https://www.buglife.org.uk/campaigns/get-britain-buzzing-2/

47 https://www.buglife.org.uk/our-work/pollinator-projects/urban-buzz/

48 https://www.buglife.org.uk/our-work/pollinator-projects/urban-buzz/

49 https://bigbutterflycount.butterfly-conservation.org/

50 https://www.mothnight.info/

51 https://observation.org/apps/obsidentify/

52 https://www.inaturalist.org/pages/seek_app

53 https://irecord.org.uk/

54 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/overarching-principles/

55 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/pollinator-trails-for-11-settlements/

56 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/management-and-maintenance/

57 https://www.llyw.cymru/iddyn-nhw-pecyn-cymorth-i-randdeiliad

58 https://ecodewi.org.uk/mini-meadows/

59 https://friendsoftheearth.uk/nature/farming-bees

60 https://friendsoftheearth.uk/nature/farming-bees

61 https://www.ceh.ac.uk/news-and-media/news/pollinator-monitoring-more-pays-itself

62 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/overarching-principles/

63 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/pollinator-trails-for-11-settlements/

64 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/fishguard-and-goodwick/

65 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/overarching-principles/

66 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/pollinator-trails-for-11-settlements/

67 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/haverfordwest/

68 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/overarching-principles/

69 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/pollinator-trails-for-11-settlements/

70 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/milford-haven/

71 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/overarching-principles/

72 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/pollinator-trails-for-11-settlements/

73 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/narberth/

74 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/overarching-principles/

75 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/pollinator-trails-for-11-settlements/

76 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/overarching-principles/

77 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/pollinator-trails-for-11-settlements/

78 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/neyland/

---


79 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/overarching-principles/

80 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/pollinator-trails-for-11-settlements/

81 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/overarching-principles/

82 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/pollinator-trails-for-11-settlements/

83 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/pollinator-trails-for-11-settlements/pembroke-dock-pollinator-trail/

84 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/overarching-principles/

85 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/pollinator-trails-for-11-settlements/

86 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/pollinator-trails-for-11-settlements/saundersfoot-pollinator-trail/

87 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/overarching-principles/

88 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/pollinator-trails-for-11-settlements/

89 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/st-davids/

90 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/overarching-principles/

91 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/pollinator-trails-for-11-settlements/

92 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/tenby/

93 https://botanicgarden.wales/wp-content/uploads/2021/08/50-Uchaf-Planhigion-Bwytadwy-Plangion-ar-gyfer-peillwyr.pdf

---


**94** https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/pollinator-trails-for-11-settlements/

**95** https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/overarching-principles/

**96** https://news.dorsetcouncil.gov.uk/2019/06/17/our-roadside-verges-a-fine-balance-to-strike/

**97** https://www.buglife.org.uk/news/huge-public-backing-for-councils-to-reduce-grass-cutting-to-help-save-our-bees/

**98** https://outco.co.uk/#:~:text=Dorset%20County%20Council%20saves%20around%20%C2%A393%2C000%20a%20year,highway%20verge%20mowing%20is%20approximately%20%C2%A335%2C000%20each%20year.

**99** https://www.examinerlive.co.uk/news/local-news/how-rotherhams-beautiful-wildflower-verges-18651477

**100** https://cdn.buglife.org.uk/2019/07/2.BuglifeCommunityMeadowspackHOWTOCREATEACOMMUNITYMEADOWweb.pdf

**101** https://cdn.buglife.org.uk/2019/07/Transport-Corridors-Pollinator-Sheet-Final_1.pdf

**102** https://www.biodiversitywales.org.uk/Content/Upload/How%20to%20make%20a%20meadow%20Cym.pdf

**103** https://meadows.plantlife.org.uk/

**104** https://www.dorsetcouncil.gov.uk/countryside-coast-parks/countryside-management/verge-cutting/verge-cutting-information-dorset

**105** https://www.abertawe.gov.uk/gofaluamfasgedicrog

**106** https://www.gardeningknowhow.com/ornamental/flowers/fgen/what-are-double-blooms.htm

**107** https://cdn.buglife.org.uk/2020/07/B-Friendly-in-your-Garden.pdf

108 https://botanicgarden.wales/wp-content/uploads/2020/05/Garddio-ar-gyfer-Peillwyr-Gardening-for-Pollinators.pdf

109 https://friendsoftheearth.uk/nature/gardening-bees

110 https://www.farmgarden.org.uk/sites/farmgarden.org.uk/files/benefits-community-growing-research-and-evidence.pdf

111 https://botanicgarden.wales/wp-content/uploads/2021/08/50-Uchaf-Planhigion-Bwytadwy-Plangion-ar-gyfer-peillwyr.pdf

112 https://www.farmgarden.org.uk/system/files/sustaining_your_garden.pdf

113 https://www.lamar.edu/sustainability/_files/documents/Multiple%20Benefits_2012.pdf

114 https://www.gov.uk/guidance/garden-communities

115 https://www.farmgarden.org.uk/system/files/fcfcg_cgr_pack_inners_wales-eng_web.pdf

116 https://www.theorchardproject.org.uk/guides_and_advice/links-and-further-resources/

117 http://www.stdogmaelsabbey.org.uk/peoplesorchard

118 https://renewwales.org.uk/bwyd-bendigedig-port-incredible-edible-porthmadog/

119 https://ecodewi.org.uk/st-davids-garden-project/

120 https://farmwildlife.info/2021/06/04/managing-hedges-for-pollinators/#:~:text=Blossoming%20hedge%20trees%20such%20as,for%20herbivorous%20butterflies%20and%20moths.

121 https://farmwildlife.info/2021/06/04/managing-hedges-for-pollinators/#:~:text=Blossoming%20hedge%20trees%20such%20as,for%20herbivorous%20butterflies%20and%20moths.

122 https://ptes.org/hedgerow/managing-hedgerows-top-tips/

123 https://hedgelink.org.uk/guidance/hedgerow-management-advice/

124 https://pollinators.ie/wordpress/wp-content/uploads/2018/04/How-to-guide-Nesting-2018-WEB.pdf

125 https://cdn.buglife.org.uk/2020/04/Bee-bank-booklet-2.pdf

126 https://www.thebuzzclub.uk/hoverfly-lagoons

127 https://www.rhs.org.uk/biodiversity/hoverflies

128 https://www.arfordirpenfro.cymru/gwarchodaeth/rheoli-coetiroedd/

129 https://www.arfordirpenfro.cymru/wp-content/uploads/2020/02/Cynllun-Rheolir-Parc-Cenedlaethol-2020-2024.pdf

130 https://cdn.buglife.org.uk/2019/07/Woodland-Pollinator-Sheet-Final_0.pdf

131 https://www.bumblebeeconservation.org/wp-content/uploads/2018/03/6192_defra_info_sheet_woodlands_final.pdf

132 https://www.bumblebeeconservation.org/wp-content/uploads/2021/04/BBCT171-Taddington-Valley-Wood-Land-management-options-for-bumblebees-and-pollinators-in-an-urban-fringe-ancient-woodland-03.21.pdf

133 https://www.buglife.org.uk/resources/habitat-management/cereal-field-margins/

134 https://www.buglife.org.uk/resources/habitat-management/cereal-field-margins/

135 https://www.rspb.org.uk/our-work/conservation/conservation-and-sustainability/farming/advice/managing-habitats/arable-field-margins/

136 https://www.buglife.org.uk/resources/farming-hub/

137 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/pollinator-strategies/overarching-principles/

138 https://www.bumblebeeconservation.org/beethechange/wp-content/uploads/2022/07/Community-Planting-Guide.pdf

139 https://botanicgarden.wales/wp-content/uploads/2015/10/Polllinating-Plants-Booklet-final-copy.pdf

140 https://www.biodiversitywales.org.uk/Content/Upload/Bee-friendly-plant-list-CY.pdf

141 https://lucmaps.co.uk/Pembrokeshire_GI/delivery/

---

**142** https://haveyoursay.pembrokeshire.gov.uk/urban-trees

# Adroddiad a luniwyd gan LUC

**Bryste**
12th Floor, Colston Tower, Colston Street, Bristol BS1 4XE
0117 929 1997
bristol@landuse.co.uk

**Caerdydd**
16A, 15fed Llawr, Tŷ Brunel, 2 Fitzalan Rd, Caerdydd CF24 0EB
0292 032 9006
cardiff@landuse.co.uk

**Caeredin**
Atholl Exchange, 6 Canning Street, Edinburgh EH3 8EG
0131 202 1616
edinburgh@landuse.co.uk

**Glasgow**
37 Otago Street, Glasgow G12 8JJ
0141 334 9595
glasgow@landuse.co.uk

**Llundain**
250 Waterloo Road, London SE1 8RD
020 7383 5784
london@landuse.co.uk

**Manceinion**
6th Floor, 55 King Street, Manchester M2 4LQ
0161 537 5960
manchester@landuse.co.uk

**landuse.co.uk**

Dylunio Tirwedd / Cynllunio ac Asesu Strategol
Cynllunio Datblygu / Dylunio ac Uwchgynllunio Trefol
Asesu Effaith Amgylcheddol / Cynllunio ac Asesu Tirwedd

**Adroddiad a luniwyd gan LUC**

Rheoli Tirwedd / Ecoleg / Amgylchedd Hanesyddol / Systemau Gwybodaeth Ddaearol a Delweddu